



Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte

Cynllun Rheoli 2019-2029



Tudalen Gynnwys

Rhestr o Dalfyriadau	4
Pennod 1 Rhagarweiniad	5
Pennod 2 Gwerth Cyffredinol Eithriadol ac Arwyddocâd Diwylliannol	11
Pennod 3 Diogelu'r Safle Treftadaeth y Byd	19
Pennod 4 Themâu, Materion a Chyfleoedd Allweddol	23
Pennod 5 Gweledigaeth ac Amcanion ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd	29
Pennod 6 Cynllun Gweithredu	32
ATODIAD A	53
ATODIAD B	56
ATODIAD C	59
ATODIAD D	60
ATODIAD E Nodweddion Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte	76
ATODIAD F	79
SAFLE TREFTADAETH Y BYD TRAPHONT DDŴR A CHAMLAS PONTCYSYLLTE	79
ATODIAD 1	86

Rhestr o Dalfyriadau

AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Deddf CGHT	Y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
UE	Undeb Ewropeaidd
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol
FfPCC	Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol
GCE	Gwerth Cyffredinol Eithriadol
CBHC	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
HG	Heneb Gofrestredig
DGR	Dogfen Raglennu Sengl
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
STEAM	Scarborough Tourism Economic Activity Monitor
UNESCO	Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig
STyB	Safle Treftadaeth y Byd
Deddf LICD	Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol

Pennod 1 Rhagarweiniad


Beth yw Safle Treftadaeth y Byd?

- 1.1 Cafodd y cysyniad o Dreftadaeth y Byd ei greu yn 1972 yng Nghonfensiwn Treftadaeth y Byd UNESCO (Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig). Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn lleoedd y mae eu harwyddocâd diwylliannol a/ neu naturiol *'mor eithriadol y mae'n rhychwantu ffiniau cenedlaethol ac o bwysigrwydd cyffredin i genedlaethau heddiw a dyfodol y ddynoliaeth gyfan'* (Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO).
- 1.2 Erbyn hyn, mae dros fil o safleoedd wedi'u cynnwys ar Restr Treftadaeth y Byd yn fyd-eang, gan adlewyrchu eiddo o bob oedran a math, yn cynnwys tirweddau diwylliannol a safleoedd diwydiannol. Mae tri Safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru (Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward I yng Ngwynedd, Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, a Thraphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte). Mae Cadw yn disgrifio Safleoedd Treftadaeth y Byd fel *'lleoedd i'w trysori a'u dathlu am byth'*, fel rhan o gasgliad gwirioneddol unigryw o arwyddocâd rhyngwladol.
- 1.3 Er mwyn cael eu cynnwys ar Restr Treftadaeth y Byd, mae'n rhaid bod gan safleoedd Werth Cyffredinol Eithriadol. Mae'r datganiad o Werth Cyffredinol Eithriadol yn helpu i feithrin dealltwriaeth glir a rennir o'r rhesymau dros arysgrifo'r safle ac mae'n nodi pa nodweddion ar y safle sydd angen eu rheoli yn y tymor hir.

Pwrpas a Strwythur y Cynllun Rheoli

- 1.4 Mae'r Cynllun Rheoli yn darparu'r fframwaith ar gyfer cynnal a chyfathrebu Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd.
- 1.5 Dyma strwythur y Cynllun Rheoli:

- Pennod 2** yn nodi Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, ynghyd â rhesymau dros yr arysgrif, arwyddocâd diwylliannol, priodoleddau, dilysrwydd ac uniondeb.
- Pennod 3** yn crynhoi cyd-destun polisi a chynllunio sy'n diogelu Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte.
- Pennod 4** yn nodi, fesul thema, y materion a chyfleoedd a all effeithio ar Safle Treftadaeth y Byd yn ystod y cyfnod Cynllun Rheoli.
- Pennod 5** yn nodi'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd, ynghyd â chysylltiadau i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig (2015).
- Pennod 6** yn rhoi Cynllun Gweithredu, gan gynnwys camau gweithredu, sefydliadau arweiniol a therfynau amser ar gyfer cyflawni.
- Pennod 7** yn nodi'r prosesau monitro.



Ffigwr 1.1
Maint Safle Treftadaeth y Byd

Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte

- 1.6. Mae Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn gamlas syth 11 milltir (18 km) o hyd a nodweddion cysylltiedig, sy'n cyfuno pen gogleddol Camlas Ellesmere a Chamlas Llangollen sy'n ymuno â hi ym Masn Trefor. Mae'r rhan fwyaf o'r Safle Treftadaeth y Byd (10.5 milltir) yng Nghymru, ac mae'r 0.5 milltir sy'n weddill yn Lloegr. Cafodd ei harysgrifo yn Safle Treftadaeth y Byd yn 2009 fel campwaith yn natblygiad trafnidiaeth hanesyddol ac enghraifft eithriadol o'r datblygiadau ym maes adeiladu camlesi yn ystod y Chwyldro Diwydiannol, un o'r trobwyntiau pwysicaf yn hanes y ddynoliaeth.
- 1.7 Nid yw'r Cynllun Rheoli hwn yn rhoi hanes cynhwysfawr na dadansoddiad o'r Safle Treftadaeth y Byd a'i glustogfa; mae gwybodaeth fanwl ar gael mewn amryw o ddogfennau eraill gan gynnwys y Ddogfen Enwebu a luniwyd yn 2007¹. Mae rhestr lawn o gyfeiriadau a gwybodaeth dechnegol yn ymwneud â chefnidir hanesyddol y Safle Treftadaeth y Byd a'i nodweddion ar gael yn Atodiad A ar ddiwedd y Cynllun Rheoli hwn. Mae'r adrannau isod yn crynhoi'r cyd-destun hanesyddol a daearyddol.

Cyd-destun Hanesyddol

- 1.8 Adeiladwyd Camlas Ellesmere (Llangollen erbyn hyn) yn ystod cyfnod y 'Mania Camlesi' rhwng 1793 a 1808. Un o'r rhesymau dros hyrwyddo oedd gofyniad angenrheidiol er mwyn ehangu gweithfeydd haearn, glofeydd a diwydiannau cysylltiedig yn ardal Rhiwabon a Wrecsam. William Jessop a Thomas Telford, dau beiriannydd dihafal ar ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif, oedd yn gyfrifol am y gwaith dylunio, daeth y gamlas â thrafnidiaeth ddŵr o wastadeddau Lloegr i dirwedd garw ucheldiroedd Cymru, gan ddefnyddio technegau arloesol i groesi dyffrynnoedd dwy afon fawr a'r grib rhyngddynt.
- 1.9 Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu camlas fwydo y gellid ei mordwyo o Drefor i afon Dyfrdwy yn Llantysilio (Cangen Llangollen) o dan Ddeddf Seneddol wahanol ym 1804, a'i phwrpas oedd bwydo dŵr i system Camlas Ellesmere o Raeadr y Bedol, yn ogystal â gwasanaethu tref Llangollen a'r chwareli llechi a chalchfaen cyfagos.
- 1.10 Ar adeg ei gwblhau, cafodd y gamlas hon ei disgrifio fel '*cyfansoddiad o weithiau sy'n fwy anodd i'w cyflawni nag o bosibl yn unrhyw le o fewn pellter cyfartal o fordwyo'r gamlas*'. Bu'n rhaid i'r peirianwyr ymyrryd yn y dirwedd ar raddfa a dwysedd nas gwelwyd o'r blaen er mwyn wynebu'r her o dorri dyfrffordd yn groes i raen topograffiaeth ucheldir Cymru. Byddai pob un o'r nodweddion i'w gweld yn y safle yn dod yn nodweddiadol o lwybrau cludiant peirianegol, gan gynnwys twneli, toriadau, traphontydd ac argloddiau, llawer ohonynt yn dechnegol arloesol neu ar raddfa enfawr, ynghyd â phontydd, cylfatiau, coredau a nodweddion cysylltiedig.

- 1.11 Traphont ddŵr Pontcysyllte oedd gorchest gynharaf Thomas Telford i gael ei chydabod yn rhyngwladol a'r gwaith mawreddog hwn a ddewiswyd ar gyfer ei gynnwys yn y portread o Telford fel Llywydd cyntaf Sefydliad y Peirianwyr Sifil. William Jessop oedd un o beirianwyr mwyaf cynhyrchol Oes y Camlesi.
- 1.12 Er bod pwrpas gwreiddiol y gamlas fel llwybr trwodd rhwng yr Afon Hafren a Mersi wedi mynd yn angof yn 1798, parhaodd y gamlas i chwarae rhan bwysig fel terminws ym Masn Trefor (lle cafodd cysylltiadau eu creu gyda diwydiannau lleol ar hyd y dramffordd a chamlas fer i ddiwydiannau Plas Kynaston) ac fel bwydwr dŵr o Raeadr y Bedol. Mae'r gamlas wedi parhau i gael ei defnyddio am ddwy ganrif; er i ddyfodiad y rheilffyrdd olygu bod llai o alw amdani ar ddiwedd y 19eg ganrif ac roedd traffig masnachol wedi dod i ben yn gyfan gwbl erbyn adeg yr Ail Ryfel Byd, ers hynny mae'r gamlas wedi cael ei defnyddio gan gychod pleser, fel atyniad i ymwelwyr ac i gario dŵr yfed. Heddiw, Camlas Llangollen yw un o'r camlesi prysuraf yn y Deyrnas Unedig; mae tua 15,000 o symudiadau gan gychod ar y gamlas bob blwyddyn ac mae'n denu oddeutu 300,000 o ymwelwyr yn flynyddol.

Cyd-destun Daearyddol

- 1.13 Y ffordd orau o ddeall y gamlas yw ei rhannu yn ddwy adran, yr adran gyntaf o Bont y Galedryd i Fasn Trefor a'r ail ran, sef Braich Llangollen (a enwir fel y 'Linell Ddŵr'), o Fasn Trefor i Raeadr y Bedol. Isod, rhoddir disgrifiad byr o lwybr y gamlas, ynghyd â'r prif nodweddion.

Pont y Galedryd i Fasn Trefor

- 1.14 Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn dechrau ym Mhont y Galedryd ger Rhoswiel yn Swydd Amwythig, ar ochr Lloegr i'r ffin. Hon yw un o'r ychydig bontydd yn y Safle Treftadaeth y Byd i gael ei hadeiladu o frics; defnyddiwyd carreg leol ar gyfer y mwyafrif o'r gwaith. Tybir bod Pont y Galedryd yn rhy bell o'r chwareli cerrig lle cloddiwyd y deunydd crai ar gyfer y rhan fwyaf o'r gamlas ac felly mae'r bont hon yn fwy nodweddiadol o bontydd safonol camlas y 'Shropshire Union'. Yn wreiddiol, glanfa Galedryd oedd diwedd taith Tramffordd Glynceiriog, a adeiladwyd i gludo cerrig a llechi o chwareli Glynceiriog i'r gamlas.
- 1.15 Mae'r gamlas yn mynd heibio ochr ogleddol pentref Chirk Bank, safle glanfa bwysig ar un adeg ynghyd â nifer o fythynnod gyda chysylltiad â'r gamlas a'r bobl a oedd yn gweithio arni. Ar ôl Chirk Bank, mae'r gamlas yn troi i gyfeiriad y gogledd ac yn cael ei chario uwchlaw afon Ceiriog gan Draphont Ddŵr y Waun sydd 21m o uchder, cyn mynd drwy'r bryn ar hyd Twannel y Waun sydd 421m o hyd. Mae rheilffordd yr Amwythig-Wrecsam-Caer, yn rhedeg ger y ddyfrbont a'r twannel. Mae tref y Waun wedi'i lleoli i'r dwyrain o'r gamlas.

¹ Gellir dod o hyd i ddogfennau Enwebu ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yma: <https://whc.unesco.org/en/list/1303/documents/>

- 1.16 Mae Marina'r Waun hanner ffordd rhwng y Waun a Froncysyllte, ac ar ôl mynd heibio'r Marina, mae'r gamlas yn mynd drwy Dwnnel y Tai Gwyn. Yna mae'r gamlas yn mynd i'r gorllewin tuag at Froncysyllte. Ymhlith rhai o'r prif nodweddion ar hyd y daith mae Cloddiadau Camlas Pont y Gwyddelod, cloddiad 380m o hyd, 8-10m o ddyfnder sy'n cael ei ystyried yn un o'r cynlluniau peirianeg sifil 'torri a llenwi' cyntaf; defnyddiwyd y rwbel i adeiladu'r arglawdd yn Froncysyllte. Basn Froncysyllte oedd pen draw'r gamlas pan oedd Traphont ddŵr Pontcysyllte yn cael ei hadeiladu, ac roedd pobl yn masnachu ar lanfa'r gamlas gerllaw. Mae casgliad arbennig o chwe olyn galch ychydig i'r dwyrain o Froncysyllte a Thrachont ddŵr Pontcysyllte, a adeiladwyd yn y sgarp rhwng y gamlas a'r A5.
- 1.17 O Froncysyllte mae'r gamlas yn croesi afon Dyfrdwy i Fasn Trefor ar draws y Draphont ddŵr 38m o uchder a 307m o hyd, a hon yw un o nodweddion unigol mwyaf trawiadol y Safle Treftadaeth y Byd. Hon oedd y draphont ddŵr uchaf y gellid teithio arni yn y byd am ddwy ganrif.


Basn Trefor i Raeadr y Bedol

- 1.18 Basn Trefor oedd y lanfa bwysicaf ar Gamlas Ellesmere gyda'r gyfnawidfa o Reilffordd Ruabon Brook y gamlas, (tramffordd yn gwasanaethu glofeydd, gweithfeydd haearn a gweithfeydd brics). Roedd Camlas Plas Kynaston yn ymestyn o ddiwedd y basn tuag at Gefn Mawr, gan wasanaethu gwaith cemegion, odyddau clach, glofeydd a diwydiannau eraill. Ger Basn Trefor roedd gwaith brics a theracota mawr.
- 1.19 Mae'r gamlas yn rhedeg o Fasn Trefor yn dilyn cyfuchlin ar hyd Dyffryn Dyfrdwy tuag at dref Llangollen, gan fynd heibio ochr ogleddol y dref. Roedd glanfa nwyddau cyffredinol a warws ger y gamlas yn gwasanaethu'r dref ac mae Marina Llangollen ychydig bellter y tu allan i'r dref i'r gorllewin.
- 1.20 O'r fan hon mae'r gamlas yn mynd ymlaen at Raeadr y Bedol, cored haearn bwrw a cherrig a gynlluniwyd gan Telford. Dyma ddarn mwyaf cul y gamlas, a dim ond at y Bont Gadwyn y gellir llywio.

Yr Angen am Gynllun Rheoli

- 1.21 Mae UNESCO yn argymhell llunio Cynllun Rheoli ar gyfer pob Safle Treftadaeth y Byd i ddwyn ynghyd yr holl bartion sydd â chyfrifoldeb er mwyn rheoli'r safle ar y cyd. Adlewyrchir hyn yn y canllawiau diweddar a luniwyd gan Cadw sy'n nodi mai un o dair egwyddor gwarchod a rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yn gynaliadwy yw *'llunio a gweithredu cynlluniau rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd ar y cyd â chyrff eraill er mwyn sicrhau cyfranogiad effeithiol a gweithredol pob budd-ddeiliad allweddol'*²

- 1.22 Dylai cynlluniau rheoli sefydlu fframwaith clir ar gyfer dod i benderfyniadau a chyflwyno polisiâu a chatau gweithredu wedi'u cynllunio i sicrhau bod Gwerth Cyffredinol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei gynnal a'i rannu.



- 1.23 Dylai cynlluniau rheoli ddilyn proses barhaus o asesu, pennu amcanion, ymgynghori, monitro ac adolygu, er mwyn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau sy'n newid a sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cyflawni.
- 1.24 Ymhlith rhai o'r newidiadau sydd wedi digwydd ers llunio'r Cynllun Rheoli cyntaf mae newidiadau i'r cyd-destun polisi lleol a chenedlaethol, ynghyd â newidiadau gweinyddol a sefydliadol. Mae enghreifftiau yn cynnwys pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn 2015, gyda phwyslais erbyn hyn ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol; yn ogystal â phasio Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn 2016. Mae newidiadau gweinyddol a sefydliadol yn cynnwys ehangu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd yn 2011 i gynnwys y rhan fwyaf o Ddyffryn Dyfrdwy, lansio'r 'Canal and River Trust' (Glandŵr Cymru) yn 2012 (Dyfrffyrdd Prydain yn flaenorol) ac ad-drefnu llywodraeth leol yn Lloegr gan arwain at greu 'Shropshire Council' (Cyngor Swydd Amwythig). Ar lefel ryngwladol, mae newidiadau yn cynnwys bod holl wledydd sy'n aelodau o'r Cenhedloedd Unedig yn 2015 wedi mabwysiadu Agenda 2030 ar gyfer Datblygiadau Cynaliadwy. Mae 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy yn rhan ganolog o'r Agenda.
- 1.25 Yn anorod, mae'r cyfleoedd a phroblemau sy'n wynebu'r Safle Treftadaeth y Byd wedi newid ers llunio'r Cynllun Rheoli diwethaf, er enghraifft, y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o ganlyniad i statws Safle Treftadaeth y Byd a'r pwysau cysylltiedig yn ymwneud â mynediad a rheoli ymwelwyr.

² <http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/20170531Managing%20Change%20in%20World%20Heritage%20Sites%20in%20Wales%2031146%20EN.pdf>

Cyflawniadau hyd yma

- 1.26 Lluniwyd Cynllun Rheoli cyntaf Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn 2007 fel rhan o broses enwebu ar gyfer statws Safle Treftadaeth y Byd. Roedd y Cynllun yn canolbwyntio ar warchod yr asedau ffisegol, rheoli defnydd tir a phrosesau sy'n cyfrannu at y Gwerth Eithriadol Cyffredinol, a gwelliannau o ran dehongli, mynediad a chyfleusterau. Mae rhai o gyflawniadau'r Cynllun Rheoli cyntaf hwn yn cynnwys:

Cadwraeth – cofrestrwyd yr holl gamlas o Raeadr y Bedol at Bont Galedryd yn heneb gofrestredig, a dynodwyd nifer o adeiladau eraill yn adeiladau rhestredig. Newidiwyd ffiniau dwy Ardal Gadwraeth (Basn Trefor a'r Waun), mabwysiadwyd Asesiadau Cymeriad Ardal Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli a rhoddwyd Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) ar waith. Mae goblygiadau'r dynodiadau gwahanol hyn wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 3.5, 3.12 a 3.13.

Cynllunio – Cyhoeddwyd Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd yn 2012 ac fe'u mabwysiadwyd gan bob un o'r awdurdodau cynllunio perthnasol. Cyhoeddodd Cadw astudiaethau o nodweddion trefol Cefn Mawr a'r Cylch a Llangollen yn 2014 a 2016. Mae gwarchodaeth y safle a ddarperir drwy'r system cynllunio defnydd tir wedi'i amlinellu ym mharagraffau 3.9 – 3.11.

Cyflwr – mae cyflwr adeiladau'r gamlas yn parhau i gael ei fonitro yn flynyddol a chynhaliwyd adolygiad o'r adeiladau sydd wedi'u cynnwys yn Rhestr Safleoedd Treftadaeth y Byd (y *Gazetteer*, sef rhestr o'r holl nodweddion ar y Safle Treftadaeth y Byd) yn 2012 a 2017. Yn yr ail arolwg diweddaraf, mae cyflwr 20% o'r nodweddion ar y Rhestr wedi gwella a nodwyd bod traean o'r 168 nodwedd a restrir mewn cyflwr 'gweddol'; fodd bynnag, mae cyflwr dros 10% o'r nodweddion wedi dirywio ers yr arolwg diwethaf a nodwyd bod dros 30% o'r nodweddion o safon is na 'gweddol'.

Cyflwyniad – datblygwyd arwyddion a strategaethau dehongli a lansiwyd gwefan sy'n addas i ffonau symudol yn 2016. Lluniwyd deunydd hyrwyddo yn dangos cyfleoedd i ymwelwyr ar hyd y llwybr 11 milltir o hyd, gan gynnwys cynhyrchu Llyfryn Canllaw Safle Treftadaeth y Byd gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Trefnwyd rhaglen addysg barhaus gydag ysgolion lleol.

Mynediad – gwelliannau i feysydd parcio, toiledau a'r llwybr tynnu ar hyd y Safle Treftadaeth y Byd gan gynnwys gwelliannau o ran mynediad i Bont Postles. Ymestyn mynediad i'r pwynt gwybodaeth a chanolfan ymwelwyr ym Masn Trefor, creu mynedfeydd canŵ yn Llantystilio ac atgyweirio'r doc sych ym Masn Trefor i ddarparu lleoliad ar gyfer caffi ar gwch.


Nawdd – llwyddiant yr arian grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri o dan y Prosiect Ein Tirwedd Ddeniadol, sy'n canolbwyntio ar dirwedd Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte. Themâu'r prosiect yw'r teithiau ysbrydoledig a fu'n nodwedd o'r ardal a groesir gan y gamlas, ffordd A5 Telford ac afon Dyfrdwy yn y gorffennol, ac sy'n parhau felly hyd heddiw.

Perchenogaeth a Llywodraethiant y Safle Treftadaeth y Byd

- 1.27 Mae Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn croesi ardaloedd tri awdurdod lleol (Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Swydd Amwythig, 'Shropshire Council') yn ogystal â'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Glandŵr Cymru yw prif dirfeddiannwr y Safle Treftadaeth y Byd a'r corff cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb dros y gamlas a'r rhan fwyaf o'i hadeiladau; mae adeiladau eraill (pontydd yn benodol) yn berchen i'r tri awdurdod lleol).
- 1.28 Mae'r rhan fwyaf o'r Safle Treftadaeth y Byd a'i glustogfa erbyn hyn o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
- 1.29 Rhoddir crynodeb o drefniadau llywodraethiant Safle Treftadaeth y Byd yn Ffigurau 1.2 ac 1.3. Mae Ffigur 1.2 yn nodi'r fframwaith eang y mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn rhan ohono, gan roi ystyriaeth i'r cyd-destun rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.
- 1.30 Mae ffigur 1.3 yn dangos yn fanwl sut mae llywodraethu Safle Treftadaeth y Byd yn gweithio ar lefel leol, gan gynnwys gweithredu tri Grŵp Cyflawni (Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd; Cynllunio, Tirlunio a Chadwraeth; a Dysgu). Bydd Fforwm Cymunedol yn cael ei sefydlu ar ddechrau'r cyfnod Cynllun Rheoli er mwyn cryfhau ymgysylltiad y gymuned ac i hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r Safle Treftadaeth y Byd a'i werth cyffredinol eithriadol. Bydd y Fforwm Cymunedol yn cynnwys cynrychiolaeth o gymunedau daearyddol a chymunedau buddiant, a chaiff ei ddefnyddio fel mecanwaith i hysbysu a chynnwys pobl leol yn uniongyrchol mewn agweddau amrywiol o Safle Treftadaeth y Byd.

UNESCO Pwyllgor Treftadaeth y Byd	Yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu Confensiwn Treftadaeth y Byd Cefnogir gan Ganolfan Treftadaeth y Byd
Comisiwn Cenedlaethol UNESCO y Deyrnas Unedig	Canolbwynt yn y Deyrnas Unedig ar gyfer gweithgareddau UNESCO Yn hyrwyddo amcanion addysgol, gwyddonol a diwylliannol ehangach UNESCO
Yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon	Adran y llywodraeth sy'n arwain ar Dreftadaeth y Byd Yn gyfrifol am sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn bodloni ei rhwymedigaethau i'r Confensiwn Treftadaeth y Byd
Gweinidogion Cymru Cadw	Mae'r gwaith o warchod Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru wedi'i ddatganoli Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Chonfensiwn Treftadaeth y Byd, a gyflawnir gan Cadw
Historic England	Corff ymgynghorol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar rwymedigaethau yn ymwneud â Threftadaeth y Byd
ICOMOS UK	Corff ymgynghorol rhyngwladol ar dreftadaeth ddiwylliannol Yn rhoi cyngor anstatudol i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru
Treftadaeth y Byd y Du	Eiriolaeth Rhannu arferion da Cydweithredu Rhwydweithio
Bwrdd Strategol Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte	Yn cynnwys aelodau o'r awdurdodau lleol (aelodau a swyddogion), yr AHNE a Glandŵr Cymru, ynghyd ag ymgynghorwyr (ICOMOS, Cadw, Historic England,)
Cydlynnydd y Safle Treftadaeth y Byd	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Gyda chymorth partneriaeth o randdeiliaid a grwpiau cyflawni

Ffigwr 1.3
Llywodraeth Leol



Cyfranogiad y Gymuned a Budd-ddeiliaid

1.31 Datblygwyd y Cynllun Rheoli drwy gydweithio'n agos gyda budd-ddeiliaid a chymunedau lleol. Cynhaliwyd gweithdy ar gyfer cynrychiolwyr sefydliadau budd-ddeiliaid, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned ar y Safle Treftadaeth y Byd a'i glustogfa, swyddogion ac aelodau etholedig awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol. Cynhaliwyd cyfarfodydd a thrafodaethau gyda grwpiau cymunedol lleol, cymdeithasau dinesig a busnesau lleol i nodi diddordebau'r gymuned, a materion a chyfleoedd ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd. Gweithiwyd yn agos gyda phartneriaid sy'n fudd-ddeiliaid, fel AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, er mwyn sicrhau cysondeb a chydweithio yn y gwaith rheoli sydd o fudd i warchod nodweddion arbennig y Safle Treftadaeth y Byd a'r AHNE. Mae Glandŵr Cymru yn cynnal rhaglen addysg lawn gydag ysgolion lleol drwy ymweliadau a gwaith allgymorth; fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Rheoli hwn, derbyniwyd cynnig i weithio gydag ysgolion lleol, gan helpu i gryfhau cysylltiadau gyda chenedlaethau'r dyfodol.

1.32 Mae'r Cynllun Rheoli hefyd yn seiliedig ar waith ymgynghori ac ymgysylltu gyda chymunedau fel rhan o brosiectau a phartneriaethau eraill. Un enghraifft allweddol yw Prosiect Ein Tirwedd Ddeniadol sydd wedi derbyn nawdd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri ac sy'n canolbwyntio ar Ddyffryn Dyfrdwy, gyda Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn ganolbwynt i hynny. Mae themâu'r prosiect yn seiliedig ar deithiau ysbrydoledig a fu'n nodwedd allweddol o'r ardal hon yn y gorffennol, ac sy'n parhau felly hyd heddiw. Mae Cynllun Gweithredu Cadwraeth Prosiect Ein Tirwedd Ddeniadol 'yn cydnabod bod y dirwedd hon o dan bwysau mawr a chynyddol, ac mae nifer fawr a chynyddol o ymwelwyr yn cael eu denu at rai o'n safleoedd mwyaf bregus'; hefyd 'nid yw'r cymunedau sy'n byw ac yn gweithio yma yn gweld y buddion sydd i'w cael gan y dirwedd ac maent yn teimlo fwyfwy nad oes ganddynt gysylltiad â threftadaeth yr ardal'³. Mae cyfnod datblygu'r prosiect wedi cynnwys pob math o ddigwyddiadau i ymgysylltu â'r gymuned er mwyn deall dyheadau'r gymuned, ac mae'r gorgyffwrdd rhwng y rhain â thrafodaethau yn ymwneud â'r Safle Treftadaeth y Byd yn amlwg.

³ Our Picturesque Landscape Conservation Action Plan

Pennod 2 Gwerth Cyffredinol Eithriadol ac Arwyddocâd Diwylliannol

Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r Bennod hon yn rhoi disgrifiad o'r Safle Treftadaeth y Byd o ran ei Werth Eithriadol Cyffredinol a'i arwyddocâd diwylliannol, gan gynnwys y cyfiawnhad dros ei arysgrifo, datganiadau yn ymwneud â'i gyfanrwydd a dilysrwydd, a chyfraniad ehangach y glustogfa a'r lleoliad at ei Werth Eithriadol Cyffredinol.
- 2.2 Mae Gwerth Cyffredinol Eithriadol yn golygu lleoedd y mae eu harwyddocâd diwylliannol a/neu naturiol mor eithriadol y mae'n rhychwantu ffiniau cenedlaethol. Er mwyn cael ei gynnwys ar restr treftadaeth y byd UNESCO, mae'n rhaid i safle fodloni un neu fwy o ddeg maen prawf sy'n asesu gwerth cyffredinol eithriadol, bodloni gofynion dilysrwydd a/neu gyflawnrwydd a chyflwyno pwysigrwydd y safle. Ystyr cyfanrwydd yw llwyrdeb neu uniondeb y nodweddion sydd eu hangen i gyfleu Gwerth Cyffredinol Eithriadol, ystyr dilysrwydd ar y llaw arall yw'r cysylltiad rhwng nodweddion a Gwerth Cyffredinol Eithriadol. Mae sawl math o nodwedd e.e: Ffurf a chynllun; deunyddiau a sylweddau; defnydd a swyddogaeth; traddodiadau, technegau a systemau rheoli, a lleoliad.

Datganiad o Werth Cyffredinol Eithriadol

- 2.3 Mae datganiad llawn o Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte a'r meini prawf a fodlonwyd wedi'u hamlinellu isod ac i'w gweld yn gryno yn Ffigwr 2.1, cawsant eu mabwysiadu gan Bwyllgor y Safle Treftadaeth Byd yn 2009.

Gwerth Cyffredinol Eithriadol

Synthesis Cryno

Mae Camlas Pontcysyllte yn enghraifft nodedig o greu dyfrffordd beirianyiddol a adeiladwyd gan ddyn mewn amgylchedd daearyddol anodd, ar ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif. Roedd angen gwaith peirianeg sifil helaeth a mentrus. Mae Dyfrbont Pontcysyllte yn gampwaith arloesol o beirianeg a phensaernïaeth anferthol gan y peiriannydd sifil enwog Thomas Telford. Fe'i hadeiladwyd gan ddefnyddio bwâu metel a gefnogir gan bileri cerrig tal, main. Mae Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte yn enghreifftiau cynnar a rhagorol o'r datblygiadau arloesol a ddaeth yn sgil y Chwyldro Diwydiannol ym Mhrydain, lle gwnaethpwyd datblygiad pendant mewn galluedd cludiant. Maent yn dyst o gyfnewidfeydd a dylanwadau rhyngwladol mawr iawn ym meysydd dyfrffyrdd mewndirol, peirianeg sifil, cynllunio defnydd tir, a'r defnydd o haearn mewn dylunio strwythurol.

Maen Prawf (i): Mae Dyfrbont Pontcysyllte yn strwythur peirianeg sifil anferthol arloesol iawn, a wnaed gan ddefnyddio bwâu metel a gefnogir gan bileri cerrig uchel, main. Dyma gampwaith mawr cyntaf y peiriannydd sifil Thomas

Telford a ffurfiodd sail i'w enw da rhyngwladol rhagorol. Mae'n dyst i alluoedd cynhyrchu diwydiant haearn Prydain, a oedd yn unigryw ar y pryd.

Maen Prawf (ii): Mae faint o gamlesi a adeiladwyd ym Mhrydain Fawr, o ail hanner y 18fed ganrif ymlaen, a Chamlas Pontcysyllte yn benodol, mewn rhanbarth anodd, yn dyst i'r cyfnewidfeydd technegol sylweddol a chynnydd pendant wrth ddylunio ac adeiladu dyfrffyrdd artifisial.

Maen Prawf (iv): Mae Camlas Pontcysyllte a'i strwythurau peirianeg sifil yn dystiolaeth i gam hanfodol yn y gwaith o ddatblygu cludiant cargo trwm er mwyn hyrwyddo'r Chwyldro Diwydiannol ymhellach. Maent yn gynrychiolwyr rhagorol o'i bosibiliadau technegol ac anferthol newydd.

Cyfanrwydd a Dilysrwydd

Mae cyfanrwydd y ddyfrffordd wedi cael ei gynnal mewn strwythurau hydrolig a pheirianeg sifil sydd wedi aros yn eu ffurf wreiddiol. Fodd bynnag, mae'r argloddiau hanesyddol, wedi'u gwneud o rwbel, wedi codi problemau sylweddol o ran sefydlogrwydd a diddosi, yn enwedig yn ail hanner yr 20fed ganrif. Mae'r gwaith atgyweirio wedi cynnwys defnyddio atebion technegol sydd yn wahanol i'r ôl-lenwadau cychwynnol syml, ar gyfer ymwrthedd strwythurol a diddosi: concrit, pileri dur, geotecstilau, ac ati. O safbwynt cyfanrwydd, mae'r gweithiau hyn wedi ei gwneud yn bosibl i gynnal gweithrediad hydrolig y ddyfrffordd ac i warchod ei nodweddion morffolegol cyffredinol. Mae cyfanrwydd y tirweddau a chlustogfa'r eiddo yn cyfrannu at y mynegiant o werth yr eiddo.

Mae gan yr eiddo'r holl elfennau cyfanrwydd angenrheidiol ar gyfer mynegi ei werth, fel camlas hanesyddol bwysig y Chwyldro Diwydiannol. Mae'r ychydig newidiadau strwythurol sydd wedi cael eu gwneud i'r ddwy draphont fawr wedi aros yn eilaidd, gan gyfrannu at gynnal a chadw'r eiddo mewn defnydd. Mae newidiadau mewn deunyddiau wedi aros yn gyfyngedig dros hyd oes yr eiddo. Yn ystod y gwaith atgyweirio meini yn y 20fed ganrif ni ddefnyddiwyd bob amser y mathau gwreiddiol o forter neu garreg. Mae'r adeiladau sy'n gysylltiedig â'r gamlas a'i amgylchedd cyfagos fel arfer yn cyflawni lefel dda o ddilysrwydd.

Gofynion gwarchod a rheoli

Mae gwaith rheoli technegol a choffaol Dyfrffyrdd Prydain yn foddhaol. Mae'r cynllun rheoli'n dderbyniol; mae'n nodi amcanion y gadwraeth yn glir, ond mae modd ei wella drwy ddefnyddio dull unedig i warchod y glustogfa a drafftio cynllun i ddatblygu twristiaeth a dehongli safleoedd.

Cyfiawnhad dros ei Arysgrifo

- 2.4 Mae'r Cyfiawnhad dros ei Arysgrifo wedi'i amlinellu yn y Ddogfen Enwebu wreiddiol fel a ganlyn:
Mae Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte:
i) yn gampwaith gan ddau ffigwr enwog o'r cyfnod arwrol o waith peirianeg sifil ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg
ii) yn arddangos cyfnewid gwerthoedd rhyngwladol pwysig o ran mordwyo fewndirol, peirianeg sifil a defnyddio haearn ym maes dylunio strwythurol; ac
iv) yn enghraifft wych o welliannau trafnidiaeth y Chwyldro Diwydiannol, a ddechreuodd y broses o ddiwydiannu a ledaenodd i Ewrop, Gogledd America a gweddill y byd.
- 2.5 Mae'r dadansoddiad canlynol yn amlinellu pam fod y Safle Enwebedig o werth cyffredinol eithriadol mewn perthynas â meini prawf i, ii ac iv o'r Confensiwn Treftadaeth Byd.
- 2.6 Roedd enwebiad gwreiddiol Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte yn gyson â'r angen a nodwyd gan y Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd (ICOMOS) i gydbwyso rhestr treftadaeth y byd mewn perthynas â safleoedd technolegol o'r cyfnod rhwng 1793 a 1914. Mae ICOMOS a'r Pwyllgor Rhyngwladol ar gyfer Cadwraeth Treftadaeth Ddiwydiannol, fel pwyllgorau gwyddonol rhyngwladol sy'n gweithredu fel ymgynghorwyr i UNESCO, wedi archwilio'r Safle a daethpwyd i'r canlyniad ei fod o arwyddocâd rhyngwladol mewn dwy Astudiaeth Thematig: *The International Canal Monuments List* (1996) a *Context for World Heritage Bridges* (1997). Cymeradwywyd y gwerthusiad gan gyfres o bapurau arbenigol ac astudiaethau manwl ac mewn cynhadledd rhyngwladol ym mis Mehefin 2007, mae'r canfyddiadau wedi'u hymgorffori yn y Ddogfen Enwebu. (2008)
- 2.7 Mae'r canllawiau ar gyfer cofrestru camlesi treftadaeth wedi'u nodi yn Atodiad 3 o'r *Canllawiau Gweithredol ar Weithrediadau'r Confensiwn Treftadaeth Byd*. Mae'r rhain yn nodi fod camlesi o bosibl yn arwyddocaol ar sail technolegol, economaidd, cymdeithasol a thirwedd. Maent yn cydnabod pwysigrwydd camlesi mewn perthynas â datblygiad economaidd fel y llwybrau cyntaf i gael eu creu gan ddyn sy'n cario llwythi cargo ac yn nodi meysydd allweddol o ran technoleg, gan gynnwys 'strwythurau peirianeg y llinell o ran nodweddion strwythurol cymharol mewn meysydd eraill o bensaerniaeth a thechnoleg; datblygiad y dulliau adeiladu soffistigedig a throsglwyddiad technolegau.'

Maen Prawf i: 'cynrychioli campwaith o athrylith greadigol dynol'

- 2.8 Roedd Thomas Telford yn athrylith arloesol a chynhyrchiol ym maes dylunio a gafodd ddylanwad sylweddol a pharhaol ar beirianeg sifil: ei waith ar y safle hwn oedd ei brosiect peirianeg mawr cyntaf a'i gyfle cyntaf i arddangos grymoedd dylunio blaengar ac arwain prosiectau a fyddai'n ei wneud yn fyd enwog. Dyfrbont Pontcysyllte oedd ei waith cynharaf i gael ei gydnabod yn rhyngwladol a'r gwaith mawreddog hwn a ddewiswyd ar gyfer ei gynnwys yn y portread o Telford fel Llywydd cyntaf Sefydliad y Peirianwyr Sifil. Roedd William Jessop yn ddyn mwy diymhongar ac ni adawodd gofnodion am ei gyflawniadau, ond roedd parch mawr iddo ymhlith ei gyfoedion ac ef oedd peiriannydd mwyaf cynhyrchiol Oes y Camlesi: Dyfrbont Pontcysyllte yw ei heneb enwocaf.
- 2.9 Mae Dyfrbont Pontcysyllte wedi cael ei chydabod gan sawl awdurdod o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd heddiw fel campwaith cyfnod 'arwrol' peirianeg sifil ddychmygus ac uchelgeisiol ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a charreg filltir sy'n ymgorffori dewrder ac argyhoeddiad oes y Goleuo. Roedd yn cael ei chydabod gan gyfoeswyr fel un o adeiladau mwyaf eithriadol y byd. Roedd peirianwyr a phenseiri o sawl gwlad yn deall ei rhagoriaeth, a gwerthfawrogi ei hurddas a beiddgarwch eithriadol gan artistiaid, beirdd ac ymwelwyr eraill. Ymhlith y geiriau a ddefnyddiwyd amlaf i'w disgrifio roedd 'eithriadol', 'ysblennydd', 'hardd', 'gwydych' ac 'aruthrol'. Roedd hyrwyddwyr y prosiect a thystion annibynnol yn ei gosod ar yr un safle â champweithiau pensaernïol y cynfyd: cafodd ei disgrifio gan y pensaer tirlunio o'r Almaen y Tywysog Hermann von Pückler-Muskau fel 'gwaith a fyddai wedi anrhydeddu Rhufain'.
- 2.10 Mae Dyfrbont Pontcysyllte yn cynrychioli defnydd creadigol a mentrus o syniadau newydd wedi'u cyfuno â sgiliau eithriadol wrth ymdrin â deunyddiau. Yn ei gyd-destun yn y ddeunawfed ganrif mae maint y ddyfrbont yn rhyfeddol, ond mae'r defnydd cynnar a hyderus o haearn bwrw yn ysgubol. Ymchwiliodd y dylunwyr i dechnoleg newydd haearn bwrw strwythurol a'i rhoi ar brawf, gan ddwyn ynghyd crefftwyr arbenigol ac ymgymryd â sawl syniad newydd wrth ddatblygu a chreu syniadaeth y prosiect. Aethant ati i greu camlas nas gwelwyd mo'i thebyg o'r blaen o ran ysgafnder a cheinder, a hynny ar uchder a hyd a fyddai wedi bod yn amhosibl drwy ddefnyddio dulliau arferol. Hon oedd y ddyfrbont uchaf y gellid teithio arni yn y byd am ddwy ganrif.
- 2.11 Ysgrifennodd yr hanesydd celf Ffrengig Pierre Francastel fod Telford ymhlith 'gwir symbylwyr chwyldro deallusol a arweiniodd at y syniad o swyddogaetholdeb, ac a ddechreuodd holl esblygiad cymhleth pensaerniaeth fodern'. Gellir ystyried Traphontydd Dŵr Pontcysyllte a'r Waun ymhlith y modelau amlwg cynnar o estheteg swyddogaethol. Roedd y defnydd o ddeunyddiau a dulliau newydd yn eu rhyddhau o'u cyfyngiadau blaenorol o ran maint gan arwain at adeiladau ar

ffurfiau newydd. Roedd eu dylunwyr yn credu y dylai ffurf ddilyn swyddogaeth ac roeddynt yn gwrthod addurniadau pensaernïol gan fynd ati'n fwriadol i greu adeileddau plaen ac urddasol, ac edmygydd y ddwy ddyfrbont gan sylwebyddion fel gwrthrychau hardd. Yn ôl y mathemategydd a'r peiriannydd Ffrengig Charles Dupin, roedd Dyfrbont Pontcysyllte yn 'enghraifft wych o bensaernïaeth gain a diaddurn.'

- 2.12 Cydnabuwyd bod y gamlas ar ei hyd wedi cyfuno peirianwaith cadarn â sensitifrwydd i dirwedd werthfawr. Dywedodd sylwebydd cyfoes 'bydd y Gwaith ar y Gamlas rhwng glan ogleddol afon Dyfrdwy a glan ddeheuol afon Ceiriog, yn cynnwys dwy Draphont Ddŵr fawr, dau Dwnnel a llawer iawn o waith cloddio dwfn, wrth fodd y rheini sy'n mwynhau effeithiau gweithiau celf, pan gânt eu cyflawni ar raddfa fawr.' Ysgrifennodd un arall ar ôl marwolaeth Telford, 'Cyflawnodd Mr Telford y dasg anodd nid yn unig er mwyn osgoi niweidio atyniadau naturiol y mannau hynny y daeth ar eu traws, ond er mwyn gwella eu hatyniad i raddau helaeth iawn.' Ystyrid ceinder eithriadol y gamlas gan gyfoeswyr fel ychwanegiad sensitif i'r dirwedd ac mae'n parhau i gael ei gwerthfawrogi gan ymwelwyr heddiw.

Maen Prawf ii: 'yn arddangos cyfnewid pwysig gwerthoedd dynol, dros gyfnod amser neu o fewn ardal ddiwylliannol o'r byd, ynghylch datblygiadau mewn pensaernïaeth neu dechnoleg, celfyddydau ar ffurf henebion, cynllunio tref neu ddylunio tirlun'

- 2.13 Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn tystio i gyfnewid rhyngwladol o ran hyrwyddo camlesi a'r dechnoleg. Roedd Camlas Ellesmere a chamlesi eraill ym Mhrydain yn ystod y Chwyldro Diwydiannol yn tynnu ar lwyddiannau peirianyddol Ffrainc yn yr ail ganrif ar bymtheg; ond roeddynt yn nodi dechrau newydd o ran hyrwyddo dyfrffyrdd mewndirol mwy soffistigedig ar gyfer datblygu economaidd, yn enwedig yn ardaloedd y meysydd glo. Cafodd y model hwn ei ddilyn yn ddiweddarach mewn rhanbarthau eraill a oedd yn cael eu diwydiannu yn Ewrop a Gogledd America. Digwyddodd y cyfnewid parhaus o werthoedd drwy sawl dull: Daeth gwladweinwyr, hyrwyddwyr a pheirianwyr o wledydd eraill i ymweld â chamlesi Prydain a'u hastudio, cyhoeddwyd adroddiadau am y camlesi a'u dosbarthu'n eang, bu peirianwyr o Brydain yn cynghori ar brosiectau tramor, trosglwyddwyd syniadau o un genhedlaeth i'r llall gan protégés a chynorthwywyr, a hyrwyddwyd arfer da gan sefydliadau peirianyddol proffesiynol. Rhoddwyd lle amlwg i'r gwaith pwysig ar y Safle Treftadaeth y Byd mewn cyfnewidiadau o'r fath.
- 2.14 Yn benodol, mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn amlygu'r newid o lwybrau trafniadaeth a oedd yn dilyn y dirwedd i lwybrau oedd yn gorfodi'r dirwedd i wasanaethu anghenion economïau diwydiannol yn fwy effeithlon - egwyddor a gafodd ei dilyn wrth adeiladu camlesi, rheilffyrdd a ffyrdd ar draws y byd yn ddiweddarach. Hon oedd yr enghraifft orau o nifer o ddyfrffyrdd a adeiladwyd yn yr 1790au a

oedd yn llawer mwy uchelgeisiol o ran dyluniad a buddsoddiad na rhai'r degawdau blaenorol. Ysgrifennodd Telford ym 1805, 'mae'r rhan hon o'r gamlas yn cynnwys gwaith oedd yn fwy anodd ei gwblhau nag sydd i'w weld efallai o fewn pellter tebyg yn un man arall wrth Fordwyo Camlesi'. Dyma gamlas gyntaf cyfnod 'arwrol' peirianeg camlesi, yn hytrach na'r cyfnod 'arloesol', ac mae'r gamp uchelgeisiol nas gwelwyd mo'i thebyg o'r blaen o groesi Dyffryn Dyfrdwy drwy godi argloddiau a thraphont ddŵr yn symbol gwych o fanylrwydd a hyder y dull newydd hwn.

- 2.15 Dangosodd Traphontydd Dŵr Pontcysyllte a'r Waun i gynulleidfa fyd-eang ei bod yn bosibl defnyddio haearn i adeiladu. Cawsant eu hadeiladu yn sgil cyfnewidiad rhyngwladol yn y ffordd o feddwl mewn perthynas â defnyddio haearn yn y 1790au, ac roedd yr adeiladwyr yn eu hystyried fel rhan o gyfnewidiad ymwybodol mewn technoleg yn dilyn "Mr Darby a gododd y Bont Haearn gyntaf" drwy syniadau dylunwyr Prydeinig, Ffrengig ac Americanaidd modern i'r genhedlaeth nesaf o strwythurau haearn ar draws y byd. Arweiniodd enwogrwydd rhyngwladol Dyfrbont Pontcysyllte fel enghraifft eofn o'r hyn y gellid ei gyflawni gyda haearn at ddatblygiad parhaus ym maes adeiladu pontydd ac adeiladau o haearn. Aeth Telford ei hun ymlaen i gael ei gydnabod fel un o bleidwyr mwyaf y bont ffordd haearn. Roedd traphontydd dŵr metel yn parhau i gael eu hadeiladu mewn nifer o wledydd. Cyn hir, haearn gyr, dur ac yna concrit wedi'i atgyfnerthu â dur oedd y deunyddiau mwyaf poblogaidd ar gyfer adeiladau mawr ar draws y byd.

- 2.16 Roedd y gamlas yn faes prawf ar gyfer nifer o arferion newydd a ddatblygwyd drwy gyfathrach greadigol rhwng y ddau beiriannydd a chyflwynwyd yr arferion hyn yn ddiweddarach i faes peirianeg a rheolaeth yn rhyngwladol. Yn ogystal â chreu llwybrau hynod o beirianyddol a defnyddio haearn i adeiladu, fel y nodwyd uchod, roedd y canlynol ymhlith y rhai pwysigaf.
- Sefydlodd Telford ethos proffesiynol y peiriannydd ac egwyddorion rheoli contractau a ddefnyddir hyd heddiw yn rhyngwladol.
 - Sefydlodd Telford a Jessop linellau cyfrifoldeb clir rhwng arbenigwyr gan ganiatáu i brosiectau mawr o'r fath gael eu cyflawni: mae hyn yn amlwg yn nhai'r peirianwyr preswyl.
 - Datblygodd Telford gyfrifiadau torri a llenwi, gan olygu bod modd cyflawni'r gwaith cloddio ar y fath raddfa drwy symud y gwastraff mewn ffordd effeithlon. Roedd hyn yn hollbwysig ar gyfer adeiladu rheilffyrdd ar draws y byd a defnyddir yr arferion hyn hyd heddiw mewn peirianeg fodern.
 - Roedd y defnydd helaeth o reilffyrdd adeiladu i symud gwastraff a danfon deunyddiau yn gwbl greiddiol i'r gwaith mawr ar y Safle Treftadaeth y Byd. Datblygwyd technegau o'r fath ymhellach yn rhyngwladol.

- 2.17 Roedd Telford a Jessop yn uniongyrchol gysylltiedig â chyfnewidiadau a gafodd ddylanwad ar beirianeg mewn gwledydd eraill. Bu'r ddau yn cynghori neu'n gweithio ar brosiectau yn Sweden, Iwerddon, India, Unol Daleithiau America a Chanada. Roeddynt yn mentora ac yn dylanwadu ar beirianwyr ifanc a oedd yn gweithio ym mhob rhan o'r byd: er enghraifft fe aeth syrfëwr Telford, Thomas Brassey, ymlaen i ddefnyddio'r dulliau rheoli prosiectau a ddysgwyd ganddo ef yn India, Canada, Awstralia, De America, Twrci, Ffrainc, Sbaen, Yr Eidal a Denmarc. Astudiwyd gwaith Telford a Jessop gan beirianwyr a sylwebyddion o sawl gwlad. Cafodd Telford ei gydnabod yn gymeriad eithriadol yn nhwf peirianeg sifil fel proffesiwn a daeth ei egwyddorion i gael eu cynnwys mewn arferion rhyngwladol. Cyhoeddwyd ei waith yn helaeth ac roedd yn adnabyddus yn rhyngwladol. Telford oedd llywydd cyntaf sefydliad y peirianwyr sifil, ac erbyn heddiw mae gan y gymdeithas 80,000 o aelodau mewn 150 o wledydd.
- 2.18 Mae Dyfrbont Pontcysyllte hefyd yn enghraifft o gyfnewid gwerthoedd dynol o ran cadwraeth. Cafodd ei chydabod yn un o weithiau arloesol archaeoleg ddiwydiannol ac roedd yn un o adeiladau eiconig y mudiad treftadaeth ddiwydiannol cynnar. Yn y 1940au, chwaraeodd ran i ysbrydoli sefydlu un o'r mudiadau cadwraethol diwydiannol cynharaf, Cymdeithas y Dyfrffyrdd Mewndirol / the Inland Waterways Association, a ymgyrchodd i'w chadw ar agor. Roedd ymhlith yr adeiladau diwydiannol cyntaf i gael ei ddynodi yn Heneb Gofrestredig o Bwysigrwydd Cenedlaethol, ym 1958. Ym 1973 daeth y gynhadledd ryngwladol gyntaf ar gadwraeth treftadaeth ddiwydiannol i ymweld â'r safle.

Maen Prawf iv: 'bod yn enghraifft eithriadol o fath o adeilad, ensemble pensaernïol neu dechnolegol neu dirlun sy'n dangos (a) cam(au) arwyddocaol yn hanes dynoliaeth'

- 2.19 Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn enghraifft eithriadol o'r gwelliannau ym maes trafnidiaeth a wnaeth ysgogi a galluogi'r Chwyldro Diwydiannol, un o'r trobwyntiau arwyddocaol yn hanes dyn.
- 2.20 Newidiodd y broses ddiwydiannu a ddechreuodd ym Mhrydain cyn lledaenu i weddill Ewrop, Gogledd America a'r byd, holl sylfaen economaidd a chymdeithasol bywyd. Mae Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte yn tystiolaethu i lawer o'r prif newidiadau a ymgorfforwyd gan y Chwyldro Diwydiannol.
- *Gwell dull trafnidiaeth* fel y dangosir gan y gamlas a adeiladwyd drwy dirwedd nad oedd wedi'i gwasanaethu cyn hyn gan drafnidiaeth ar y raddfa hon.
 - *Technolegau newydd* a ddangosir gan y gyfres o atebion technegol a ddatblygwyd gan Jessop a Telford yn ystod y prosiect.
 - Datblygiad *strwythurau economaidd* newydd fel y dangosir gan y ffaith i'r gamlas gael ei hadeiladu gan gwmni cydgyfalaf. Camlesi Prydain oedd ymhlith y busnesau cyntaf i godi cyfalaf drwy gyfranddaliadau torfol.
 - Mae'r gamlas yn enghraifft o *gyfalafu cynyddol* fel ensemble technolegol a gynlluniwyd i ddisodli llafur â chyfalaf drwy greu dulliau cludiant mwy effeithlon. Roedd mwy o gyfalaf y filltir i'r gamlas hon, gyda'i chyfres o waith peiranyddol heriol, nag unrhyw gamlas flaenorol.
 - Dangosir *cynnydd mewn masnach* ryngranbarthol gan y cysylltiad ffisegol a wnaed gan y gamlas â marchnadoedd allanol a marchnadoedd y byd a thrwy'r gosodiadau ar gyfer masnach fewnol ac allanol a dyfodd ar ei glannau.
 - Adlewyrchir *cyflymu twf allbwn* yng ngraddfa'r ddyfrffordd a gynlluniwyd gan hyrwyddwyr y gamlas, ar sail eu disgwyliadau o fasnach oedd yn cynyddu'n gyflym, a'r dystiolaeth ar gyfer y defnydd o'r gamlas yn dilyn hyn.
 - Dangosir y *symudiad i danwydd ffosil* gan yr ymdrech a wnaed i gludo'r gamlas ar draws Dyffryn Dyfrdwy i ran ogleddol y maes glo. Glo oedd y prif draffig ar y gamlas yn ystod ei hoes waith.
- 2.11 Dyfrffyrdd mewndirol oedd y prif ddull cludiant diwydiannol yn ystod Chwyldro Diwydiannol Prydain. Roeddynt yn chwarae rôl hanfodol wrth agor y meysydd glo ar gyfer eu hecsbloetio'n economaidd a gwella effeithiolrwydd yr economi gyfan. Yn y pen draw, roedd gan Gymru a Lloegr tua 5,340 milltir (8,600 km) o ddyfrffyrdd mewndirol

y gellid eu mordwyo, system gludiant ddiwydiannol na lwyddwyd i ragori arni nes twf rheilffyrdd locomotif ar ôl 1830. Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn enghraifft eithriadol o ensemble technolegol sy'n dangos y newidiadau hyn.

2.22 Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn cynrychioli lefel uchel o gyfanrwydd a dilysrwydd. Mae'r adran hynod o beirianyddol o'r ddyfrffordd o fewn ffin y Safle ac nid oes unrhyw ran o'r nodweddion sylweddol wedi'u colli na'u difrodi. Mae'r newidiadau a wnaed i ffurfiant y ddyfrffordd a'i nodweddion peirianyddol yn ystod ei bywyd gwaith fel traphont y gellir ei modrwygo wedi bod yn arwynebol yn bennaf. Mae ei strwythur canolog, Dyfrbont Pontcysyllte, wedi'i gwarchod fel Heneb Gofrestredig o bwysigrwydd cenedlaethol ers 1958, ac roedd yn destun rhaglen gadwraeth ragorol yn ddiweddar. Mae'r Safle Treftadaeth y Byd a'i glustogfa helaeth wedi'u diogelu a'u rheoli gan ddynodiadau a rheoliadau cynllunio amrywiol. Glandŵr Cymru sy'n berchen ar y gamlas. Mae Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd cadarn wedi'i baratoi gan yr awdurdodau lleol, Glandŵr Cymru a chyrff treftadaeth cenedlaethol, daethant at ei gilydd fel partneriaeth strategol er mwyn nodi, diogelu, gwarchod, cyflwyno a throsglwyddo'r safle i genedlaethau'r dyfodol.

2.23 Nodweddion yw'r elfennau hynny ar y safle sy'n dangos Gwerth Eithriadol Cyffredinol. Mae Canllawiau Gweithredol UNESCO yn disgrifio gwahanol fathau o nodweddion posibl, gan gynnwys asedau diriaethol fel ffurf a chynllun, deunyddiau a sylwedd, defnydd a swyddogaeth, lleoliad; yn ogystal ag agweddau anniriaethol fel iaith, ysbryd ac ymdeimlad o le.

2.24 Mae nodweddion Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte yn ymwneud â nifer o feysydd, gan gynnwys:

- **Ffurf a chynllun** – er enghraifft llwybr y gamlas, y gwaith cloddio, ffurf a maint y traphontydd dŵr, ffurf y glanfeydd a'r warysau yn Llangollen a Basn Trefor, tai'r peirianwyr preswyl a gweithwyr y gamlas yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd wedi goroesi yn eu ffurf a chasgliadau gwreiddiol.
- **Deunyddiau a sylwedd** – y defnydd o ddeunyddiau traddodiadol a thechnegau cadwraeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- **Defnydd a swyddogaeth** – y defnydd parhaus o'r gamlas gan gychod, traddodiad sy'n ymestyn yn ôl i ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; y defnydd o Braich Llangollen i Raeadr y Bedol i fwydo'r ddyfrffordd yn ogystal â mordwyo
- **Traddodiadau, technegau a systemau rheoli** - mae'r darn hwn o'r gamlas wedi cael ei gynnal fel dyfrffordd weithredol gan gyfres o gwmnïau cludiant mawr gan ddarparu cysondeb o ran rheoli o'r Ellesmere Canal Company at Glandŵr Cymru heddiw; trosglwyddo sgiliau traddodiadol, er enghraifft 'fforddolwyr' y

gamlas; y defnydd o dechnegau cadwraeth, cynnal a thrwsio traddodiadol sy'n parchu rhinweddau a chyfanrwydd y crefftwaith gwreiddiol; y parhad yn y defnydd o gychod ar y gamlas.

- **Lleoliad** – y berthynas drawiadol rhwng y gamlas a'r dirwedd, gan gynnwys y ffaith bod natur wledig rhan orllewinol y glustogfa yn debyg i'r hyn oedd ar yr adeg pan adeiladwyd y gamlas.

Mae'r rhain i'w gweld yn ffigwr 2.1 ac mae disgrifiad manwl ohonynt yn Atodiad E.

Ffigur 2.1 Crynodeb o'r GCE, Meini Prawf a'r Nodweddion

GWERTH CYFFREDINNOL EITHRIADOL	Mae Camlas Pontcysyllte yn enghraifft nodedig o greu dyfrffordd beirianyddol a adeiladwyd gan ddyn mewn amgylchedd daearyddol anodd, ar ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif. Roedd angen gwaith peirianeg sifil helaeth a mentrus. Mae Traphont Ddŵr Pontcysyllte yn gampwaith arloesol o beirianeg a phensaernïaeth anferthol gan y peiriannydd sifil enwog Thomas Telford. Fe'i adeiladwyd gan ddefnyddio bwâu metel a gefnogir gan bileri cerrig tal, main. Mae Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn enghreifftiau cynnar a rhagorol o'r datblygiadau arloesol a ddaeth yn sgil y Chwyldro Diwydiannol ym Mhrydain, lle gwnaethpwyd datblygiad pendant mewn galluedd cludiant. Maent yn dyst o gyfnewidfeydd a dylanwadau rhyngwladol mawr iawn ym meysydd dyfrffyrdd mewndirol, peirianeg sifil, cynllunio defnydd tir, a'r defnydd o haearn mewn dylunio strwythurol.		
MEINI PRAWF	Maen prawf (i) Cynrychioli campwaith o athrylith greadigol ddynol	Maen prawf (ii) Yn arddangos cyfnewid pwysig gwerthoedd dynol, dros gyfnod amser neu o fewn ardal ddiwylliannol o'r byd, ynghylch datblygiadau mewn pensaernïaeth neu dechnoleg, celfyddydau ar ffurf henebion, cynllunio tref neu ddylunio tirlun.	Maen prawf (iv) Bod yn enghraifft eithriadol o fath o adeilad, ensemble pensaernïol neu dechnolegol neu dirlun sy'n dangos (a) cam(au) arwyddocaol yn hanes dynoliaeth
	Deunyddiau a sylweddau Ffurf a chynllun	Ffurf a chynllun Deunyddiau a sylweddau Defnydd a Swyddogaeth	Traddodiadau Technegau Systemau
NODWEDDION	▪ Dylunio ac adeiladu Traphontydd Pontcysyllte a'r Waun ▪ Tirwedd heriol ▪ Twneli'r Waun ac Whitehouse ▪ Argloddiau, ffurfiadau cloddwaith ▪ Toriadau ▪ Rhaeadr y Bedol. ▪ Thomas Telford a William Jessop	▪ Dylunio ac adeiladu Traphontydd Pontcysyllte a'r Waun ▪ Twneli'r Waun ac Whitehouse ▪ Argloddiau, ffurfiadau cloddwaith ▪ Toriadau ▪ Pontydd amrywiol ▪ Ceuffosydd ▪ Basnau ▪ Glanfeydd a warysau, ▪ Tai camlas ar gyfer peirianwyr preswyl a gweithwyr camlas, ▪ Rhaeadr y Bedol. ▪ Gweithgarwch a diwylliant twristiaeth ▪ Cludiant Integredig ▪ Dwylliant a threftadaeth cychod	▪ Traphontydd dŵr Pontcysyllte a'r Waun ▪ Defnydd cynnar o haearn bwrw strwythurol ▪ Twneli'r Waun ac Whitehouse, ▪ Argloddiau, ffurfiadau cloddwaith ▪ Toriadau, ▪ Pontydd amrywiol, ▪ Ceuffosyd ▪ Basnau ▪ Glanfeydd a warysau ▪ tai camlas ar gyfer peirianwyr preswyl a gweithwyr camlas ▪ Rhaeadr y Bedol ▪ Dyngarwch ▪ Rheoli Contractau ▪ Tirluniau Dynodedig ▪ Safleoedd a lleoliadau gwarchodedig ▪ Ein Tirwedd Darluniadwy

Cyfanrwydd a Dilysrwydd

- 2.25 Ystyr **cyfanrwydd** yw pa mor gyflawn yw'r nodweddion a ddisgrifiwyd sy'n cynrychioli'r Gwerth Eithriadol Cyffredinol. Mae UNESCO wedi cydnabod bod cyfanrwydd y gamlas hon wedi'i chadw yn yr adeileddau hydrolig a pheirianeg sifil sydd wedi goroesi yn eu ffurfiau gwreiddiol. Mae hyn er gwaethaf y gwaith atgyweirio angenrheidiol i'r argloddiau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau sefydlogrwydd lle bu'n rhaid defnyddio deunyddiau a thechnegau heb fod yn draddodiadol am resymau adeileddol ac i wrthsefyll y tywydd. Caiff gwaith o'r fath ei gyfiawnhau wrth reoli'r Safle Treftadaeth y Byd er mwyn cynnal gweithrediad hydrolig y ddyfrfordd a chadw ei nodweddion morffolegol cyffredinol. Mae cyfanrwydd y tirweddau a'r glustogfa yn cyfrannu at werth cyffredinol y Safle Treftadaeth y Byd.
- 2.26 Ar adeg ei arysgrifo, daeth UNESCO i'r casgliad bod 'gan yr eiddo'r holl elfennau cyfanrwydd angenrheidiol i fynegi ei werth fel camlas hanesyddol o bwys o gyfnod y Chwyldro Diwydiannol.'
- 2.27 Mae **dilysrwydd** yn seiliedig ar y cysylltiad rhwng y nodweddion a'r Gwerth Eithriadol Cyffredinol. Mae'r adeiladau sy'n gysylltiedig â'r gamlas a'i amgylchedd cyfagos fel arfer yn cyflawni lefel dda o ddilysrwydd. Mae'r ychydig newidiadau strwythurol sydd wedi cael eu gwneud i Draphontydd Dŵr Pontcysyllte a'r Waun wedi aros yn eilaidd, gan gyfrannu at gynnal a chadw'r eiddo mewn defnydd. Cyfyngwyd ar unrhyw newidiadau o ran deunyddiau, ond yn ystod yr ugeinfed ganrif ni chafodd y mathau gwreiddiol o forter na charreg eu defnyddio bob amser wrth atgyweirio'r gwaith cerrig.

Y Glustogfa a'i Lleoliad

- 2.28 Mae Canllawiau Gweithredol UNESCO yn disgrifio clustogfa fel ardal o amgylch Safle Treftadaeth y Byd lle mae cyfyngiadau cyfreithiol arferol a/neu ategol wedi'u gosod o ran sut gellir ei defnyddio neu'i datblygu er mwyn rhoi haen ychwanegol o warchodaeth i safle. Mae canllawiau Cadw yn mynd ymlaen i ddisgrifio clustogfa fel system reoli y 'gellir ei defnyddio i nodi ardaloedd lle mae angen i ddatblygwyr a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ystyried effeithiau posibl yn ofalus, a lle y gall cyfyngiadau cynllunio fod yn briodol.'⁴
- 2.29 Cefnogir Gwerth Eithriadol Cyffredinol Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte gan nodweddion cysylltiadol sydd y tu allan i ffin y Safle yn y glustogfa a lleoliadau ehangach. Ymhlith y nodweddion o fewn ardal ehangach sy'n cyfrannu at y Gwerth Eithriadol Cyffredinol mae'r dirwedd ddiwylliannol ac esthetig, yr ymdeimlad o gyrraedd, golygfeydd, a chymeriad unigryw a'r ymdeimlad o le. Felly, mae clustogfa o amgylch y Safle Treftadaeth y Byd sy'n ei gwneud yn bosibl i gadw'r elfennau hanesyddol, diwylliannol a thirweddol hyn. Mae ffin y glustogfa yn dilyn prif linellau cribau dyffrynnoedd Dyfrdwy, y Waun a Cheiriog gan gydnabod efallai y bydd unrhyw ddatblygiad o fewn y glustogfa

a'r lleoliad yn cael effaith niweidiol ar Werth Eithriadol y Safle. Mae'r rhan fwyaf o'r glustogfa bellach wedi'i chynnwys o fewn ffiniau estynedig AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

- 2.30 Mae'r glustogfa yn cynnwys nifer o aneddiadau – o'r gorllewin i'r dwyrain y rhain yw: Llantysilio, Llangollen, Garth, Trefor, Cefn Mawr, Froncysyllte, Y Waun a Chirk Bank. Mae cysylltiad agos iawn rhwng twf a datblygiad yr aneddiadau yn y glustogfa â'r datblygiadau ym maes trafnidiaeth ac yn benodol y gwaith o adeiladu Camlas Llangollen
- 2.31 Un enghraifft benodol yw Cefn Mawr - hyd nes y Chwyldro Diwydiannol ar ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif, roedd Cefn Mawr yn ardal wledig heb ei datblygu ym Mhlwyf Rhiwabon. Fodd bynnag, yn sgil adeiladu Dyfrbont Pontcysyllte daeth datblygiadau diwydiannol i Gefn Mawr ac roedd yn gatalydd ar gyfer twf. Denwyd llif o entrepreneuriaid a gweithwyr i'r ardal gan ddyblu poblogaeth Rhiwabon ar y pryd. Roedd diwydiannau yn cynnwys ffowndriau gweithfeydd haearn Plas Kynaston a'r New British Iron Company, glofeydd mawr ym Mhlas Kynaston ac Wynnstay a gwaith brics Plas Kynaston.⁵
- 2.32 Mae'r glustogfa hefyd yn cynnwys cyfoeth o safleoedd a dynodiadau treftadaeth y mae ganddynt un ai gysylltiad uniongyrchol â'r Safle Treftadaeth y Byd (er enghraifft nodweddion sy'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu fel odynnau calch neu dai gweithwyr y gamlas) neu sy'n rhan o leoliad ehangach y Safle Treftadaeth y Byd. Gall enghreifftiau o'r rhain gynnwys Castell y Waun, Castell Dinas Brân a Phlas Newydd.
- 2.33 Mae'r glustogfa yn werthfawr ynddi'i hun wrth greu ymdeimlad o gyrraedd Safle Treftadaeth y Byd; er nad yw'r adeiladau, safleoedd neu nodweddion y dirwedd yn weledol o'r Safle Treftadaeth y Byd neu wrth fynd ato, gallant fod yn bwysig i gymeriad yr ardal benodol honno.
- 2.34 Ymhlith agweddau pwysig eraill ar Safle Treftadaeth y Byd sydd angen eu gwarchod mae'r lleoliad a golygfeydd arwyddocaol. Mae lleoliad yn cynnwys 'yr ardal o amgylch ased hanesyddol lle mae'n cael ei ddeall, ei brofi a'i werthfawrogi, sy'n ymgorffori cydberthnasau blaenorol a phresennol â'r dirwedd gyfagos.' Yn bwysig iawn yn achos Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte, mae lleoliad yn ymwneud â sut roedd bwriad i safle gymryd ei le yn y dirwedd, y golygfeydd o'r safle a sut mae'r safle yn cael ei weld o'r ardal gyfagos.
- 2.35 O fewn y glustogfa mae golygfeydd arwyddocaol sydd o werth hanesyddol neu ddiwylliannol, er enghraifft safleoedd hanesyddol fel Castell Dinas Brân neu'r A5, atyniadau ymwelwyr, neu lwybrau cenedlaethol fel Llwybr Clawdd Offa, Llwybr Clwyd a Llwybr Maelor.

⁴ & ⁶ <http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/20170531Managing%20Change%20in%20World%20Heritage%20Sites%20in%20Wales%2031146%20EN.pdf>

⁵ Extracted from Cefn Mawr Conservation Area Character Assessment, Wrexham CBC, 2012

Canfyddiadau Adolygiad Cyfnodol 2014

2.36 Mae adroddiadau cyfnodol yn gylch adrodd bob chwe blynedd sy'n rhan o gonfensiynau craidd monitro cadwraeth Confensiwn Treftadaeth y Byd. Proses hunan-adrodd yw hon sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sydd â chyfrifoldeb dros y Safle Treftadaeth y Byd i lenwi holiadur byr yn amlinellu amgylchiadau ac anghenion rheoli sy'n newid. Roedd Adolygiad Cyfnodol 2014 yn nodi fel a ganlyn:

- bod ffiniau'r Safle Treftadaeth y Byd, ynghyd â'r glustogfa, yn ddigonol i gynnal y Gwerth Eithriadol Cyffredinol, er bod ymwybyddiaeth trigolion, cymunedau a thirfeddianwyr lleol o'r ffiniau yn wael;
- bod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer cynnal Gwerth Eithriadol Cyffredinol y Safle Treftadaeth y Byd a'i glustogfa, yn cynnwys amodau ynghylch cyfanrwydd a dilysrwydd, yn rhoi sail ddigonol neu well ar gyfer rheoli effeithiol a gwarchodaeth;
- byddai modd gwella'r cydlynid rhwng yr amryw gyrff gweinyddol sy'n gyfrifol am reoli'r Safle Treftadaeth y Byd;
- mae'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer anghenion rheoli sylfaenol y Safle Treftadaeth y Byd yn annigonol ac mae'n rhwystr difrifol i'r gallu i reoli. Ymhellach, cyfyngwyd ar y gallu i wella'r ardal yn sylweddol o ran twristiaeth gan fod cyfyngiadau ar gyllidebau presennol yn sgil dirwasgiad economaidd y Deyrnas Unedig; ac
- o ran buddion, mae'r Adolygiad Cyfnodol yn nodi bod rhai buddion economaidd wedi dod i gymunedau lleol, a bod statws Treftadaeth y Byd wedi dylanwadu ar addysg a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, ond y gellid cyflawni mwy yn y meysydd hyn.

Pennod 3

Diogelu'r Safle Treftadaeth y Byd

Cyflwyniad

- 3.1 Mae'r bennod hon yn nodi sut mae'r Safle Treftadaeth y Byd a'i nodweddion yn cael eu gwarchod gan bolisiau a chanllawiau cenedlaethol a lleol o dan y penawdau treftadaeth ddiwylliannol, yr amgylchedd naturiol a chynllunio defnydd tir. Mae disgrifiad llawn o gyd-destun y polisiau, gan gynnwys rhagor o fanylion am y gwahanol ddynodiadau treftadaeth ac amgylcheddol y cyfeirir atynt yn y bennod hon i'w cael yn Atodiad B.


Gwarchodaeth Treftadaeth Ddiwylliannol

- 3.2 Caiff Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru a Lloegr eu gwarchod drwy ddynodiad statudol asedau hanesyddol unigol a'r system gynllunio gwlad a thref, sy'n darparu fframwaith ar gyfer y polisi lleol. Rhoddir crynodeb o'r polisiau a'r canllawiau cenedlaethol perthnasol isod.
- 3.3 Yng Nghymru, mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 wrth wraidd cyfres o bolisiau a chanllawiau integredig a gynlluniwyd i warchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru, gan adlewyrchu egwyddorion ac arferion cynllunio presennol. Mae canllawiau arfer gorau Cadw a luniwyd ym mis Mai 2017 yn ymwneud yn benodol â rheoli newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd, lleoliad asedau hanesyddol yng Nghymru, ac asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth.

- 3.4 Yn Lloegr, mae'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol diwygiedig (National Planning Policy Framework:NPPF) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018 yn nodi polisi cynllunio'r llywodraeth, gan gynnwys cyfeiriadau at yr amgylchedd hanesyddol, ac fe'i cefnogir gan y Canllawiau Arferion Cynllunio Cenedlaethol (National Planning Practice Guidance) (2012). Lle bo'r angen, bydd canllawiau arferion cynllunio yn cael eu diweddarau maes o law i adlewyrchu newidiadau i'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol.

Dynodiadau Treftadaeth

- 3.5 Caiff y Safle Treftadaeth y Byd a nodweddion pwysig eraill yn ei glustogfa ei gwarchod ymhellach gan amryw o ddynodiadau treftadaeth. Mae'r gamlas ar ei hyd ar y Safle Treftadaeth y Byd bellach wedi'i dynodi yn Heneb Gofrestredig, ac mae ardal y cofrestriad yn ymestyn o ben deheuol Traphont Ddŵr y Waun i Fasn Trefor a phen draw'r gamlas ac yna i'r gorllewin ar hyd Camlas Llangollen i Raeadr y Bedol. Mae Traphont Ddŵr Pontcysyllte ei hun wedi'i rhestru ers 1958. Mae'n rhaid i unrhyw waith sy'n cael effaith, difrodi neu ddiwygio'r henebion cofrestredig gael caniatâd heneb gofrestrdig, sef gweithdrefn statudol a weinyddir gan Cadw, Llywodraeth Cymru a'r Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a gaiff ei chynghori gan Historic England yn Lloegr. Mae rhagdybiaeth yn erbyn cynigion a fyddai'n achosi difrod i, neu'n gwneud newidiadau o bwys neu'n cael effaith ar olygfa henebion, ac mae ymgymryd â gwaith heb ganiatâd yn drosedd. Mae nifer o adeiladau'n adeiladau rhestredig. Mae'n rhaid cael caniatâd ymlaen llaw gan yr awdurdod lleol perthnasol i gwblhau unrhyw waith a fyddai'n cael effaith ar gymeriad strwythur neu adeilad rhestredig o fewn ei gwrtil, ac mae'n drosedd i ymgymryd â gwaith heb ganiatâd.



⁷ <http://www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/plans-and-strategies/>

Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol


- 3.6 Bydd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn golygu bod modd rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd gynaliadwy a chydlynus gan arwain at ganlyniadau gwirioneddol i'r amgylchedd, y bobl, yr economi a chymunedau. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith sy'n sicrhau bod rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn ystyriaeth greiddiol wrth ddod i benderfyniadau.

Dynodiadau Amgylcheddol

- 3.7 Mae bron i 90% o'r Safle Treftadaeth y Byd a'i glustogfa o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cael eu gwarchod, cadw a'u rheoli gan gynllun rheoli statudol⁷ ac maent yn cael eu cydnabod ar lefel ryngwladol fel un o chwe chategori o ardaloedd gwarchodedig lle mae'r rhyngweithio rhwng pobl a natur dros amser wedi creu ardal o gymeriad unigryw sydd yn hynod o werthfawr o ran ecoleg, bioleg, diwylliant a golygfeydd.
- 3.8 Yn ogystal â'r AHNE, mae dynodiadau amgylcheddol eraill ar Safle Treftadaeth Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, gan gynnwys Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid (AGA), a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Afon Dyfrdwy.

Cynllunio Defnydd Tir

- 3.9 Mae polisiau cynllunio lleol yn cael eu casglu ynghyd yn Nogfen Cynllunio Atodol Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte⁸, a fabwysiadwyd ar y cyd ym mis Mehefin 2012 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Swydd Amwythig /'Shropshire Council'. Mae'r Ddogfen Gynllunio Atodol 'yn ymhelaethu ar bolisiau datblygu cynllunio'r tri Chyngor dan sylw ac mae'n ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar y Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad'. Nod y Ddogfen Gynllunio Atodol yw 'sicrhau y cynhelir cyfanrwydd Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, ei adeiladau, adeileddau a thirwedd. Ni ddylai datblygiadau newydd gael unrhyw effaith andwyol'.
- 3.10 Mae polisiau cynllunio lleol a luniwyd gan bob un o'r tri awdurdod lleol hefyd yn amddiffyn y polisi hwn. Dangosir statws presennol y cynlluniau datblygu isod. Mae polisiau cyson yn benodol ar gyfer amddiffyn a chyflwyno'r Safle Treftadaeth y Byd i'w cael yn yr holl gynlluniau a fabwysiadwyd yn ddiweddar; mae'r polisiau yng Nghynllun Datblygu Lleol ar adnau Wrecsam yn debyg i rai Sir Ddinbych a Swydd Amwythig.
- 3.11 Nid oes unrhyw ran o'r Safle Treftadaeth y Byd na'r glustogfa yn 'dir gwyn' (tir heb ryw fath o ddynodiad mewn cynlluniau datblygu). Mae'r ardal gyfan felly wedi'i gwarchod o dan y system rheoli datblygu. Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd sydd heb eu datblygu ar hyn o bryd yn destun dynodiadau lleol ar gyfer gwarchod tirwedd neu fannau gwyrdd, er enghraifft fel Lletemau Glas ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig.



⁸ <https://www.pontcysyllte-aqueduct.co.uk/world-heritage-status/resources/reference-documents/>

- 3.12 Mae cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) yn gyfarwyddyd cyfreithiol o wneir o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ac mae'n cyfyngu ar gwmpas hawliau datblygu a ganiatawyd mewn ardal, gan alluogi'r awdurdod cynllunio lleol i reoli gwaith a allai fygwth cymeriad ardal sy'n cael ei chydabod yn bwysig.
- 3.13 Ar hyn o bryd, mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4 (2) yn weithredol yn Ardaloedd Cadwraeth y Waun, Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chefn Mawr yn Wrecsam ac yn Ardaloedd Cadwraeth Llangollen a Phlas yn Pentre yn Sir Ddinbych. Pan fo cyfarwyddyd o'r fath ar waith, bydd gofyn cael caniatâd cynllunio fel arfer ar gyfer unrhyw addasiadau a fyddai'n cael effaith ar ymddangosiad annedd gan gynnwys newidiadau i ffenestri, drysau, portshys, simneiau a deunyddiau.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Statudol

- 3.14 Cyfrifoldeb y prif sefydliadau sy'n bartneriaid yw gwarchod a rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd

Glandŵr Cymru

- 3.15 Glandŵr Cymru yw'r prif dirfeddiannwr, ac mae'n berchen ar y rhan fwyaf o adeiladau'r dyfrffyrdd ar hyd y gamlas. Elusen gofrestredig yw Glandŵr Cymru a etifeddodd swyddogaethau statudol Dyfrffyrdd Prydain yng Nghymru ac mae'n amodol i ofynion statudol gan gynnwys cynnal y gamlas a'i hadeiladau yn gywir a chadwraeth y dreftadaeth adeiledig a naturiol. Mae Polisi Treftadaeth cynhwysfawr yr elusen yn nodi cyfres o egwyddorion cyffredinol ac ymarferol y dylid eu dilyn wrth gyflawni pob gwaith sy'n effeithio ar y dyfrffyrdd.
- 3.16 Wrth ei gwaith bob dydd, mae Glandŵr Cymru wedi'i heithrio i raddau helaeth o reolau cynllunio defnydd tir (mae'r elusen yn elwa ar nifer o hawliau datblygu a ganiateir) ond nid yw wedi'i heithrio o reoliadau gwarchod amddiffyn treftadaeth. Mae'r elusen yn cydymffurfio â'r rhain drwy system rheoli asedau (archwiliadau arferol a gynhelir i fonitro cyflwr sy'n sail i raglenni cynnal a thrwsio) a pholisïau corfforaethol. Mae gwaith gan drydydd partïon yn destun gweithdrefn gymeradwyo a nodir yn y *Cod Ymarfer Gwaith sy'n effeithio ar Glandŵr Cymru*.
- 3.17 Mae rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau a chyfrifoldebau statudol Glandŵr Cymru yn Atodiad C. .

Bwrdd Strategol Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte

- 3.18 Amlinellwyd pwrpas a chyfansoddiad y Bwrdd Strategol ym Mhennod 1. Mae'r Bwrdd Strategol yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, a darperir yr ysgrifenyddiaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sydd wedi goruchwyllo'r gwaith o lunio'r Cynllun Rheoli diwygiedig. Darparwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Strategol.

- 3.19 Mae prif dasgau'r Bwrdd Strategol yn cynnwys:

- Nodi cyfeiriad strategol ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd;
- Sicrhau bod adnoddau yn cael eu nodi a'u dyrannu i ariannu'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Rheoli;
- Annog ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth gyda phob parti sydd â diddordeb i sicrhau bod Gwerth Eithriadol Cyffredinol y safle yn cael ei gadw drwy sicrhau eu cyfraniad.
- Monitro darpariaeth y Cynllun Gweithredu.

- 3.20 Cefnogir y Bwrdd Strategol gan Bartneriaeth Budd-ddeiliaid sy'n cyfarfod bob chwarter a thri Grŵp Cyflawni (Cynllunio, y Dirwedd a Chadwraeth; Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd; Dysgu ac Addysg) a gafodd eu ffurfio er mwyn bwrw ymlaen â chamau gweithredu neu amcanion penodol. Mae'r cylch gorchwyl wedi'i amlinellu yn Atodiad F.

Awdurdodau Lleol

- 3.21 Awdurdodau Lleol sy'n berchen ar lawer o'r adeiladau ar y Safle Treftadaeth y Byd, yn benodol pontydd. Caiff y rhain eu harchwilio yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol. Os yw'r adeiladau sy'n eiddo i awdurdodau lleol wedi'u rhestru neu eu dynodi mewn ffordd arall, rhaid derbyn caniatâd ffurfiol yn ôl yr angen cyn gwneud unrhyw waith arnynt.
- 3.22 Ymhlith yr asedau sy'n eiddo i awdurdodau lleol yn y glustogfa mae Castell Dinas Brân a Phlas Newydd (yn eiddo i Gyngor Sir Ddinbych). Mae Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Wrecsam yn gyfrifol am weithredu'r meysydd parcio a thoiledau cyhoeddus ar y Safle Treftadaeth y Byd a'r glustogfa – yn benodol ym Masn Trefor, Llangollen, Tŷ Mawr a Llantysilio.

AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

- 3.23 Mae'r rhan helaeth o'r Safle Treftadaeth y Byd a'i glustogfa o fewn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae dibenion, dyletswyddau a gofynion rheoli'r AHNE wedi'u nodi yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000; mae Adran 89 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sydd ag AHNE yn eu hardal i lunio a chyhoeddi Cynllun Rheoli AHNE er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau a champau rheoli. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau nad yw cynigion datblygu yn cael effaith andwyol ar gymeriad ac ymddangosiad yr AHNE, eu bod yn cael eu lleoli a'u dylunio mewn ffordd sensitif, a'u bod yn gydnaws â nodweddion arbennig yr ardal, neu'n gwella'r nodweddion hynny.
- 3.24 Mae Cydbwyllgor yr AHNE yn cynrychioli tri awdurdod lleol, Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint, ac yn gweithredu ar eu rhan gyda chymorth Partneriaeth AHNE ehangach a Gweithgor Swyddogion. Mae Cynllun Rheoli'r AHNE yn ei le a chyhoeddwyd Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer yr AHNE ym mis Mehefin 2018.

Cadw a Historic England

- 3.25 Mae gan Cadw a Historic England rôl statudol mewn perthynas â henebion cofrestredig ac maent yn gyfrifol am weinyddu caniatâd henebion cofrestredig.
- 3.26 Ymhlith y tir a'r eiddo hanesyddol yn y glustogfa sy'n eiddo i Cadw, ac sy'n cael eu rheoli gan Cadw er budd y cyhoedd, mae Abaty Glyn y Groes a Cholofn Eliseg.

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

- 3.27 Elusen yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'i nod yw gwarchod lleoedd arbennig ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon 'am byth, i bawb'. Mae ei threfniadau llywodraethiant yn seiliedig ar Ddeddfau Seneddol; disgrifir y trefniadau presennol yng Ngorchymyn Elusennau (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) 2005.
- 3.28 Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw perchennog Castell y Waun, adeilad rhestredig Gradd 1 yng nghlustogfa'r Safle Treftadaeth y Byd.

Network Rail

- 3.29 Network Rail yw perchennog traphont reilffordd y Waun ac mae'n gyfrifol am ei chynnal. Caiff ei chynnal i'r safonau uchaf o ystyried ei bod yn cario rheilffordd bwysig ac mae'n destun archwiliadau trylwyr a rheolaidd.

Pennod 4

Themâu, Materion a Chyfleoedd Allweddol

Cyflwyniad

- 4.1 Mae'r Bennod hon yn nodi materion a chyfleoedd sy'n wynebu'r Safle Treftadaeth y Byd o dan ddeg thema allweddol, a nodwyd ar ôl ymgynghori â phartneriaid a budd-ddeiliaid allweddol, yn ogystal â thrwy waith ymchwil a dadansoddi. Defnyddiwyd y themâu allweddol i ddatblygu amcanion a chmau gweithredu a fydd yn sail i'r Cynllun Rheoli ac yn arwain rhaglen waith y Safle Treftadaeth y Byd yn y dyfodol.

Themâu Allweddol

Thema 1

Cadwraeth a Gwaith Cynnal

- 4.2 Mae'r Rhestr sydd wedi'i chynnwys gyda'r Cynllun Rheoli hwn (ceir crynodeb ohoni yn Atodiad D) yn rhestru holl nodweddion y Safle Treftadaeth y Byd ar sail eu lleoliad daearyddol, o'r dwyrain i'r gorllewin, ac mae'n dangos manylion cyfredol ar gyfer perchenogaeth, gwarchodaeth a chyflwr cadwraeth (da, gweddol, gweddol* a gwael). Cynhaliwyd ail arolygon o'r nodweddion sydd wedi'u cynnwys ar y Rhestr yn 2012 a 2017. Yn yr ail arolwg diweddaraf, mae cyflwr 20% o'r nodweddion ar y Rhestr wedi gwella a nodwyd bod traean o'r 168 nodwedd a restrir mewn cyflwr 'gweddol'; fodd bynnag, mae cyflwr dros 10% o'r nodweddion wedi dirywio ers yr arolwg diwethaf a nodwyd bod dros 30% o'r nodweddion o safon is na 'gweddol'.
- 4.3 Mae gwarchod a chynnal y deunydd hanesyddol yn amlwg yn hanfodol i ddiogelu Gwerth Eithriadol Cyffredinol Safle Treftadaeth y Byd a'i ddilysrwydd yn benodol. Mae angen gwaith cynnal parhaus ar y nodweddion a'r adeiladau sy'n rhan o'r Safle Treftadaeth y Byd yn ogystal ag adolygu'r gwaith atgyweirio a wnaed yn y gorffennol lle defnyddiwyd deunyddiau amhriodol o bosibl. Yr her yw sicrhau bod gwaith atgyweirio a chadwraeth yn cael ei wneud mewn ffordd briodol, gan ddefnyddio technegau a deunyddiau traddodiadol.
- 4.4 Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant Sgiliau Adeiladu Traddodiadol ar y cyd â Menter Treftadaeth Treflun Cefn Mawr dros gyfnod o ddeng mlynedd, gyda'r nod o wella sgiliau adeiladu traddodiadol fel gwaith saer maen, plastro â chalc a thrwsio ffenestri. Er gwaethaf hyn, mae posibilrwydd y bydd bwch sgiliau yn yr ardal hon, mae prinder pobl ifanc profiadol sy'n dysgu sgiliau traddodiadol ac mae contractwyr sydd â sgiliau gwledig yn agosáu at oedran ymddeol. Mae cyfleoedd i ddarparu swyddi newydd ac annog pobl i ddatblygu sgiliau drwy weithio mewn partneriaeth gyda cholegau lleol a sefydliadau sy'n bartneriaid fel yr AHNE. Mae Glandŵr Cymru wedi bod yn gyfrifol am atgyweiriadau



rhagorol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd ac mae cyfleoedd ar gyfer arddangos sgiliau treftadaeth lleol fel rhan o'r gwaith cynnal a chadw a cadwraeth parhaus.

- 4.5 Cynhelir archwiliadau rheolaidd o adeiladau unigol a'r gamlas ei hun i fonitro eu cyflwr a llywio rhaglen gynnal a thrwsio (Glandŵr Cymru, sef y prif dirfeddiannwr). Mae'r gwaith hwn hefyd yn cynnwys monitro'r llystyfiant lle gall hyn effeithio ar gyflwr y Safle Treftadaeth y Byd (er enghraifft, rhywogaethau goresgynnol) neu'r effaith ar olygfeydd a'r lleoliad.
- 4.6 Tynnodd yr Adroddiad Cyfnodol (2014) sylw at faterion cynnal oedd yn effeithio ar y Safle Treftadaeth y Byd y gellid eu gwella, sef effeithiau rhywogaethau goresgynnol (yn benodol Clymog Japan a mincod). Mae gan Glandŵr Cymru raglen i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol ar ei dyfrffyrdd, er bod hyn yn gallu bod yn heriol ac yn dibynnu llawer iawn ar waith gwirfoddolwyr. Mae Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cynnwys camau i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol drwy gysylltiadau gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru; yn yr un modd, mae Cynllun Gweithredu Ein Tirwedd Ddeniadol yn tynnu sylw at gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth gyda mentrau ehangach eraill i reoli rhywogaethau nad ydynt yn rhai brodorol.
- 4.7 Collwyd golygfeydd allweddol o'r Safle Treftadaeth y Byd dros amser wrth i goed dyfu. Nodwyd bod hon yn broblem benodol yng Nghefn Mawr, lle mae teimlad bod llai o gysylltiad ffisegol a gweledol rhwng y Safle Treftadaeth y Byd a'r gymuned (o ganlyniad i'r diffyg cysylltiadau). Mae cyfle i adfer golygfeydd allweddol drwy raglen rheoli coed addas, mewn partneriaeth gyda'r AHNE.
- 4.8 Gall weithio mewn partneriaeth gyda grwpiau ac asiantaethau eraill, er enghraifft ymddiriedolaethau bywyd gwyllt a grwpiau cymunedol, gael eu datblygu ymhellach i gynorthwyo gyda phrosiectau cadwraeth a chynnal lle bo hynny'n briodol.

Thema 2

Gwarchod y Gwerth Eithriadol Cyffredinol

- 4.9 Y system gynllunio sy'n gyfrifol am warchod y Safle Treftadaeth y Byd, ei glustogfa a'i leoliad ehangach (gan gynnwys golygfeydd ac ymdeimlad o gyrraedd) rhag datblygu amhriodol a newidiadau i ddefnydd tir. Ymhlith rhai o'r camau a gyflawnwyd yn ystod cyfnod y Cynllun Rheoli blaenorol, roedd cryfhau nifer o fecanweithiau gwarchod, gan gynnwys dynodi'r gamlas gyfan yn Heneb Gofrestredig, ymestyn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd i gynnwys Dyffryn Dyfrdwy (ac felly y rhan helaeth o'r Safle Treftadaeth y Byd) ac ymestyn yr Ardaloedd Cadwraeth.

⁹ Wrexham County Borough Council (2017), State of Conservation Report

- 4.10 Mae sicrhau cysondeb wrth ystyried penderfyniadau cynllunio ar y Safle Treftadaeth y Byd a'r glustogfa yn un o amodau arysgrifiad Safle Treftadaeth y Byd; llwyddir i wneud hyn drwy gyhoeddi Dogfen Gynllunio Atodol ar y Cyd i ddarparu canllawiau i ddatblygwyr a swyddogion awdurdodau lleol fel ei gilydd a rhoi cynigion datblygu allweddol i'w hystyried gerbron y Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth. Mae cyfle i adolygu'r Ddogfen Gynllunio Atodol hon yn ystod cyfnod y Cynllun Rheoli, yn enwedig o ystyried yr holl newidiadau o ran polisiâu a sefydliadau sydd wedi digwydd ers cyfnod yr arysgrifiad ac er mwyn sicrhau cysylltiadau gyda chanllawiau cynllunio atodol sy'n dod i'r amlwg a luniwyd ar ran yr AHNE. Mae angen diwygio'r Ddogfen Gynllunio Atodol ynghyd â chyflawni camau gweithredu eraill i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r Safle Treftadaeth y Byd ar bob lefel, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cyson yn cael eu gwneud.
- 4.11 Amlygodd adolygiad o benderfyniadau cynlluniau a wnaed yn 2016 y gellid gwneud gwelliannau mewn nifer o feysydd; roedd y rhain yn cynnwys gwelliannau i brosesau a gweithdrefnau (er enghraifft annog trafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau ac arfer gorau) yn ogystal â gwelliannau o ran dylunio (er enghraifft, yr angen am fwy o gysondeb wrth ymdrin â ffiniau er mwyn cryfhau hunaniaeth ac ymdeimlad o le).
- 4.12 Mae safleoedd allweddol yng nghlustogfa Safle Treftadaeth y Byd yn cynnwys hen safle Flexsys yng Nghefn Mawr a gwaith Kronospan yn y Waun. Mae'r ddau safle yn union gerllaw ffin y Safle Treftadaeth y Byd ac felly mae ganddynt y potensial i effeithio ar faterion yn ymwneud â'r lleoliad yn benodol. Mae safle Flexsys bellach yn safle tir llwyd sydd wedi'i glirio yn union gerllaw Basn Trefor ac mae'r ardal gyfan wedi bod yn destun proses prif gynllun, y bydd ei chanlyniadau yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol newydd Wrecsam. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn yr ardal yn y dyfodol yn parhau i fod yn briodol a bod cyfleoedd posibl i gymunedau lleol ac ymwelwyr elwa arnynt yn cael eu nodi.
- 4.13 Mae safle gwaith Kronospan wedi bod yn destun achos apêl diweddar, a heriwyd gan yr awdurdod lleol ar sail yr effaith bosibl ar gymeriad a lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd a'r AHNE; caniatwyd yr apêl yn ddiweddarach gan yr Arolygiaeth Gynllunio ym mis Mai 2018, a daeth yr Arolygydd i'r casgliad na fyddai'r cais yn achosi newidiadau sylweddol i'r golygfeydd ac na fyddai'n cael effaith andwyol ar leoliad y Safle Treftadaeth y Byd. Mae parhau i gynnal deialog, a lle bo'n berthnasol, trafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau, gyda darpar weithredwyr masnachol a thirfeddianwyr gerllaw'r Safle Treftadaeth y Byd yn dal i fod yn bwysig felly.
- 4.14 Ar lefel gymunedol, cynhaliwyd astudiaethau cymeriad yn yr aneddiadau yn y glustogfa, yn benodol yng Nghefn Mawr (Astudiaeth o Gymeriad Cefn Mawr a'r Cylch) a Llangollen. Gall y cyfoeth o wybodaeth yn yr astudiaethau hyn fod o gymorth i lywio polisiâu cynllunio a phenderfyniadau yn y dyfodol.

- 4.15 Ar lefel leol iawn, un o'r problemau sy'n wynebu'r Safle Treftadaeth y Byd y cyfeiriwyd ati yn yr Arolwg Cyfnodol (2014) yw gerddi yn llechfeddiannu tir. Mae enghreifftiau o hyn wedi'u rhestru yn yr arolwg o benderfyniadau cynllunio yn 2016; gall y rhesymau dros yr achosion hyn gynnwys diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith trigolion lleol am y Safle Treftadaeth y Byd, beth a olygir gan ddatblygu, a sut gellir cyfyngu arno.
- 4.16 Mae un broblem olaf yn ymwneud â'r posibilrwydd o golli nodweddion heb eu dynodi yng nghlustogfa'r Safle Treftadaeth y Byd (er enghraifft, nodweddion sy'n gysylltiedig ag adeiladau fel odynnau calch neu olion chwareli). Efallai fod y nodweddion treftadaeth hyn yn llai crand nag eraill, fel Traphontydd Dŵr Pontcysyllte a'r Waun, ond roedd ganddynt ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o'u hadeiladu. Er bod camau wedi'u cymryd i leihau rhywfaint ar golli nodweddion o'r fath drwy lunio Archwiliad Archaeolegol cynhwysfawr sy'n ystyried diben a swyddogaeth llawer o'r nodweddion hyn, mae lle hefyd i warchod rhai o'r enghreifftiau allweddol.

Thema 3

Dealltwriaeth ac Ymwybyddiaeth

- 4.17 Er bod llawer o bobl yn ymwybodol o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd, mae'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith o lunio'r Cynllun Rheoli hwn wedi dangos bod diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am rai materion, er enghraifft, beth sydd wedi'i gynnwys ar Safle Treftadaeth y Byd, ble mae ei ffiniau, bodolaeth clustogfa a beth yw ystyr hynny. Mae llawer o bobl - pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd - yn rhagdybio mai'r Safle Treftadaeth y Byd yw'r ardal yn union gerllaw Traphont Ddŵr Pontcysyllte.
- 4.18 Gan nad oes dealltwriaeth na gwerthfawrogiad llawn o ffiniau'r Safle Treftadaeth y Byd a'i glustogfa, mae'n anorfod efallai bod diffyg dealltwriaeth gyfatebol am yr hyn sy'n arbennig am yr ardal ehangach hon a'i chyfraniad i Werth Eithriadol Cyffredinol Safle Treftadaeth y Byd. Mae ystod o waith yn cael ei gyflawni i gyfrannu tuag at ddealltwriaeth o Safle Treftadaeth y Byd mewn lleoliadau ar hyd y coridor - yn Llangollen, er enghraifft, gan edrych ar waith y 'Pedwar Prif Briffordd' sy'n cael ei ddatblygu gan Weithgor Llangollen 2020 (sy'n canolbwyntio ar gydliad y gamlas, Afon Dyfrdwy, y rheilffordd stêm a ffordd A5 Telford).
- 4.19 Mae'n amlwg bod llawer o waith i'w wneud o hyd o safbwynt **cyfathrebu** gydag amryw o gynulleidfaoedd, gan gynnwys cymunedau lleol, busnesau, tirfeddianwyr a sefydliadau sy'n fudd-ddeiliaid allweddol.



- 4.20 Hyd yma, mae'r gymuned wedi cymryd rhan drwy gyfrwng amryw o grwpiau, digwyddiadau a gweithgareddau. Er enghraifft, datblygwyd grŵp 'Cyfeillion' (o'r enw Aqueducts) ar adeg yr enwebiad a oedd yn cynnwys pobl o gymunedau ar draws y Safle Treftadaeth y Byd; yn yr un modd, mae Cymdeithas Cymuned y Draphont Ddŵr / 'the Aqueduct Community Association' yn cynnwys cynrychiolwyr gwirfoddol o gymunedau Garth, Trefor a Froncysyllte.
- 4.21 Mae angen brys i weithredu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad ac ymrwymiad pellach gyda chymunedau lleol ar hyd coridor cyfan y Safle Treftadaeth y Byd, o Galedryd i Lantysilio. Mae mecanweithiau ar gyfer cyflawni hyn yn cael eu harchwilio, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer adfywio'r grŵp cymunedol cynhwysol ac o bosib, y Fforwm Cymunedol, a all gynnal digwyddiad blynyddol o amgylch themâu penodol y Cynllun Rheoli.
- 4.22 Datblygwyd rhaglen o gyfleoedd addysgol (Rhaglen 'Explorers') gan elusen Glandŵr Cymru ('Canal and River Trust in Wales') er mwyn helpu i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth. Yn sgil y Rhaglen 'Explorers' roedd yn bosibl recriwtio a hyfforddi pump gwirfoddolwr addysg (gan gynnwys siaradwr Cymraeg) i gyflwyno rhaglen allgymorth a hwyluso ymweliadau gan ysgolion / grwpiau ym Masn Trefor. Yn 2017/18 mae hyn wedi arwain at raglen ymgysylltu sylweddol, er enghraifft bu ymgysylltiad gyda dros 982 o blant trwy ysgolion lleol, ac mae 430 ohonynt wedi bod ym Masn Trefor. Mae Basn Trefor wedi ennill Bathodyn Ansawdd Dysgu y Tu allan i'r Ystafell Ddosbarth y Cyngor am Ddysgu y Tu allan i'r Ystafell Ddosbarth. Mae partneriaeth rhwng yr Ymddiriodolaeth a gwirfoddolwyr ar y 'Shropshire Union Fly Boat Saturn' ac maent yn cydweithio i ddarparu wythnos o ymweliadau i ysgolion bob blwyddyn. Mae gwybodaeth am y rhaglen ac adnoddau addysgol ar gael i athrawon ar wefan y Safle Treftadaeth y Byd. Mae adnoddau dysgu Cymraeg hefyd ar gael i'w lawrlwytho o wefan Explorers.
- 4.23 Mae parhau i ddatblygu a hyrwyddo'r cynnig addysgol yn hollbwysig o ran trosglwyddo Gwerth Eithriadol Cyffredinol y Safle Treftadaeth y Byd i genedlaethau'r dyfodol. Mae cyfleoedd yn cynnwys cynllun Llysgenhadon Ifanc, sydd wedi cael ei redeg fel cynllun peilot ar draws y Safle Treftadaeth y Byd a bydd yn cael ei lansio'n llawn yn ystod cyfnod y Cynllun Rheoli hwn. Rhaid ymchwilio ymhellach i gyfleoedd addysgol ar hyd y coridor Safle Treftadaeth y Byd.
- 4.24 Byddai gwella'r gwaith o ddehongli'r Safle Treftadaeth y Byd, gan gynnwys nodweddion y glustogfa, o gymorth i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am werth y Safle Treftadaeth y Byd i ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd. Yn ogystal â deall agweddau treftadol y Safle Treftadaeth y Byd, mae cyfle i wella dealltwriaeth o werth yr ardal o ran bioamrywiaeth, er enghraifft yr Ardal Gadwraeth Arbennig a



dynodiad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Afon Dyfrdwy.

- 4.25 Mae llawer o ymchwil wedi bod i hanes y gamlas ac agweddau peiranyddol cysylltiedig y ddau brif ddyfrbont. Ond mae cyfoeth o ardaloedd sy'n parhau a allai fod yn sail i ymchwil yn y dyfodol, a all yn ei dro, gael ei ddefnyddio i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r Safle Treftadaeth y Byd a'i bwysigrwydd.
- 4.26 Mae gan gymunedau yn y glustogfa yn benodol gysylltiadau pwysig gyda'r Safle Treftadaeth y Byd, er enghraifft ei rôl yn natblygiad cymeriad a morffoleg aneddiadau a'r rôl a chwaraewyd gan drigolion wrth adeiladu a gweithredu'r gamlas a'i nodweddion cysylltiedig. Mae 'archaeoleg gymdeithasol' y cymunedau hyn a'u trigolion yn faes y dylid ymchwilio iddo ymhellach, gan edrych ar ddatblygiad y prif ddiwydiannau (gwaith haearn, glofeydd, calch, bricwaith a'r diwydiant gemegau) a bywyd a gwaith y bobl hynny a oedd yn gysylltiedig â'r gamlas. Mae cyfoeth o wybodaeth hanesyddol ar gael mewn canolfannau lleol fel Amgueddfa Llangollen, ac Amgueddfa Cefn Mawr a'r Cylch.

Thema 4 Naws Am Le

- 4.27 Mae cyfle i greu mwy o ymdeimlad o le a hynodrwydd diwylliannol ar hyd coridor y Safle Treftadaeth y Byd drwy ddatllo asedau naturiol ac adeiledig yr ardal, cydnabod y rhan a chwaraewyd gan dreftadaeth, yr iaith Gymraeg a'r diwylliant, a chynnwys cymunedau lleol mewn ffordd fwy gweithredol, a gwella'r profiad i ymwelwyr.
- 4.28 Mae Cadw wedi cynnal asesiadau cymeriad trefol yn Llangollen a Chefn Mawr a'r Cylch, a nodwyd sut 'mae nodweddion hanesyddol wrth wraidd natur unigryw leol ac mae'n helpu i greu ymdeimlad o frogarwch'. Mae Camlas Llangollen wedi chwarae rhan hanfodol yn nhwf a datblygiad y cymunedau hyn ac eraill, gan greu morffoleg drefol a swyddogaeth ddiwylliannol unigryw.
- 4.29 Yn 2011, canran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych a Wrecsam oedd 24.6% a 12.9% yn y drefn honno; mae cyfartaledd y siaradwyr Cymraeg yn y ddau awdurdod lleol wedi gostwng ers 2001, gostyngiad o -1.8% yn Sir Ddinbych a -1.5% yn Wrecsam. Mae gan y Gymraeg ran bwysig i'w chwarae o ran hynodrwydd diwylliannol a chyfrannu at yr ymdeimlad o le mewn ardal. Mae diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg yn nod strategol i Sir Ddinbych a Wrecsam.



- 4.30 Mae angen cyflwyno'r Safle Treftadaeth y Byd yn ddi-dor, fel cyrchfan linellol, sy'n darparu cynnig o ansawdd i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd yn y prif ganolfannau ar hyd y coridor 11 milltir o hyd o Raeadr y Bedol i Bont y Galedryd. Mae cyfleoedd i gyflawni hyn yn cynnwys creu pyrth mwy pendant ger y mynedfeydd i'r Safle Treftadaeth y Byd, i gyhoeddi bod rhywun yn cyrraedd a gadael. Er enghraifft, nid oes 'dechrau' amlwg i'r Safle Treftadaeth y Byd ym Mhont y Galedryd.
- 4.31 Mae presenoldeb gweithgareddau cychod o fewn y Safle Treftadaeth y Byd yn gwneud cyfraniad pwysig i'r ymdeimlad o le. Gall cyfleoedd i bwysleisio rôl hanesyddol cychod gynnwys gŵyl gychod neu ymweliadau gan gychod treftadaeth ar hyd y gamlas.

Thema 5 Iechyd a Lles


- 4.32 Mae Cynllun Gweithredu Prosiect Ein Tirwedd Ddeniadol yn cyfeirio at faterion llesiant yn ardal y prosiect (sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r Safle Treftadaeth y Byd) gan gynnwys cynnydd mewn gordewdra ac anweithgarwch a mwy o unigrwydd cymdeithasol, yn enwedig ymhlith pobl hŷn. Mae Glandŵr Cymru yn ystyried sut gall dyfrffyrdd helpu i gwrdd ag anghenion iechyd a llesiant cymunedau lleol ar draws y wlad. Mae'r manteision i bobl leol yn cynnwys gwell iechyd a llesiant o ganlyniad i fwy o weithgarwch corfforol, yn ogystal â manteision posibl o ran gwella cyflyrau iechyd meddwl drwy ymwneud â'r amgylchedd naturiol neu wirfoddoli. Mae Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn cynnig cyfle i greu 'parc llinellol' neu adnodd, y gellir cael mynediad ar ei hyd i bob math o weithgareddau sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant - cerdded, beicio, chwaraeon dŵr (cychod, canŵio, padlfyrddio) a physgota i enwi dim ond rhai.
- 4.33 Mae defnyddio'r Safle Treftadaeth y Byd yn y ffordd hon nid yn unig yn dod â'r manteision iechyd a llesiant i bobl leol a ddisgrifir yma, ond mae hefyd yn cynnig heriau o ran rheoli. Mae gwrthdaro rhwng defnyddwyr yn fater sy'n amlwg mewn gwahanol leoliadau ar draws y Safle Treftadaeth y Byd, er enghraifft, rhwng cerddwyr a beicwyr ar y llwybr tynnu a rhwng defnyddwyr canŵod a chychod ar y dŵr, yn enwedig yn yr ardaloedd prysur sy'n denu llawer o ymwelwyr. Mae codi ymwybyddiaeth am y materion hyn ymhlith defnyddwyr a phobl leol yn bwysig, yn enwedig gan fod defnydd o'r safleoedd a gweithgareddau yn debygol o gynyddu.



Thema 6

Hygyrchedd a Chysylltiadau

- 4.34 Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn ymwneud yn bennaf â symudiad – coridor o symudiad a fynegir heddiw gan bresenoldeb y gamlas ei hun, ond gan ystyried coridorau trafndiaeth a chlodiant eraill fel A5 Telford, y rheilffordd a'r defnydd o lwybr tynnu'r gamlas gan gerddwyr a beicwyr. Mae cysylltiadau ar draws y Safle Treftadaeth y Byd yn faes y gellid ei wella. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau rhwng y gwahanol ganolfannau ar draws y Safle Treftadaeth y Byd ei hun, cysylltiadau gyda chymunedau a lleoliadau yn y glustogfa a chysylltiadau gydag atyniadau ymwelwyr eraill.
- 4.35 Gellir cyrraedd y Safle Treftadaeth y Byd ar drafndiaeth gyhoeddus gan ddefnyddio gorsafoedd trên y Waun a Rhiwabon (mae'r olaf yn golygu cerdded ychydig dros filltir rhwng yr orsaf drenau a'r Safle Treftadaeth y Byd ym Masn Trefor); mae gwasanaethau bysiau rheolaidd rhwng Llangollen a Wrecsam a rhwng Cefn Mawr a Wrecsam. Mae Rheilffordd Llangollen yn annog rhagor o gysylltiadau rhwng y canolfannau ar hyd coridor Safle Treftadaeth y Byd, ac mae'r rheilffordd bellach yn ymestyn i'r gorllewin i Gorwen; mae gorsaf Berwyn yn rhoi cyfleoedd i bobl ymweld ag ardal y Bont Gadwyni a Rhaeadr y Bedol. Gellir llogi cychod neu dalu am daith ar hyd y gamlas o Langollen a Basn Trefor. Yn olaf, mae llwybr tynnu'r gamlas ei hun yn gysylltiad i gerddwyr a beicwyr; mae'r llwybr tynnu yn rhan o Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa yn ardal Traphont Ddŵr Pontcysyllte.
- 4.36 Er gwaethaf y gwahanol gyfleoedd teithio a ddisgrifiwyd yma, maent yn tueddu i weithredu ar eu pennau eu hunain ac nid ydynt yn rhoi cyfle digonol i bobl leol sy'n defnyddio'r Safle Treftadaeth y Byd fel adnodd hamdden nac ymwelwyr sy'n dod i'r Safle Treftadaeth y Byd gael mynediad cynaliadwy a chreu llwybrau a pheccynnau 'cysylltiedig'. Gyda niferoedd yr ymwelwyr ar gynydd, mae integreiddio dulliau trafndiaeth yn gyfle i wella mynediad cynaliadwy a thrwy wneud hynny, ymestyn y cyfnod amser bydd ymwelwyr yn aros yn yr ardal o bosibl. Mae lleoliadau porth yn cyflwyno cyfleoedd penodol i ddarparu dull cyfun o deithio, i gael mynediad at y Safle Treftadaeth y Byd ac atyniadau eraill yn yr ardal i ymwelwyr - er enghraifft yn y porth deheuol ger y Waun, mae cyfleoedd posibl i gysylltu'r rheilffordd, y gamlas (gan gynnwys Dyfrbont a thwneli'r Waun) yn ogystal ag atyniadau eraill i ymwelwyr, megis Castell y Waun.
- 4.37 Mae prosiect Llwybrau Treftadaeth UNESCO yn rhoi cyfle i wella amserlenni teithio, cynnyrch a phrosiectau o amgylch Safleoedd Treftadaeth y Byd drwy ddatblygu cysylltiadau a gwybodaeth rhwng atyniadau ac ardaloedd cysylltiedig gyda gwerth diriaethol ac anniriaethol, er enghraifft, defnyddio'r cyfleoedd o ran cysylltiadau sydd ar gael ar lwyfannau digidol ac apiau symudol. Mae'r defnydd



o dechnoleg ddigidol yn cyflwyno cyfleoedd i greu mynediad rhith i'r Safle Treftadaeth y Byd a gwella dealltwriaeth. Mae esiamplau lleol yn cynnwys pwyntiau cod QR a sylwebaeth gysylltiedig ar hyd y gamlas yn Chirk Bank.

- 4.38 Mae cysylltiadau rhwng y Safle Treftadaeth y Byd a'r glustogfa (er enghraifft darparu a marchnata llwybrau cylchol sy'n defnyddio hawliau tramwy presennol) yn rhoi cyfle arall i ymestyn y cyfnod amser bydd ymwelwyr yn aros yn yr ardal o bosibl (gan ddod â mwy o fuddion economaidd), ac yn rhoi cyfleoedd i gysylltu nodweddion ac atyniadau o werth treftadol yn y glustogfa. Mae esiamplau yn cynnwys creu cysylltiadau cylchol gyda Llwybr Treftadaeth Cefn, Canol Tref Cefn Mawr, Parc Gwledig Tŷ Mawr, Coedwig Tan-y-Cut a Froncysyllte. Gellir gwneud gwelliannau cysylltedd drwy greu cysylltiadau ehangach, er enghraifft creu partneriaeth gyda grwpiau defnyddwyr llwybrau hir Clawdd Offa a Swydd Amwythig.
- 4.39 Mae cyfleoedd eraill hefyd i greu pwyntiau mynediad a chyfleusterau cysylltiedig newydd, a all helpu i reoli'r niferoedd cynyddol o ddefnyddwyr. Mae esiamplau'n cynnwys parc poced arfaethedig Wenffrwd ger Llangollen, sy'n cyflwyno cyfle newydd i greu mynediad ffisegol i'r Safle Treftadaeth y Byd yn y lleoliad hwn, gan agor darn o'r gamlas i'r rheiny nad ydynt efallai wedi ei mwynhau o'r blaen; yn yr un modd, mae'n bosibl bod cyfleoedd yn Llangollen ei hun i wella cysylltiadau ffisegol gyda'r Safle Treftadaeth y Byd.

Thema 7

Gwireddu Buddion Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol

- 4.40 Roedd yr ysgogiad i gael arysgrifiad Safle Treftadaeth y Byd yn tarddu'n wreiddiol o ddyhead i sicrhau adfywiad economaidd a fyddai'n cael ei arwain gan dreftadaeth a chyflawni twf economaidd drwy gynyddu gwerth y sector twristiaeth a gwarchod asedau treftadaeth yr ardal. Mae cwmnïau mawr sydd wedi cau o fewn yr ardal gyfagos i'r Safle Treftadaeth y Byd (gan gynnwys safleoedd Monsanto ac Air Products ger Cefn Mawr) wedi cyfrannu tuag at ddirywiad cymdeithasol ac economaidd yn yr ardal.
- 4.41 Mae gwaith ymchwil wedi amlygu'r rôl y gallai statws Safle Treftadaeth y Byd ei chwarae fel catalydd ar gyfer adfywio, drwy ddenu arian, buddsoddiad, mewnfudo a mwy o dwristiaeth. Gall ymgysylltu a chynnal mwy o weithgareddau gyda'r gymuned o ganlyniad i statws Safle Treftadaeth y Byd ddod â buddion ychwanegol o ran balchder trefol a chyfalaf cymdeithasol gan godi ymwybyddiaeth hefyd ymhlith partneriaid am yr hyn mae statws Safle Treftadaeth y Byd yn ei olygu. Er y cydnabyddir y buddion hyn, mae pryderon nad yw buddion economaidd, yn benodol, wedi rhaeadru i lawr i'r cymunedau, busnesau a thrigolion lleol. Mae angen arferion gweithio agosach gydag ystod eang o bartneriaid lleol er mwyn darparu prosiectau buddiol yn lleol.

- 4.42 Mae twristiaeth yn dod â llawer o refeniw y mae dirfawr ei angen i'r economi leol ac yn cynnal swyddi, gwasanaethau a seilwaith lleol. Amcangyfrifir mai gwerth twristiaeth i economi Wrecsam yn 2015 oedd £111.9 miliwn, a'r gwerth i economi Sir Ddinbych yn 2016 oedd cyfanswm o £479 miliwn (data STEAM). Mae twristiaeth yn cynnal bron i 8,000 o swyddi llawn amser ar draws ardaloedd y ddau awdurdod lleol.

- 4.43 Mae niferoedd yr ymwelwyr sy'n dod i'r Safle Treftadaeth y Byd wedi cynyddu'n sylweddol ers iddo gael ei arysgrifo yn 2009; ar yr adeg hon roedd tua 200,000 o ymwelwyr yn dod i'r ardal bob blwyddyn. Yn 2017 daeth dros 300,000 o ymwelwyr i Draphont Ddŵr Pontcysyllte a thros 100,000 o ymwelwyr i Raeadr y Bedol. Mae'n bosibl y gallai Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (UE) ym mis Mehefin 2016 a gostyngiad dilynol yng ngwerth y bunt arwain at dwf yn nifer yr ymwelwyr tramor sy'n dod i'r Deyrnas Unedig o ganlyniad i gyfraddau cyfnewid mwy ffafriol, gan arwain yn ei dro at dwf yn nifer yr ymwelwyr â'r Safle Treftadaeth y Byd. Mae ffactorau a all gyfyngu ar dwf twristiaid yn yr ardal yn y dyfodol yn cynnwys diffyg gwestai o safon (pedwar a pum seren).



- 4.44 Mae'r cynnydd yn niferoedd ymwelwyr yn dod â'i broblemau ei hun – er enghraifft, problemau o ran rheoli ymwelwyr mewn lleoliadau prysur iawn (parcio, tagfeydd, difrod oherwydd erydiad, pwysau ar gyfleusterau, a rheoli'r amgylchedd fel casglu sbwriel). Mae parcio yn broblem benodol ym Masn Trefor (mae'n bosibl y bydd maes parcio dros dro newydd yn helpu i wella'r sefyllfa hyd nes i gynlluniau parcio ceir parhaol gael eu cwblhau) ac mae'n broblem barhaus yn nhref Llangollen.

- 4.45 Mae'r buddion sy'n gysylltiedig â gweithgareddau megis cychod, canŵio a padlfyrddio yn cynnwys cymorth i fusnesau, y cyhoedd yn rhyngweithio gyda'r gamlas, ei hanes a'i strwythurau, yn ogystal â gwelliannau i fywiogrwydd ac atyniad y Safle Treftadaeth y Byd.

Thema 8

Stiwardiaeth Amgylcheddol

- 4.46 Mae ansawdd yr amgylchedd naturiol yn elfen bwysig o'r Safle Treftadaeth y Byd, ac mae'r gamlas yn werthfawr fel coridor i fywyd gwyllt. Mae bron i 90% o'r Safle a'i glustogfa o fewn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a dynodiadau amgylcheddol eraill gydag Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid (AGA), a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Afon Dyfrdwy. Bydd sicrhau y caiff cysylltiadau priodol eu datblygu felly gyda Chynlluniau Rheoli a Gweithredu eraill (er enghraifft, Cynllun Rheoli'r AHNE) yn bwysig wrth ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd naturiol. Ymhlith rhai enghreifftiau mae cynlluniau angenrheidiol i reoli llystyfiant er mwyn gwarchod asedau treftadaeth yn ogystal â golygfeydd tuag at Safle Treftadaeth y Byd as programmes for the removal of invasive species.

Thema 9

Trychinebau a Pharatoi ar gyfer Risg

- 4.47 Gall Safleoedd Treftadaeth y Byd fod yn agored i bob math o drychinebau a pheryglon a all o bosibl newid y nodweddion ffisegol sy'n werthfawr o ran treftadaeth neu a all beri risg i'r economi leol yn sgil colli refeniw twristiaeth. Mae'r risgiau sy'n wynebu Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, llifogydd neu dorri glannau'r gamlas, neu yn sgil achosion o lygredd / digwyddiadau diwydiannol mawr. Caiff trefniadau a Chynlluniau Argyfwng Safleoedd eu cynnal rhwng gweithredwyr safleoedd diwydiannol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'r gwasanaethau brys a chânt eu hadolygu a'u harchwilio yn dilyn unrhyw newidiadau i fynediad a lefelau defnydd y safleoedd hyn.
- 4.48 Mae Glandŵr Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth Adnoddau Dŵr a fydd o gymorth i ddeall effeithiau hinsawdd sy'n newid ar y dŵr sy'n llifo i mewn i gamlesi ar draws y Deyrnas Unedig; mae Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd er mwyn ymchwilio i'r gallu i wrthsefyll hinsawdd sy'n newid a dulliau o reoli perygl llifogydd. Mae archwiliadau rheolaidd Glandŵr Cymru yn lleihau risg ac yn darparu lefel o amddiffyniad rhag trychinebau gan gynnwys torri rheolau a llifogydd.
- 4.49 Mae ymgynghoriad a lansiwyd ym mis Medi 2018 gan Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru ar sut i reoli safleoedd hanesyddol eiconig yn wyneb newid yn yr hinsawdd, yn tynnu sylw at y ffaith bod safleoedd dan fygythiad oherwydd tymheredd cynhesach, patrymau glawiad sy'n newid ac achosion amlach o dywydd eithafol. Mae Cynllun Addasu'r Sector yn nodi ffyrdd o addasu i newidiadau sydd eisoes yn digwydd yn ogystal â cheisio lleihau effeithiau yn y dyfodol.

Thema 10

Rhannu Cyfrifoldeb

- 4.50 Mae trefniadau rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd yn gymhleth yn anorfod, o ystyried bod y Safle Treftadaeth y Byd yn croesi tri awdurdod lleol (Wrecsam, Sir Ddinbych a Swydd Amwythig), y tîrfeddiannwr (Glandŵr Cymru), a natur draws-ryngwladol y Safle Treftadaeth y Byd.
- 4.51 Roedd yr Adolygiad Cyfnodol o'r Safle Treftadaeth y Byd a gynhaliwyd yn 2014 yn nodi y gallai materion yn ymwneud â'r nawdd a'r adnoddau sydd ar gael gyfyngu'n ddifrifol ar allu sefydliadau i reoli'r safle yn effeithiol. Mae cyllidebau presennol ar draws y tri awdurdod lleol yn gyfyngedig a phrin yw'r ffynonellau nawdd allanol posibl. Nid oes cyllideb ar y cyd ar gyfer rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd, sy'n golygu bod gweithredu dull 'cyfun' yn llawer anoddach. Heb os, mae cymryd camau i ddatrys y sefyllfa hon yn gymhleth o ystyried nifer y partneriaid allweddol sy'n gysylltiedig. Mae sicrhau bod trefniadau

rheoli priodol yn eu lle a'u bod yn cael eu cynnal, ac y caiff adnoddau eu dyrannu a'u blaenoriaethu, yn hanfodol i weithrediad effeithiol y Cynllun Rheoli.

- 4.52 Cyflwynir y cyfleoedd sydd ar gael er mwyn gweithio'n agosach a dyrannu adnoddau posibl i weithredu camau penodol yng Nghynllun Partneriaeth Ein Tirwedd Ddeniadol, sy'n cynnwys nifer o nodau ehangach ac amcanion Cynllun Rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd. Mae enghreifftiau yn cynnwys ffyrdd o ailddosbarthu ymwelwyr ar hyd y Safle Treftadaeth y Byd ac ardal y prosiect yn ehangach.
- 4.53 Mae pwynt olaf yn ymwneud â'r angen i gynnwys cymunedau lleol wrth ddod i benderfyniadau, er mwyn helpu i wella dealltwriaeth o'r Safle Treftadaeth y Byd a chodi ymwybyddiaeth amdano a'i werth i genedlaethau heddiw a'r dyfodol.


Pennod 5

Gweledigaeth ac Amcanion ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd

5.1 Mae'r Weledigaeth ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte isod.

Gweledigaeth ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte

Ysbrydoli pobl i ddathlu, mwynhau a gwerthfawrogi Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte a'i ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn:





5.2 Datblygwyd y Weledigaeth ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd mewn partneriaeth gyda budd-ddeiliaid a'r Bwrdd Strategol. Mae'r Weledigaeth yn disgrifio sut bydd Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn parhau i gael ei ddathlu am ei beirianeg arloesol a'i gyfraniad anhygoel i fywydau pobl a chymunedau ers cyfnod y Chwyldro Diwydiannol. Bydd pobl leol, cymunedau ac ymwelwyr oll yn deall gwerth treftadaeth a llesiant cymdeithasol ac economaidd y Safle Treftadaeth y Byd, o Raeadr y Bedol i Bont y Galedryd. Bydd cymunedau yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ofalu am y Safle Treftadaeth y Byd.

- 5.3 Bydd y Safle Treftadaeth y Byd yn parhau i gael ei reoli gan bartneriaeth effeithiol, a fydd yn cydweithio i sicrhau:
- Cymuned ag ymdeimlad hanfodol o'i diwylliant a'i threftadaeth ei hun;
 - Cynaliadwyedd a chadwraeth y Safle Treftadaeth y Byd; a
 - Mwynhad o'r buddion gorau posibl a all ddod i bobl Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig yn sgil y statws uwch hwn.

Themâu, Amcanion a Chysylltiadau

- 5.4 Nodir isod y deg thema a ddaeth i'r amlwg wrth lunio'r Cynllun Rheoli, a droswyd yn ddeg Amcan. Mae'r diagram yn dangos sut mae'r themâu hyn a'r amcanion cyfatebol yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r CU (2015).
- 5.5 Mae a wnelo Deddf LICD â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd gyson; mae'r Ddeddf yn berthnasol iawn i Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, lle mae angen am arferion gwaith trawsffiniol a chydlynus i wireddu buddion treftadaeth, adfywio a chymunedol. Er nad yw'r Ddeddf yn gymwys yn uniongyrchol i ran Lloegr o'r Safle Treftadaeth y Byd, mae'r egwyddorion a'r nodau sydd wedi'i gynnwys ynddo yn berthnasol – er enghraifft hyrwyddo ffyniant, cymunedau cydlynus, diwylliant bywiog, iechyd, cydraddoldeb a gwytnwch. Yn wir, y pedwar canlyniad lefel uchel sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Corfforaethol Swydd Amwythig 2018 yw economi ffyniannus, cyngor masnachol, iechyd pobl a chymunedau gwydn.
- 5.6 Cafodd Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy ei fabwysiadu gan holl Wledydd sy'n Aelodau o'r Cenhedloedd Unedig yn 2015. Mae 17 Nod Datblygu Cynaliadwy yn ganolog i'r Agenda sy'n cydnabod bod 'rhaid i derfyn ar dlodi ac amddifadedd eraill fynd law yn llaw â strategaethau sy'n gwella iechyd ac addysg, lleihau cydraddoldeb ac annog twf economaidd'. Mae nifer o'r nodau hyn yn berthnasol i natur ryngwladol dynodiad Safle Treftadaeth y Byd ac maent wedi eu hamlygu yn y diagram ar y dudalen nesaf.





Pennod 6

Cynllun Gweithredu

Cynllun Gweithredu

- 6.1 Mae'r Bennod hon yn cynnwys y Cynllun Gweithredu ac yn nodi ar gyfer pob un o'r meysydd allweddol pa gamau gweithredu sy'n briodol i gyflawni amcanion penodol. Pennwyd y camau gweithredu unigol mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy drafodaethau gyda sefydliadau sy'n bartneriaid yn ystod y gweithgareddau ymgynghori a gynhaliwyd gyda budd-ddeiliaid ac aelodau o'r gymuned. Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd wedi ceisio dwyn ynghyd camau gweithredu o ddogfennau perthnasol eraill er mwyn sicrhau cysondeb wrth reoli'r Safle Treftadaeth y Byd dros gyfnod y cynllun nesaf. Ymhlith enghreifftiau o'r rhain mae Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Cynllun Gweithredu Cadwraeth Ein Tirwedd Ddeniadol a Chynlluniau Rheoli Cyrchfan Wrecsam a Sir Ddinbych.
- 6.2 Diffinnir yr amserlenni yn y Cynllun Gweithredu fel a ganlyn:
- Tymor byr – rhwng 1 a 2 flynedd
 - Tymor canolig – rhwng 2 a 5 mlynedd
 - Tymor hir – dros 5 mlynedd
- 6.3 Mae nifer o gamau gweithredu wedi eu nodi fel 'parhaus' neu 'blynyddol.'
- 6.4 Mae camau gweithredu wedi cael eu blaenoriaethu o ran pwysigrwydd Uchel, Canolig neu Isel. Mae blaenoriaethu wedi digwydd mewn ymgynghoriad â sefydliadau partner a'r nod yw cynorthwyo i ddarparu ffocws o ran lle dylid dyrannu adnoddau. Gall rhai camau gweithredu fod yn rhai hirdymor o ran eu darparu'n gyffredinol, ond cânt eu cofnodi fel rhai â blaenoriaeth lefel uchel.
- 6.5 Y Bwrdd Strategol sy'n gyfrifol am weithredu a monitro'r Cynllun Rheoli. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno adroddiadau rheolaidd i UNESCO (bob chwe blynedd, yn unol ag Erthygl 29 y Confensiwn Treftadaeth Byd). Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei lunio yn nodi'r cynnydd yn erbyn pob un o'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu – gan ddefnyddio'r categorïau Heb Ddechrau, Wedi Dechrau (gydag awgrym o'r ganran a gwblhawyd) ac Wedi Cwblhau. Hefyd, nodwyd nifer o ddangosyddion allweddol a ddefnyddir i fonitro cynnydd y Cynllun Rheoli wrth gyflawni ei amcanion cyffredinol a disgrifir y rhain yn y Cynllun Gweithredu dros y dudalen.

THEMA 1		AMCAN 1 Amddiffyn a gwarchod yr asedau sy'n ffurfio'r Safle Treftadaeth y Byd a'i dirwedd					
CAM GWEITHREDU	SEFYDLIAD/AU AR-WEINIOL A PHARTNERIAID	AMSERLEN	BLAENORIAETH	GWAELODLIN	TREFNIADAU A DANGOSYDDION MONITRO	CYNLLUNIAU A RHAGLENNI ATEGOL	CYSYLLTIADAU Â NODAU DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL / NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CU
1.1 Diweddarur Cynllun Rheoli Cadwraeth a luniwyd ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd yn 2009	Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth Glandŵr Cymru CBSW CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig Cadw / Historic England AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Tymor byr	Uchel	Cynllun Rheoli Cadwraeth 2009	Cynllun Rheoli Cadwraeth Diwygiedig wedi'i gynhyrchu	Cynllun Gweithredu Cadwraeth Prosiect Ein Tirwedd Ddeniadol Mynegai ac Adroddiad cyflwr cadwraeth	Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 8 CU - Hyrwyddo twf economaidd parhaus, cynhwysol a chynaliadwy
1.2 Cynhelir gwaith cynnal rheolaidd gan Glandŵr Cymru yn unol â rhaglen waith i safonau a ddiffinnir yn seiliedig ar ddefnydd a gwerth.	Glandŵr Cymru Yr holl sefydliadau sy'n bartneriaid	Yn parhau	Uchel	Sefyllfa gwaelodlin wedi'i lywio gan ddata 2019	Cyflwr i gael ei fonitro ddwywaith y flwyddyn trwy raglen Cynnal a Chadw drwy Gynllunio Ataliol	Rhaglenni Cynnal Glandŵr Cymru	Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 8 CU - Hyrwyddo twf economaidd parhaus, cynhwysol a chynaliadwy
1.3 Adolygu'r Rhestr bob 5 mlynedd a nodi gwaith cynnal a gosod blaenoriaethau ar gyfer gwaith trwsio am y 5 mlynedd nesaf.	Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth Yr holl sefydliadau sy'n bartneriaid	Yr adolygiad nesaf i'w gynnal yn 2022	Uchel	Sefyllfa gwaelodlin yn cynnwys yr adolygiad 2017	Nifer yr asedau sy'n cael eu graddio fel Gwael yn lleihau	Cynllun Rheoli Cadwraeth	Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 8 CU - Hyrwyddo twf economaidd parhaus, cynhwysol a chynaliadwy

CAM GWEITHREDU	SEFYDLIAD/AU AR-WEINIOL A PHARTNERIAID	AMSERLEN	BLAENO-RIAETH	GWAELODLIN	TREFNIADAU A DANGOSYDDION MONITRO	CYNLLUNIAU A RHAGLENNI ATEGOL	CYSYLLTIADAU Â NODAU DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL / NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CU
1.4 Glandŵr Cymru i wneud cais am drwydded echdynnu i sicrhau bod yr hawliau echdynnu dŵr o system afon Dyfrdwy yn parhau i gael eu parchu.	Glandŵr Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru	Bob blwyddyn	Uchel	Trwydded echdynnu bresennol yn ei lle.	Bydd ceisiadau ar gyfer trwydded echdynnu dŵr ar gyfer cyflenwad dŵr camlas Llangollen yn cael ei gyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru cyn y terfyn amser o 31 Rhagfyr 2019, fel rhan o'r gweithgarwch ehangach 'Awdurdodiadau Newydd gan y Tîm Rheoli Dŵr.	Strategaethau Cyfoeth Naturiol Cymru	Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Cymru gydnherth
1.5 Gwaith i leihau gollyngiadau lle bo'r angen i'w gynnwys yn rhaglenni cynnal Glandŵr Cymru.	Glandŵr Cymru	Yn parhau	Canolig	Sefyllfa gwaelodlin wedi'i lywio gan ddata 2019	Rhaglen cynnal a chadw cynhwysiant. Monitro ddwywaith y flwyddyn drwy Raglen Cynnal a Chadw Cynllunio Ataliol.	Rhaglenni Cynnal Glandŵr Cymru	Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Cymru gydnherth

THEMA 2		AMCAN 2 Amdiffyn a gwarchod yr elfennau hynny sy’n rhan o Werth Eithriadol Cyffredinol y Safle gan ddarparu ar gyfer newid addas ar yr un pryd									
CAM GWEITHREDU	SEFYDLIAD/AU AR-WEINIOL A PHARTNERIAID	AMSERLEN	BLAENO-RIAETH	GWAELODLIN	TREFNIADAU A DANGOSYDDION MONITRO	CYNLLUNIAU A RHAGLENNI ATEGOL	CYSYLLTIADAU Â NODAU DEDDF LLESIAANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL / NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CU				
2.1 Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol newydd a fabwysiadir yn ystod cyfnod y Cynllun Rheoli yn cynnwys polisiau addas ar gyfer gwarchod y Safle Treftadaeth y Byd, y glustogfa a'r lleoliad ehangach.	Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth Pob awdurdod lleol	Yn parhau	Uchel	Statws CDLI wrth gyhoeddi'r Cynllun Rheoli	CDLI yn cynnwys polisiau priodol ar gyfer gwarchod y Safle Treftadaeth y Byd, y Glustogfa a'r lleoliadau ehangach	Cynlluniau Datblygu Lleol	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 17 CU - Partneriaethau				
2.2 Diweddaru dogfen Gwaelodlin y Dirwedd ac Asesiad Gweledol	Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth Pob awdurdod lleol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Tymor byr	Uchel	Gwaelodlin y Dirwedd ac Asesiad Gweledol Presennol wedi'i gynhyrchu 2009 (gan gynnwys adolygiad 2014)	Gwaelodlin y Dirwedd ac Asesiad Gweledol diwygiedig	Dogfen Gynllunio Atodol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Cynllun Gweithredu Cadwraeth Prosiect Ein Tirwedd Ddeniadol	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy				
2.3 Diweddaru Canllawiau Cynllunio Atodol i adlewyrchu'r Cynllun Rheoli newydd ac amgylchiadau sy'n newid.	Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth Pob awdurdod cynllunio lleol	Tymor byr	Uchel	Dogfen Gynllunio Atodol (wedi'i gyhoeddi yn 2012)	Mae'r Ddogfen Gynllunio Atodol ddiweddaraf wedi'i chynhyrchu a'i mabwysiadu	Dogfen Gynllunio Atodol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 17 CU - Partneriaethau				
2.4 Gwaith monitro rheolaidd er mwyn gwirio cydymffurfiaeth â chaniatâd a roddwyd, drwy gynnal adolygiad o'r penderfyniadau cynllunio a diweddaru arolygon o'r rhestr. Cadw golwg ar leoliadau lle mae'n ddymunol cymryd camau gorfodaeth ar y Safle Treftadaeth y Byd a blaenoriaethu'r camau gweithredu.	Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth Pob awdurdod cynllunio lleol Cadw Historic England	Yn parhau	Uchel	Adolygiad o Benderfyniadau Cynllunio 2016 Adroddiad Cyflwr Cadwraeth 2017	Nifer y materion gorfodi a ganfyddir Nifer y materion gorfodi a ganfyddir sydd wedi cael eu datrys	Amh.	Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang Cymru lewyrchus Nod 17 CU - Partneriaethau				

CAM GWEITHREDU	SEFYDLIAD/AU AR-WEINIOL A PHARTNERIAID	AMSERLEN	BLAENO-RIAETH	GWAELODLIN	TREFNIADAU A DANGOSYDDION MONITRO	CYNLLUNIAU A RHAGLENNI ATEGOL	CYSYLLTIADAU Â NODAU DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL / NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CU
2.5 Cynnal adolygiad o benderfyniadau cynllunio bob 5 mlynedd.	Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth Pob awdurdod cynllunio lleol Cadw Historic England	2021	Canolig	Amh.	Cyflawni adolygiad bob 5 mlynedd	Cynlluniau Datblygu Lleol	Cymru lewyrchus Nod 17 CU - Partneriaethau
2.6 Cynnal hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau gan gynnwys swyddogion cynllunio ac aelodau pwyllgorau cynllunio lleol.	Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth Pob awdurdod lleol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth	Bob 3 mlynedd.	Uchel	Amh.	Nifer y sesiynau hyfforddi a gynhelir	Cynlluniau Datblygu Lleol	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 17 CU - Partneriaethau
2.7 Ffurfioli'r broses ar gyfer ymgynghori a chael adborth ar geisiadau cynllunio gan y Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth.	Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth CBS Wrecsam CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig Cadw Historic England	Tymor byr	Canolig	Amh.	Proses ymgynghori ac adborth wedi'i ffurfioli	Amh.	Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang Cymru lewyrchus Nod 17 CU - Partneriaethau
2.8 Datblygu Cynlluniau Dylunio ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd gan roi ystyriaeth i'r driniaeth o ffiniau, palet o ddeunyddiau derbyniol ac annerbyniol, lliwiau. Defnyddio'r Canllaw Dylunio i gryfhau hunaniaeth ac ymdeimlad o le.	Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth CBS Wrecsam CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Tymor Canolig	Uchel	Dogfen Gynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd	Safle Treftadaeth y Byd – datblygwyd Canllawiau Dylunio eang	Cynlluniau Datblygu Lleol / Canllaw Cynllunio Atodol	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Cymru â chymunedau cydlynoli; Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy
2.9 Gofyn am ragor o fanylion gan ymgeiswyr ynghylch deunyddiau, tirlunio, goleuadau a gwasanaethau yn y cyfnod cyn penderfynu ar geisiadau.	Pob awdurdod cynllunio lleol Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth	Yn parhau	Uchel	Dogfen Gynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd	Nifer y ceisiadau am wybodaeth fanwl a wneir yn ystod y cam cyn gwneud penderfyniad	Amh.	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus

CAM GWEITHREDU	SEFYDLIAD/AU AR-WEINIOL A PHARTNERIAID	AMSERLEN	BLAENO-RIAETH	GWAELODLIN	TREFNIADAU A DANGOSYDDION MONITRO	CYNLLUNIAU A RHAGLENNI ATEGOL	CYSYLLTIADAU Â NODAU DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL / NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CU
2.10 Hyrwyddo arfer gorau drwy rannu Datganiadau Dylunio a Mynediad enghreifftiol ac Asesiadau Effeithiau ar Dreftdadaeth.	Pob awdurdod cynllunio lleol Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth	Yn parhau	Uchel	Dogfen Gynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd	Arferion gorau Datganiadau Dylunio a Mynediad ac Asesiadau Effeithiau ar Dreftdadaeth wedi'u nodi	Amh.	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus
2.11 Defnyddio'r arolygon a gaiff eu cynnal i ddiweddaru'r Rhestr er mwyn nodi ardaloedd lle ceir problemau o ran gerddi sy'n llechfeddiannu tir a phenderfynu ar y camau gorfodaeth angenrheidiol mewn ymgynghoriad gyda'r awdurdod cynllunio lleol, tirfeddiannwr, Cadw/Historic England	Grŵp Cyflawni Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth CBS Wrecsam CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig Glandŵr Cymru Cadw Historic England	Tymor byr i'r tymor canolig	Uchel	Diweddariad Mynegai 2017	Canfod nifer yr ardaloedd gyda gerddi sy'n llechfeddiannu Nifer y camau gorfodi a gyflawnir Nifer y cyfleoedd i ymgysylltu gyda thirfeddiannwyr a gyflawnir	Amh.	Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 17 CU - Partneriaethau
2.12 Gweithio tuag at y nod o symud / adleoli gwaith carthion Dŵr Cymru o dan Draphont Ddŵr Pontcysyllte	AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Cyfoeth Naturiol Cymru Dŵr Cymru	Tymor hir	Uchel	Amh.	Canfod cynllun gweithredu ar gyfer adleoli gwaith carthion Dŵr Cymru	Amh.	Cymru lewyrchus Nod 17 CU - Partneriaethau

THEMA 3	CRYFHAU dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth	AMCAN 3						Datblygu a chryfhau'r ddealltwriaeth o'r Gwerth Eithriadol Cyffredinol a'r rôl a chwaraeodd y Safle Treftadaeth y Byd yn natblygiad peirianeg sifil	
CAM GWEITHREDU	SEFYDLIAD/AU AR-WEINIOL A PHARTNERIAID	AMSERLEN	BLAENO-RIAETH	GWAELODLIN	TREFNIADAU A DANGOSYDDION MONITRO	CYNLLUNIAU A RHAGLENNI ATEGOL	CYSYLLTIADAU Â NODAU DEDDF LLESIAINT CENEDLAETHAU'R DYFODOL / NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CU		
3.1 Sefydlu Fforwm Cymuned ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd a chynnal un digwyddiad Fforwm ar thema gwahanol bob blwyddyn.	Cydlunydd y Safle Treftadaeth y Byd Cyngorau Tref, Cymuned a Phlwyf Grwpiau cymunedol presennol a chymunedau o ddiddordeb	Tymor byr	Uchel	Amh.	Cynnal un digwyddiad Fforwm Cymuned bob blwyddyn Nifer a chynrychiolaeth ddaearyddol y mynychwyr Nifer y cynrychiolwyr o fusnesau lleol sy'n mynychu	Prosiect Ein Tirwedd Darluniadwy 3 Prosiect Mawr Lleol	Cymru lewyrchus Cymru â chymunedau cydlynol Cymru sy'n fwy cyfartal Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy		
3.2 Cyhoeddi lleiafrif o ddwy erthygl bob blwyddyn mewn papur newydd lleol am y Safle Treftadaeth y Byd a phrosiectau / gweithgareddau sy'n digwydd	Cydlunydd y Safle Treftadaeth y Byd Cyngorau Tref, Cymuned a Phlwyf	Bob blwyddyn	Uchel	Amh.	Nifer yr erthyglau a gyhoeddir mewn papurau newydd lleol	Amh.	Cymru lewyrchus Cymru â chymunedau cydlynol Cymru sy'n fwy cyfartal Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy		
3.3 Develop international links with organisations such as the International Committee for Conservation of the Industrial Heritage (TICCIH) and the European Route of Industrial Heritage (ERIH).	Cydlunydd y Safle Treftadaeth y Byd Grŵp Cyflawni Addysg Cadw Historic England Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys	Tymor Canolig	Isel	Amh.	Cysylltiadau a ddatblygir gydag asiantaethau rhyngwladol	Amh.	Cymru sydd â chyfrifoldeb byd-eang Cymru lewyrchus Nod 17 CU - Partneriaethau		
3.4 Sicrhau nawdd i ymchwilio i 'archaeoleg gymdeithasol' y Safle Treftadaeth y Byd a chymunedau yn y glustogfa	Cydlunydd y Safle Treftadaeth y Byd Grŵp Cyflawni Addysg Grwpiau cymunedol lleol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Partneriaid Ein Tirwedd Ddeniadol	Tymor byr i'r tymor canolig	Uchel	Amh.	Nifer y ceisiadau am gyllid a gyflwynir / cyfleoedd ar gyfer cyllid a archwiliwyd Nifer y ceisiadau cyllido llwyddiannus	Prosiect Ein Tirwedd Darluniadwy	Cymru lewyrchus Cymru â chymunedau cydlynol Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy		

CAM GWEITHREDU	SEFYDLIAD/AU AR-WEINIOL A PHARTNERIAID	AMSERLEN	BLAENO-RIAETH	GWAELODLIN	TREFNIADAU A DANGOSYDDION MONITRO	CYNLLUNIAU A RHAGLENNI ATEGOL	CYSYLLTIADAU Â NODAU DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL / NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CU
3.5 Cefnogi cyfleoedd i gynnal mwy o asesiadau archeolegol ar y Safle Treftadaeth y Byd a'r glustogfa, drwy broses gynllunio a phrosiectau eraill	CBS Wrecsam CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Grŵp Cyflawni Addysg Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys Cadw Historic England	Tymor byr i'r tymor canolig	Isel	Amh.	Nifer y cyfleoedd i gyflawni asesiadau archeolegol	Uwchgynllun Ardal Basn Trefor	Cymru lewyrchus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Nod 17 CU - Partneriaethau
3.6 Defnyddio digwyddiadau Treftadaeth y Byd y Deyrnas Unedig fel cyfle i gysylltu â chynulleidfâ ehangach a chyfnewid gwybodaeth am arfer gorau.	Cydlynydd y Safle Treftadaeth y Byd Treftadaeth y Byd y DU Cadw Historic England	Tymor byr	Uchel	Amh.	Nifer y cynrychiolwyr sy'n mynychu digwyddiad Treftadaeth y Byd y Deyrnas Unedig 2019	Amh.	Cymru lewyrchus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Nod 17 CU - Partneriaethau
3.7 Rhoi'r Cynllun Llysgenhadon Ifanc ar waith.	Cydlynydd y Safle Treftadaeth y Byd Grŵp Cyflawni Addysg Glandŵr Cymru CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig CBSW	Tymor byr	Uchel	Amh.	Nifer y swyddi Llysgenhadon Ifanc sy'n cael eu creu	Partneriaid AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Prosiect Ein Tirwedd Darluniadwy	Cymru lewyrchus Cymru â chymunedau cydlynol Cymru sy'n fwy cyfartal Nod 4 CU – Addysg o Safon Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy
3.8 Gweithio gydag ysgolion lleol drwy Raglen Chwilotwyr neu 'Explorers' Glandŵr Cymru.. Hyrwyddo'r gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o'r rhaglen hon i gynulleidfâ ehangach.	Glandŵr Cymru Grŵp Cyflawni Addysg CBS Wrecsam CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Parhaus / Tymor byr	Uchel	982 o ddisgyblion a ymgysylltwyd â nhw yn 2017/18	Nifer y disgyblion sy'n ymgysylltu yn y rhaglen Explorer Nifer yr ysgolion sy'n ymgysylltu yn y rhaglen Explorer Nifer y cyfleoedd a ddefnyddir i hyrwyddo dysgu	Rhaglen Chwilotwyr 'Explorers' Glandŵr Cymru	Cymru lewyrchus Cymru â chymunedau cydlynol Cymru sy'n fwy cyfartal Nod 4 CU – Addysg o Safon
3.9 Canfod cyfleoedd i gyflawni a chyhoeddi ymchwil hanesyddol, er enghraifft drwy gysylltiadau gyda grwpiau hanesyddol lleol a / neu sefydliadau a grwpiau anffurfiol sy'n cynnwys haneswyr lleol	Grŵp Cyflawni Addysg Grwpiau hanes lleol	Tymor canolig	Isel	Amh.	Cysylltiadau a ddatblygir gyda grwpiau hanes lleol	Amh.	Cymru lewyrchus Cymru â chymunedau cydlynol Nod 4 CU – Addysg o Safon Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy

THEMA 4		AMCAN 4					Defnyddio cymeriad a hynodrwydd y lle a'i dirwedd i ddenu pobl i fyw, ymweld a buddsoddi mewn cyfleoedd gwaith a hamdden, gan hyrwyddo'r safle fel porth i dreftadaeth naturiol, adeiledig, cymdeithasol a diwylliannol Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig				
CAM GWEITHREDU	SEFYDLIAD/AU AR-WEINIOL A PHARTNERIAID	AMSERLEN	BLAENO-RIAETH	GWAELODLIN	TREFNIADAU A DANGOSYDDION MONITRO	CYNLLUNIAU A RHAGLENNI ATEGOL	CYSYLLTIADAU Â NODAU DEDDF LLESIAANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL / NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CU				
4.1 Datblygu thema'r 'un ar ddeg milltir o Dreftadaeth y Byd' a gyflwynir yng Nghanllaw Arddull y Safle Treftadaeth y Byd drwy ddeunydd dehongli a hyrwyddo.	Grŵp Cyflawni Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd CBS Wrecsam CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig Glandŵr Cymru AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Grwpiau cymunedol lleol	Tymor Canolig	Uchel	Amh.	Arwyddion a deunydd dehongli cyson wedi'i baratoi ar hyd y Safle Treftadaeth y Byd	Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau / Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Strategaeth Ddehongli'r Safle Treftadaeth y Byd Prosiect Cwmpawd/Compass	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy				
4.2 Rhoi strategaeth dehongli ac arwyddion y Safle Treftadaeth y Byd ar waith i sicrhau cysondeb ar draws y safle. Cynnwys deunyddiau dehongli ac arwyddion mewn aneddiadau allweddol yn y glustogfa fel Cefn Mawr, Y Waun a Llangollen.	Grŵp Cyflawni Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig Glandŵr Cymru AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Tymor Canolig	Uchel	Strategaeth deunydd dehongli ac arwyddion Safle Treftadaeth y Byd	Arwyddion a deunydd dehongli cyson wedi'i baratoi ar hyd y Safle Treftadaeth y Byd	Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau / Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Strategaeth Ddehongli'r Safle Treftadaeth y Byd Prosiect Cwmpawd/Compass	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy				
4.3 Datblygu deunydd marchnata a gwybodaeth cyn i bobl ymweld â'r safle drwy ddulliau presennol a rhai newydd (e.e. gwybodaeth mewn meysydd awyr).	Grŵp Cyflawni Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd Timau Twristiaeth Partneriaid Rheoli Cyrchfannau Awdurdodau Lleol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Tymor Canolig	Canolig	Amh.	Nifer y cyfleoedd marchnata oddi ar y safle a ddatblygir Nifer y cyfleoedd marchnata cyn i bobl ymweld â'r safle a ddatblygir (e.e. cyfryngau cymdeithasol/cyfleoedd ar wefannau)	Dogfennau Strategaeth Croeso Cymru / Visit England	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy				
4.4 Gwella dulliau o ddod o hyd i leoedd a'r ymdeimlad o hunaniaeth ar y Safle Treftadaeth y Byd, er enghraifft drwy osod arwyddbyst ar bellterau rheolaidd	Grŵp Cyflawni Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd Glandŵr Cymru CBS Wrecsam CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Tymor Canolig	Canolig	Strategaeth deunydd dehongli ac arwyddion Safle Treftadaeth y Byd	Arwyddion a deunydd dehongli cyson wedi'i baratoi ar hyd y Safle Treftadaeth y Byd	Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy				


CAM GWEITHREDU	SEFYDLIAD/AU AR-WEINIOL A PHARTNERIAID	AMSERLEN	BLAENO-RIAETH	GWAELODLIN	TREFNIADAU A DANGOSYDDION MONITRO	CYNLLUNIAU A RHAGLENNI ATEGOL	CYSYLLTIADAU Â NODAU DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL / NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CU
4.5 Gwella'r rhyngwyneb rhwng Glanfa Llangollen a thref Llangollen drwy gymryd rhan mewn prosiectau lleol perthnasol.	Grŵp Cyflawni Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd CS Ddinbych Glandŵr Cymru Cyngor Tref Llangollen AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Tymor canolig i'r tymor hir	Uchel	Astudiaeth Dichonolrwydd Llangollen 2020	Nifer y prosiectau adfywio lleol a gefnogir (e.e. Gwaith Pedwar Prifffordd Llangollen)	Llangollen 2020 Prosiect Ein Tirwedd Darluniadwy	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 8 CU - Hyrwyddo twf economaidd parhaus, cynhwysol a chynaliadwy Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy
4.6 Ail-frandio a hyrwyddo Glanfa Llangollen ac ardal y Warws yn unol â Strategaeth Ddehongli'r Safle Treftadaeth y Byd a Phrosiect Cwmpawd / Project Compass.	Glandŵr Cymru CS Ddinbych AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Tymor Canolig	Canolig	Amh.	Ail-frandio Glanfa Llangollen ac ardal y Warws	Cynlluniau Rheoli Cychfannau Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Strategaeth Ddehongli'r Safle Treftadaeth y Byd Prosiect Cwmpawd/ Compass	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy
4.7 Datblygu cynigion i gyhoeddi'r 'porth' i'r Safle Treftadaeth y Byd ger Pont Galedryd	Grŵp Cyflawni Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd Cyngor Swydd Amwythig	Tymor Canolig	Uchel	Amh.	Prosiect porth wedi'i ddatblygu ym Mhont Galedryd erbyn 2024	Amh.	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru lewyrchus Nod 8 CU - Hyrwyddo twf economaidd parhaus, cynhwysol a chynaliadwy Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy
4.8 Datblygu gwaith dehongli yn Noc Rheilffordd Pwll Glo'r Parc Du.	Grŵp Cyflawni Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd CBSW Cadw	Tymor Canolig	Isel	Amh.	Gwaith dehongli yn Noc Rheilffordd Pwll Glo'r Parc Du wedi'i ddatblygu	Amh.	Cymru lewyrchus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy
4.9 Datblygwyd cynigion yn Rhaeadr y Bedol fel rhan o Brosiect Ein Tirwedd Ddeniadol.	Clwydian Range & Dee Valley AONB CS Ddinbych Cadw Glandŵr Cymru	Tymor byr i'r tymor canolig	Canolig	Amh.	Cynigion yn Rhaeadr y Bedol wedi'u datblygu Cynigion wedi'u gweithredu	Ein Tirwedd Darluniadwy Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Cymru lewyrchus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Nod 8 CU - Hyrwyddo twf economaidd parhaus, cynhwysol a chynaliadwy Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy

THEMA 5		AMCAN 5 Datblygu cyfleoedd i hyrwyddo iechyd a llesiant cymunedau lleol					
CAM GWEITHREDU	SEFYDLIAD/AU AR-WEINIOL A PHARTNERIAID	AMSERLEN	BLAENO-RIAETH	GWAELODLIN	TREFNIADAU A DANGOSYDDION MONITRO	CYNLLUNIAU A RHAGLENNI ATEGOL	CYSYLLTIADAU Â NODAU DEDDF LLESIAANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL / NODAU DATBLYGU / CYNALIADWY'R CU
5.1 Datblygu cysylltiadau gyda darparwyr gofal iechyd i hyrwyddo'r defnydd o Gamlas Llangollen i wella iechyd a llesiant.	Glandŵr Cymru CBS Wrecsam CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Parhaus / Tymor byr	Canolig	Amh.	Cofnodion blynyddol o: - Nifer y darparwyr gofal iechyd sy'n ymgysylltu - Nifer yr ymgyrchoedd iechyd a lles	Strategaethau Iechyd a Llesiant yr Awdurdodau Lleol / Glandŵr Cymru	Cymru â chymunedau cydlynol Cymru iachach Nod 3 CU – Iechyd a lles da
5.2 Datblygu deunydd cyflwyniadol / cysylltiad gyda phartneriaid perthnasol i hyrwyddo buddion llesiant a hygyrchedd y Safle Treftadaeth y Byd i ddefnyddwyr o bob gallu corfforol.	Pob awdurdod lleol Glandŵr Cymru AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Tymor Canolig	Canolig	Amh.	Nifer y prosiectau cerdded a beicio sydd wedi'u cynllunio gyda phartneriaid lleol e.e. Grwpiau Cerdded Llesol	Strategaethau Iechyd a Llesiant yr Awdurdodau Lleol / Glandŵr Cymru	Cymru â chymunedau cydlynol Cymru iachach Nod 3 CU – Iechyd a lles da

THEMA 6		AMCAN 6	Gwneud y Safle mor hygyrch â phosibl yn ffisegol a deallusol i boblogaeth mor eang ag sy'n ymarferol
---------	---	---------	--

CAM GWEITHREDU	SEFYDLIAD/AU ARWEINIOL A PHARTNERIAID	AMSERLEN	BLAENO-RIAETH	GWAELODLIN	TREFNIADAU A DANGOSYDDION MONITRO	CYNLLUNIAU A RHAGLENNI ATEGOL	CYSYLLTIADAU Â NODAU DEDDF LLESIAANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL / NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CU
6.1 Cefnogi gwyliau cerdded lleol i sicrhau bod y Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei gynnwys a'i hyrwyddo, gan gynnwys teithiau cylchol i fannau o ddiddordeb, a defnyddio arweinwyr hyfforddedig o'r gymuned leol.	Grŵp Cyflawni Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd Glandŵr Cymru CBS Wrecsam CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Grwpiau cerdded lleol	Tymor Canolig	Uchel	Amh.	Nifer y cysylltiadau sydd wedi'u datblygu gyda chydlynwyr y gwyliau cerdded lleol	Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Prosiect Ein Tirwedd Darluniadwy	Cymru iachach Cymru â chymunedau cydlynol Nod 3 CU – lechyd a lles da Nod 10 CU – Lleihau Anghydraddoldeb Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy
6.2 Creu a hyrwyddo teithiau cylchol, e.e. llwybrau posibl a gafodd eu creu drwy'r prosiect Ein Tirwedd Ddeniadol.	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Glandŵr Cymru CBS Wrecsam CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig	Tymor Canolig	Uchel	Amh.	Monitro nifer y defnyddwyr y llwybrau newydd yn flynyddol	Prosiect Ein Tirwedd Darluniadwy	Cymru iachach Cymru â chymunedau cydlynol Nod 3 CU – lechyd a lles da Nod 10 CU – Lleihau Anghydraddoldeb Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy
6.3 Datblygu prosiect i ymchwilio i gysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy at y Safle Treftadaeth y Byd ac ar ei hyd, gan gysylltu cyrchfannau ymwelwyr ac ar y cyd â'r AHNE. Ystyried cynllun peilot yn y lle cyntaf yn ystod y tymor gwyliau.	Grŵp Cyflawni Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd CBS Wrecsam CS Ddinbych Cyngor Swydd Amwythig AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Tymor canolig i'r tymor hir	Uchel	Amh.	Sicrhau bod cwestiwn dull cyrraedd yn cael ei roi mewn arogiadau blynyddol	Cynllun Trafnidiaeth Leol Gogledd Cymru / mentrau trafnidiaeth integredig	Cymru iachach Cymru â chymunedau cydlynol Cymru lewyrchus Nod 3 CU – lechyd a lles da Nod 10 CU – Lleihau Anghydraddoldeb Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy

CAM GWEITHREDU	SEFYDLIAD/AU ARWEINIOL A PHARTNERIAID	AMSERLEN	BLAENO- RIAETH	GWAELODLIN	TREFNIADAU A DANGOSYDDION MONITRO	CYNLLUNIAU A RHAGLENNI ATEGOL	CYSYLLTIADAU Â NODAU DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL / NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CU
6.4 Datblygu cyfleoedd ar gyfer gwerthu tocynnau / hyrwyddo digwyddiadau ar y cyd gyda busnesau lleol fel Rheilffordd Llangollen / cychod a dynnir gan geffylau yn Llangollen	Grŵp Cyflawni Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd Glandŵr Cymru CBS Wrecsam CS Ddinbych AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Rheilffordd Llangollen Glanfa Llangollen	Tymor Canolig	Canolig	Amh.	Nifer y cyfleoedd posibl ar gyfer hyrwyddo ar y cyd a ganfyddir	Amh.	Cymru iachach Cymru â chymunedau cydlynol Cymru lewyrchus Nod 3 CU – lechyd a lles da Nod 10 CU – Lleihau Anghydraddoldeb Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy
6.5 Monitro a rhoi sylw i'r effeithiau sy'n gysylltiedig â mwy o alw am weithgareddau chwaraeon padlo	Grŵp Cyflawni Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd Glandŵr Cymru CBS Wrecsam CS Ddinbych AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Ymddiriedolaeth y Ddyfrdwy Cymru / Welsh Dee Trust	Yn parhau	Uchel	5,000 o ymwelwyr chwaraeon padlo i Gamlas Llangollen. Datblygu gwaelodlin i ddealu lleoliadau gweithgareddau chwaraeon padlo	Adolygu'r galw yn flynyddol gyda gweithredwyr chwaraeon dŵr	Prosiect Ein Tirwedd Darluniadwy	Cymru gydnerth Cymru lewyrchus Nod 3 CU – lechyd a lles da Nod 11 CU - Cymunedau Cynaliadwy
6.6 Ymchwilio i'r potensial o gynnal prosiect ar y cyd gyda Gwesty'r Chainbridge i wella'r llwybr tynnu yn yr ardal hon a mynediad ar draws y Bont Gadwyni.	CS Ddinbych AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Glandŵr Cymru Cyngor Tref Llangollen	Tymor Canolig	Isel	Amh.	Length of canal towpath enhanced / improved	Amh.	Hyd y llwybr tynnu ar y gamlas sydd wedi gwella

THEMA 7		AMCAN 7 Cefnogi cymunedau a busnesau lleol i wireddu buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y Safle er mwyn adeiladu ar gryfderau presennol					
167	Cored Rhaeadr y Bedol NPRN403685	SJ19588 43283	Cored gain, grom gydag ymyl haearn bwrw sy'n cyflenwi dŵr ar gyfer y gamlas gyfan, sy'n enghraifft o reolaeth dŵr a'r defnydd arfoesol o haearn bwrw.	Glandŵr Cymru	Rhestredig Cofrestredig	
168	Tir o amgylch Rhaeadr y Bedol	SJ 28764-37157	Tir o amgylch Rhaeadr y Bedol sydd o bwysigrwydd i'w osodiad gweledol	Preifat	O fewn y Lleoliad	Da

ATODIAD E

Nodweddion Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte

Nodwedd	Crynodeb	Cydran	Meini Prawf
Mae'n enghraifft arloesol o waith dylunio ac adeiladu camlesi cludiant, mewn lleoliad daearyddol anodd, ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif ac ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd angen gwaith peirianeg sifil helaeth a mentrus.	Mae Traphont ddŵr Pontcysyllte yn cynrychioli defnydd creadigol a mentrus o syniadau newydd wedi'u cyfuno â sgiliau eithriadol wrth ymdrin â deunyddiau. Yn ei gyd-destun yn y ddeunawfed ganrif mae maint y draphont ddŵr yn rhyfeddol, ond mae'r defnydd cynnar a hyderus o haearn bwrw yn ysgubol. Ymchwiliodd y dylunwyr i dechnoleg newydd haearn bwrw strwythurol a'i rhoi ar brawf, gan ddwyn ynghyd crefftwyr arbenigol ac ymgymryd â sawl syniad newydd wrth ddatblygu a chreu syniadaeth y prosiect. Aethant ati i greu camlas nas gwelwyd mo'i thebyg o'r blaen o ran ysgafnder a cheinder, a hynny ar uchder a hyd a fyddai wedi bod yn amhosibl drwy ddefnyddio dulliau arferol. Hon oedd y draphont ddŵr uchaf y gellid teithio arni yn y byd am ddwy ganrif. Gellir ystyried Traphontydd ddŵr Pontcysyllte a'r Waun ymhlith y modelau amlwg cynnar o estheteg swyddogaethol. Cydnabuwyd bod y gamlas ar ei hyd wedi cyfuno peirianwaith cadarn â sensitifrwydd i dirwedd werthfawr. Bu'n rhaid i'r peirianwyr ymyrryd yn y dirwedd ar raddfa a dwysedd nas gwelwyd o'r blaen er mwyn wynebu'r her o dorri dyfrffordd yn groes i raen topograffiaeth ucheldir Cymru. Byddai pob un o'r nodweddion i'w gweld yn y safle yn dod yn nodweddiadol o lwybrau cludiant peirianegol. Yn benodol, mae'r safle'n amlgu'r newid o lwybrau trafnidiaeth a oedd yn dilyn y dirwedd i lwybrau oedd yn gorfodi'r dirwedd i wasanaethu anghenion economïau diwydiannol yn fwy effeithlon.	▪ Traphontydd ddŵr Pontcysyllte a'r Waun, ▪ Twneli'r Waun ac Whitehouse ▪ argloddiau, ffurfiadau cloddwaith ▪ toriadau, ▪ pontydd amrywiol, ▪ ceuffosydd, ▪ basnau, ▪ glanfeydd a warysau, ▪ tai camlas ar gyfer peirianwyr preswyl a gweithwyr camlas, ▪ Rhaeadr y Bedol.	i) Cynrychioli campwaith o athrylith greadigol dynol

Nodwedd	Crynodeb	Cydran	Meini Prawf
Mae Traphont Ddŵr Pontcysyllte yn gampwaith Pontcysyllte yn gampwaith arloesol o beirianeg a phensaernïaeth anferthol gan y peiriannydd sifil enwog Thomas Telford.	Mae Traphont ddŵr Pontcysyllte yn cynrychioli defnydd creadigol a mentrus o syniadau newydd wedi'u cyfuno â sgiliau eithriadol wrth ymdrin â deunyddiau. Yn ei gyd-destun yn y ddeunawfed ganrif mae maint y draphont ddŵr yn rhyfeddol, ond mae'r defnydd cynnar a hyderus o haearn bwrw yn ysgubol. Ymchwiliodd y dylunwyr i dechnoleg newydd haearn bwrw strwythurol a'i rhoi ar brawf, gan ddwyn ynghyd crefftwyr arbenigol ac ymgymryd â sawl syniad newydd wrth ddatblygu a chreu syniadaeth y prosiect. Aethant ati i greu camlas nas gwelwyd mo'i thebyg o'r blaen o ran ysgafnder a cheinder, a hynny ar uchder a hyd a fyddai wedi bod yn amhosibl drwy ddefnyddio dulliau arferol. Hon oedd y draphont ddŵr uchaf y gellid teithio arni yn y byd am ddwy ganrif. Traphont ddŵr Pontcysyllte oedd gorchest gynharaf Thomas Telford i gael ei chyd nabod yn rhyngwladol.	• Cefnogir cafn y gamlas ar 18 o bileri carreg main, sy'n wag ar y rhannau uchaf i leihau'r llwyth ar y seiliau. • Mae cafn haearn bwrw yn ymestyn am 307 o fedrau, gyda'r rhan uchaf 38.4 metr uwchben afon Dyfrdwy. • 4 asen bwa haearn sy'n rhychwantu rhwng y pileri carreg ac wedi'u bolltio gyda'i gilydd gyda phlatiau cysylltiol yn cefnogi'r cafn. • Platiau haearn 1 modfedd o drwch sy'n cloi gyda'i gilydd mewn patrwm tebyg i voussoirs mewn bwa fflat sy'n ffurfio ochrau'r cafn. • Mae bracedau a chlustenni ynghlwm â'r ochr isaf yn atal y cafn rhag symud o ochr i ochr. • Cefnogir y llwybr tynnu dros y cafn ar bolion er mwyn caniatáu i'r dŵr gylchredeg. • Mae'r pyst sy'n cefnogi'r llwybr wedi'u gosod ar gymalau cantellog y platiau gwaेलod gan ddefnyddio lletemau a chlustenni, defnyddir cynhalwyr croes i gefnogi'r platiau dros lenwad uchaf y llwybr.	i) Cynrychioli campwaith o athrylith greadigol ddynol yn arddangos cyfnewid pwysig gwerthoedd dynol, dros gyfnod o amser neu o fewn ardal ddiwylliannol o'r byd, ynghylch datblygiadau mewn pensaernïaeth neu dechnoleg, celfyddydau ar ffurf henebion, cynllunio tref neu ddylunio tirlun. iv) bod yn enghraifft eithriadol o fath o adeilad, ensemble pensaernïol neu dechnolegol neu dirlun sy'n dangos (a) cam(au) arwyddocaol yn hanes dynoliaeth
Mae Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn enghreifftiau cynnar a rhagorol o'r datblygiadau arloesol a ddaeth yn sgil y Chwyldro Diwydiannol ym Mhrydain, lle gwnaethpwyd datblygiad pendant mewn galluedd cludiant.	Fe wnaeth adeiladu'r gamlas helpu i ddatblygu strwythurau economaidd newydd fel y dangosir gan y ffaith i'r gamlas gael ei hadeiladu gan gwmni cydgyfalaf, gyda chamlesi Prydain ymhlith y busnesau cyntaf i godi cyfalaf drwy gyfranddaliadau torfol. Mae'r gamlas yn cynrychioli cyfalafiad cynyddol y Chwyldro Diwydiannol a gynlluniwyd i ddisodli llafur â chyfalaf drwy greu dulliau cludiant mwy effeithlon. Fe wnaeth gwaith peirianyddol arloesol y gamlas ganiatáu i bobl wneud y mwyafrwyaf o gyfoeth mwynol Gogledd Ddwyrain Cymru, a'r galw am danwydd ffosil yn hybu datblygiad y gamlas. Fe wnaeth y gamlas helpu i gynyddu masnach ryngranbarthol gyda gosodiadau ar gyfer masnach fewnol ac allanol a dyfodd ar ei glannau.	• Dyngarwch • Llwybrau cludo masnachol rhyngranbarthol • Hwyluso'r broses o gludo adnoddau mwynol i'r byd diwydiannol. • Cynyddu Cyfalafiad • Y symudiad i danwydd ffosil • Mae'r gamlas wedi denu twristiaid hyd yn oed o'i dyddiau cynnar	i) Cynrychioli campwaith o athrylith greadigol ddynol iv) Bod yn enghraifft eithriadol o fath o adeilad, ensemble pensaernïol neu dechnolegol neu dirlun sy'n dangos (a) cam(au) arwyddocaol yn hanes dynoliaeth

Nodwedd	Crynodeb	Cydran	Meini Prawf
Maent yn dyst o gyfnewidfeydd a dylanwadau rhyngwladol mawr iawn ym meysydd dyfrffyrdd mewndirol, peirianeg sifil, cynllunio defnydd tir, a'r defnydd o haearn mewn dylunio strwythurol.	Gyda chymaint o gamles'i'n cael eu hadeiladu ar yr un pryd o amgylch Prydain, roedd technegau gwell yn cael eu darganfod a'u datblygu gyda phob prosiect newydd.	- Sefydlodd Telford ethos proffesiynol y peiriannydd ac egwyddorion rheoli contractau a ddefnyddir hyd heddiw yn rhyngwladol - Sefydlodd Telford a Jessop linellau cyfrifoldeb clir rhwng arbenigwyr gan ganiatáu i brosiectau mawr o'r fath gael eu cyflawni: mae hyn yn amlwg yn nhai'r peirianwyr preswyl - Datblygodd Telford gyfrifiadau torri a llenwi, gan olygu bod modd cyflawni'r gwaith cloddio ar y fath raddfa drwy symud y gwastraff mewn ffordd effeithlon, roedd hyn yn hollbwysig ar gyfer adeiladu rheilffyrdd ar draws y byd a defnyddir yr arferion hyn hyd heddiw mewn peirianeg fodern. - Roedd y defnydd helaeth o reilffyrdd adeiladu a rheilffyrdd traciau dwbl i waredu gwastraff a chludo mwynau'h effeithiol yn hanfodol ar gyfer y gwaith adeiladu sylweddol; datblygwyd y technegau a ddefnyddiwyd ym Mhontcysyllte ymhellach ar draws y byd. - Mae'r gamlas yn amlgu'r newid o lwybrau trafnidiaeth a oedd yn dilyn y dirwedd i lwybrau oedd yn gorfodi'r dirwedd i wasanaethu anghenion economïau diwydiannol yn fwy effeithlon, gan ddefnyddio gwaith peirianeg sifil sylweddol ac osgoi'r angen am gloeon.	i) Cynrychioli campwaith o athrylith greadigol ddynol iii) yn arddangos cyfnewid pwysig gwerthoedd dynol, dros gyfnod o amser neu o fewn ardal ddiwylliannol o'r byd, ynghylch datblygiadau mewn pensaernïaeth neu dechnoleg, celfyddydau ar ffurf henebion, cynllunio tref neu ddylunio tirlun. iv) bod yn enghraifft eithriadol o fath o adeilad, ensemble pensaernïol neu dechnolegol neu dirlun sy'n dangos (a) cam(au) arwyddocaol yn hanes dynoliaeth
Mae'r tirweddau sy'n amgylchynu Traphontydd Dŵr Pontcysyllte a'r Waun yn ategu at eu prydferthwch.	Roedd adeiladu'r gamlas ar y dirwedd hon yn her i'r peirianwyr, ond mae'r dirwedd hefyd yn cynnig golygfeydd godidog i werthfawrogi'r cyflawniadau.	- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy - Tirwedd Hanesyddol Dyffryn Llangollen - SoDdGA ac ACA afon Dyfrdwy - Ardal Tirwedd Arbennig - Parc a Gardd Hanesyddol - Ardalbedd Cadwraeth - Ysbrydoliaeth ar gyfer gwaith celf a llenyddiaeth o'r ddeunawfed ganrif hyd heddiw.	i) Yn arddangos cyfnewid pwysig gwerthoedd dynol, dros gyfnod o amser neu o fewn ardal ddiwylliannol o'r byd, ynghylch datblygiadau mewn pensaernïaeth neu dechnoleg, celfyddydau ar ffurf henebion, cynllunio tref neu ddylunio tirlun. iv) Bod yn enghraifft eithriadol o fath o adeilad, ensemble pensaernïol neu dechnolegol neu dirlun sy'n dangos (a) cam(au) arwyddocaol yn hanes noliaeth

ATODIAD F



SAFLE TREFTADAETH Y BYD TRAPHONT DDŴR A CHAMLAS PONTCYSYLLTE

CYLCH GORCHWYL LLYWODRAETHU

Bydd defnyddio dull partneriaeth i reoli a monitro Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn cyfrannu'n helaeth at warchod asedau'r Safle Treftadaeth y Byd a gweithrediad y Confensiwn Treftadaeth Byd.

Os nad yw trefniadau llywodraethu'r Safle Treftadaeth y Byd yn gadarn ac yn cael eu cydlynu'n effeithiol, ni fydd modd cyflawni'r cydgyfrifoldeb dros ddiogelu a hyrwyddo'r Safle Treftadaeth y Byd yn effeithiol.

Mae'r cylch gorchwyl hwn yn amlinellu nodau Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte ac aelodau'r Strwythur Llywodraethu. (Atodiad 1)

Mae gan bob partner yr hawl i weithredu'n unigol. Pan fo prosiectau'n cael eu darparu drwy becynnau ariannol sy'n cynnwys dau neu fwy o bartneriaid, bydd pob partner yn gallu rheoli eu cyfraniad cyllidebol unigol gan gytuno i weithredu ar y cyd o fewn fframwaith Trefniadau Llywodraethu'r Safle Treftadaeth y Byd.

1. Pwrpas

Bydd strwythur llywodraethu'r Safle Treftadaeth y Byd yn sicrhau fod gweithredoedd pob awdurdod ac asiantaeth sy'n aelodau mewn perthynas â'r Safle Treftadaeth y Byd yn cael eu cydlynu'n effeithiol er mwyn cadw'r teitl UNESCO ac i sicrhau gymaint o fuddion â phosibl i'r cymunedau o fewn y Safle Treftadaeth y Byd a'r ardaloedd cyfagos.

Mae'r dirwedd yn cynnwys buddiannau neu werthoedd sy'n cystadlu â'i gilydd, ac mae'n bwysig fod gwerthoedd archeolegol, diwylliannol a threftadol y dirwedd yn cael eu cadw a'u datblygu gan dderbyn newidiadau angenrheidiol i'r rheiny sydd â diddordeb neu'n byw o fewn yr ardal.

2. Gweledigaeth

"Ysbrydoli pobl i ddathlu, mwynhau a gwerthfawrogi Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte a'i ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

Mae'r Safle'n cynrychioli'r priodoleddau canlynol sy'n cyflwyno Gwerth Cyffredinol Eithriadol:

- Mae'n enghraifft ysblennydd o beirianwaith camlesi diwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg;
- Mae'r Draphont Ddŵr yn gampwaith pensaernïol mewn tirwedd ddramatig;
- Mae'n enghraifft o'r gwelliannau mewn trafndiaeth a gafwyd yn ystod y Chwyldro Diwydiannol;
- Mae'n arddangos cyfnewid gwerthoedd rhyngwladol pwysig o ran mordwyo fewndirol, peirianeg sifil a defnyddio haearn ym maes dylunio strwythurol

Y canlyniadau rydym yn dyheu amdanynt yw:

- Cymuned ag ymdeimlad hanfodol o'i diwylliant a'i threftadaeth ei hun;
- Cynaliadwyedd a chadwraeth y Safle Treftadaeth y Byd; a
- Mwynhad o'r buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gorau posibl a all ddod i bobl Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig yn sgil y statws uwch hwn.

3. Nodau ac Amcanion

- Amddiffyn a gwarchod yr asedau allweddol sy'n ffurfio'r Safle Treftadaeth y Byd a'i dirwedd
- Amddiffyn a gwarchod yr elfennau hynny sy'n rhan o Werth Eithriadol Cyffredinol y Safle gan ddarparu ar gyfer newid addas ar yr un pryd.
- Datblygu a chryfhau'r ddealltwriaeth o'r Gwerth Eithriadol Cyffredinol a'r rôl a chwaraeodd y Safle Treftadaeth y Byd yn natblygiad peirianeg sifil
- Cefnogi cymunedau a busnesau lleol i wireddu buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y Safle er mwyn adeiladu ar gryfderau presennol.

- e. Gwneud y Safle mor hygyrch â phosibl yn ffisegol a deallusol i boblogaeth mor eang ag sy'n ymarferol.
- f. Hyrwyddo'r Safle fel porth i dreftadaeth naturiol, adeiledig, cymdeithasol a diwylliannol Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig.
- g. Defnyddio cymeriad a hynodrwydd y lle a'i dirwedd i ddenu pobl i fyw, ymweld a buddsoddi mewn cyfleoedd gwaith a hamdden.

Mae'n rhaid llunio Cynllun Rheoli er mwyn bodloni rhwymedigaethau'r Deyrnas Unedig dan Gonfensiwn Treftadaeth Byd UNESCO sy'n nodi bod yn rhaid i bob Safle Treftadaeth y Byd gael system reoli briodol ar waith a fydd yn nodi sut y dylid cynnal y 'Gwerth Cyffredinol Eithriadol', cyfanrwydd a dilysrwydd y safle a'i nodweddion.

Mae'r Cynllun Rheoli yn cynnig fframwaith cyffredinol o amcanion, ond nid yw'n ddogfen statudol. Fodd bynnag, y bwriad yw crynhoi prif egwyddorion y Cynllun Rheoli yng nghynlluniau ffurfiol perthnasol Partneriaid. Nid yw'n cyflwyno pwerau newydd, ac nid yw'n lleihau cyfrifoldeb unrhyw asiantaeth neu unigolyn. Drwy gynghori a llywio, bydd y Cynllun yn gweithredu fel catalydd ar gyfer gweithredu mentrau rheoli amrywiol. Bydd y Cynllun yn parhau i gael ei ddatblygu, a bydd yn llywio ac yn ymateb i bolisiâu a chynigion rheoli eraill yn ymwneud â'r ardal.

4. Strwythur Llywodraethu ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd

Bwriedir i'r nodau a'r amcanion gael eu bodloni drwy ystod eang o weithredoedd a phrosiectau gan ystod o asiantaethau, awdurdodau, buddsoddwyr preifat a grwpiau cymunedol. Bydd yn rhaid gweithredu ar y cyd ar gyfer y mwyafrif ohonynt, ond bydd rhai ohonynt yn cael eu cwblhau gan gorff unigol. Bydd y Strwythur Llywodraethu, a'r Cynllun Rheoli ategol yn anelu at sicrhau fod y gweithredoedd hyn yn dod o fewn strategaeth a fframwaith cyffredinol cydlynol sy'n cynnwys atebolrwydd clir.

Bydd strwythur llywodraethu'r Safle Treftadaeth y Byd yn sicrhau fod gweithredoedd pob awdurdod ac asiantaeth sy'n aelodau mewn perthynas â'r Safle Treftadaeth y Byd yn cael eu cydlynu'n effeithiol.

Caiff y strwythur ei arwain gan Fwrdd Strategol, Partneriaeth Budd-ddeiliaid Treftadaeth Byd, a gefnogir gan ystod o Weithgorau ac Is-weithgorau a sefydlwyd i sicrhau darpariaeth effeithiol. Mae pob gweithgor yn gyfrifol am Bartneriaeth Budd-ddeiliaid Treftadaeth Byd i ddarparu rhaglenni gwaith a gytunwyd gan y Bwrdd Strategol.

4.1 Rhwymedigaethau Sefydliadau Partner

4.1.2 Rôl

- i) Mae pedwar prif sefydliad partner sydd ynghlwm â rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd;
 - Glandŵr Cymru;
 - Cyngor Sir Ddinbych;
 - Cyngor Swydd Amwythig; a
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- ii) Bydd pob sefydliad partner yn penodi cynrychiolwyr lefel uwch priodol i'r bwrdd Strategol a fydd yn gwneud penderfyniadau ar ran y sefydliadau partner.
- iii) Bydd gofyn i bob sefydliad partner sicrhau darpariaeth adnoddau a chyllideb i gefnogi'r cynllun gwaith a gytunir gan y Bwrdd Strategol.
- iv) Bydd gofyn i bob sefydliad partner feddu ar Gynllun Rheoli wedi'i gymeradwyo a'i gytuno gan eu sefydliad.

4.2 Bwrdd Strategol

4.2.1 Rôl

- i) Bydd y Bwrdd Strategol yn gosod y Weledigaeth hirdymor ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd.
- ii) Bydd gofyn i'r Bwrdd Strategol gytuno ar y Cynllun Rheoli, y cynllun gwaith blynyddol a chymeradwyo gwaith ac argymhellion y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid.
- iii) Bydd y Cynllun Rheoli yn cael ei ddatblygu gan y Bwrdd Strategol mewn ymgynghoriad â phob sefydliad partner a'r cymunedau lleol a chymunedau buddiant yn unol â'r Canllawiau Gweithredol ar gyfer Gweithredu'r Confensiwn Treftadaeth Byd i fodloni'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd.
- iv) Bydd gan aelodau'r Bwrdd Strategol awdurdod dirprwyedig gan y sefydliadau y maent yn eu cynrychioli i gymeradwyo cynllun gwaith treigl 3 blynedd a nodwyd yn y Cynllun Rheoli.
- v) Bydd y Bwrdd Strategol yn derbyn adroddiadau gan Gydlynnydd Safle Treftadaeth y Byd yn amlinellu'r cynnydd a wneir yn erbyn y cynllun gwaith cytunedig, unrhyw gynigion ar gyfer y cyfnod dilynol a nodi unrhyw broblemau amlwg i'w hystyried.
- vi) Ni fydd y Bwrdd Strategol yn rheoli gwariant nac yn gyfrifol am brosiectau unigol a gaiff eu hatgyfeirio at sefydliadau partner i gael eu cymeradwyo drwy eu prosesau arferol, ffurfiol.
- vii) Mae'n rhaid i bob aelod o'r Bwrdd Strategol gynrychioli buddion y Safle Treftadaeth y Byd a gweithredu fel llysgennad i'r Safle Treftadaeth y Byd.

- viii) Bydd y Bwrdd Strategol, drwy'r Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid, yn annog ymgysylltiad a gwaith partneriaeth gyda phob parti â diddordeb i sicrhau fod Gwerth Cyffredinol Eithriadol y safle yn cael ei gadw drwy ddulliau cyfranogol.
- ix) Bydd y Bwrdd Strategol yn goruchwyllo gweithrediad yr Adolygiad Cyfnodol, sef prif ddull monitro cadwraeth y Confensiwn Treftadaeth Byd. Caiff hyn ei gwblhau bob chwe blynedd, a chaiff ei gydlyn gan Lywodraeth y DU a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Treftadaeth.

4.2.2 Aelodaeth

- i) Bydd aelodau'r Bwrdd Strategol yn cynnwys Aelod Cabinet perthnasol ac Uwch Swyddog Strategol o bob un o'r 3 awdurdod lleol, Cyfarwyddwr ac Uwch Swyddog Lleol o Glandŵr Cymru a (yn mynychu fel ymgynghorwyr) chynrychiolwyr o bob sefydliad statudol: Cadw a Historic England, grŵp ymgynghorol ICOMOS, cadeirydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid, Cadeirydd Cydbwyllgor yr AHNE ac Uwch Swyddog yr AHNE.
- ii) Bydd y Bwrdd Strategol yn ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd o'u plith. Bydd y rolau allweddol hyn yn destun adolygiad 2 flynedd.

4.2.3 Cyfarfodydd a thrafodion

- i) Bydd y Bwrdd Strategol yn cynnal o leiaf dau gyfarfod arferol y flwyddyn, unwaith yn y Gwanwyn ac unwaith yn yr Hydref, gan roi o leiaf 10 diwrnod (gwaith) o rybudd ysgrifenedig.
- ii) Bydd modd i'r Cadeirydd neu unrhyw ddau aelod alw Cyfarfod Arbennig ar unrhyw bryd gan roi o leiaf 5 diwrnod (gwaith) o rybudd i aelodau eraill o'r eitemau i'w trafod.
- iii) Bydd aelodau'n mynychu'r cyfarfodydd yn bersonol fel arfer, ond, bydd modd trefnu presenoldeb arbennig drwy gyfarfod ar-lein.
- iv) Os bydd y Cadeirydd yn absennol o unrhyw gyfarfod, dylai'r Is-gadeirydd weithredu fel Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, dylai'r aelodau sy'n bresennol ddewis un o'u haelodau i Gadeirio'r cyfarfod hwnnw cyn trafod unrhyw fusnes arall.
- v) Os nad yw aelod o'r Bwrdd Strategol yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod, dylid anfon ymddiheuriadau at y Cadeirydd.
- vii) Bydd cworwm yng nghyfarfodydd y Bwrdd Strategol os bydd o leiaf 4 aelod yn bresennol, cyn belled bod o leiaf 1 aelod o bob un o'r 4 sefydliad partner yn bresennol.
- viii) Bydd gan bob sefydliad partner un bleidlais. Caiff pob mater ei benderfynu drwy bleidlais unfrydol. Caiff pleidleisiau eu cynnal drwy ddangos dwylo.

- ix) Caiff cofnodion eu cymryd o drafodion bob cyfarfod. Bydd cofnodion yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd ac yn cael eu cadw er gwybodaeth. Bydd cofnodion y cyfarfodydd yn ddogfennau cyhoeddus, oni bai bod aelodau'n dymuno neu fod gofyn iddynt, am resymau yn ymwneud â chyfrinachedd neu warchod data, gadw gwybodaeth benodol rhag y cyhoedd. Bydd y cofnodion yn destun darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- x) Bydd disgwyl i aelodau'r Bwrdd Strategol ddatgan cysylltiad yn unrhyw eitem sy'n cael ei ystyried os oes ganddynt gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu. Yn yr amgylchiadau hyn ac yn dibynnu ar y math o gysylltiad, gall fod angen iddynt adael y cyfarfod.
- xi) Mae'n bosibl y bydd aelodau'n wynebu gofynion sy'n gwrthdaro ac y bydd gofyn iddynt weithredu'n strategol. Mae'n bwysig fod materion strategol, yn unol â'r Cynllun Rheoli neu'r Prif Gynlluniau mabwysiedig, yn derbyn blaenoriaeth ac yn cael eu trafod yn fanwl mewn cyfarfodydd Bwrdd.
- xii) Bydd y Bwrdd Strategol yn penderfynu ar amser, lleoliad ac amllder y cyfarfodydd.
- xiii) Gall Aelodau nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfod roi sylwadau ysgrifenedig neu ar lafar i'r Cadeirydd, a gaiff eu rhannu yn y cyfarfod perthnasol.
- xiv) Os bydd unrhyw fater brys yn codi rhwng cyfarfodydd, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd, dylid ymgynghori â'r aelodau a chasglu pleidleisiau yn ysgrifenedig/dros e-bost. Rhodir gwybod am unrhyw fusnes a gynhelir drwy drefn ysgrifenedig yn y cyfarfod nesaf.
- xv) Bydd gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Strategol awdurdod i arwyddo cytundebau cefnogaeth ar ran bob aelod o'r Bwrdd Strategol cyn belled bod y cytundeb dan sylw yn cefnogi darpariaeth y Cynllun Rheoli neu'r Prif Gynllun a'i fod wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo mewn cyfarfod neu drwy weithdrefn ysgrifenedig. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw gytundebau ariannol gan y bydd y rhain yn cael eu harwyddo gan dderbynnwyd y grant.
- xvi) Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd Strategol yn cael ei ddarparu gan Gydlynnydd Safle Treftadaeth y Byd.
- xvii) Bydd y Bwrdd Strategol yn ystyried deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i: Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010.
- xviii) I sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg, gofynnir i bob aelod o'r Bwrdd Strategol cyn y cyfarfodydd a fyddent yn awyddus i drafod unrhyw fusnes yn Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi darpariaeth cyfieithu ar y pryd lle bo angen.

4.3 Cydlynnydd Safle Treftadaeth y Byd

- i) Bydd Cydlynnydd Safle Treftadaeth y byd yn atebol i'r Bwrdd Strategol ac yn gweithio gyda phob Partner STB i ddatblygu a darparu Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd drwy:
- fodloni gofynion UNESCO i gynnal, rheoli a hyrwyddo Gwerthoedd Cyffredinol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd;
 - gwasanaethu'r Bwrdd Strategol, y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid a'r Grwpiau Darparu;
 - sicrhau cydlyniad a pharhad gweithredoedd rhwng y partneriaid darparu mewn perthynas â gweithredu'r cynlluniau gweithredu cytunedig sy'n deillio o'r Cynllun Rheoli;
 - cydlynu a hwyluso cynlluniau gweithredu, darpariaeth, gwaith monitro ac adolygu'r Cynllun Rheoli ac adroddiadau cyfnodol UNESCO;
 - hyrwyddo Safle Treftadaeth y Byd a chysylltu gydag ICOMOS y DU, Treftadaeth y Byd y DU a chyrrff eraill sy'n ymwneud â materion Safle Treftadaeth y Byd; a
 - cynorthwyo cydlyniad ceisiadau cyllid partner i osgoi dyblygiad, cystadleuaeth ac i wneud y defnydd gorau o arian cyfatebol.
- ii) Mae UNESCO yn disgwyl i gydlynnydd dynodedig ymgymryd â'r swyddogaeth hon.

4.4 Partneriaeth Budd-ddeiliaid Treftadaeth Byd

4.4.1 Rôl

- i) Bydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid yn annog ymgysylltiad a gwaith partneriaeth gyda phob parti â diddordeb i sicrhau fod Gwerth Cyffredinol Eithriadol y safle yn cael ei gadw drwy ddulliau cyfranogol.
- ii) Bydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid yn nodi gweithredoedd sy'n bodloni amcanion y Cynllun Rheoli ac yn unol â'r amcanion strategol sydd wedi'u hamlinellu gan y Bwrdd Strategol. Bydd y gweithredoedd hyn yn ffurfio rhaglen waith flynyddol i'w chymeradwyo gan y Bwrdd Strategol.
- iii) Bydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid yn gyfrifol am sicrhau fod y rhaglen waith flynyddol yn cael ei gweithredu drwy'r grwpiau darparu.
- iv) Bydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid yn ymgymryd ag unrhyw weithredoedd ychwanegol a gytunir gan y Bwrdd Strategol sy'n bodloni amcanion y Cynllun Rheoli.
- v) Bydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid yn ymdrin â, neu'n uwchgyfeirio materion y rhoir gwybod amdanynt gan y Grwpiau Darparu, i'r Bwrdd Strategol ac yn adrodd ar ddarpariaeth yn erbyn y blaenoriaethau cymeradwy.

- vi) Bydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid yn sicrhau fod unrhyw gyllideb a nodwyd gan y Bwrdd Strategol yn cael ei dyrannu i brosiectau i weithredu'r Cynllun Rheoli.
- vii) Bydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid yn sicrhau fod y gymuned yn cael ei chynnwys mewn unrhyw argymhellion, digwyddiadau a gwaith rheoli o fewn y Safle.
- viii) Bydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid yn hyrwyddo'r Safle Treftadaeth y Byd o fewn polisïau a blaenoriaethau'r sefydliad.
- ix) Bydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid yn gyfrifol am weithredu'r Adolygiad Cyfnodol.

4.4.2 Aelodaeth

- i) Bydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid yn cynnwys:
- 9 o Aelodau Etholedig Lleol, a etholwyd i'r wardiau lleol canlynol: Cefn Mawr(2); Gogledd y Waun(1); De'r Waun (1); Llangollen(2); Llangollen Wledig(1) ac Weston Rhyn(2).
- Cynrychiolwyr o Glandŵr Cymru, Cadw, Historic England, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Hanesyddol Rheilffyrdd a Chamlesi, ICOMOS, Cadeiryddion y Grwpiau Darparu a'r Cydlynnydd Safle Treftadaeth y Byd.
- ii) Bydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid yn ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd o'u plith. Bydd y rolau allweddol hyn yn destun adolygiad 1 flynedd.

4.2.2 Cyfarfodydd a thrafodion

- i) Dylai'r Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid gynnal o leiaf pedwar cyfarfod arferol bob blwyddyn, a dylid rhoi o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd ar gyfer y rhain. Bydd y Cydlynnydd Safle Treftadaeth y Byd yn trefnu'r cyfarfodydd, rhaglenni a'r cofnodion.
- ii) Bydd modd i'r Cadeirydd neu unrhyw ddau aelod alw Cyfarfod Arbennig ar unrhyw bryd gan roi o leiaf 5 diwrnod (gwaith) o rybudd i aelodau eraill o'r eitemau i'w trafod.
- iii) Os bydd y Cadeirydd yn absennol o unrhyw gyfarfod, dylai'r Is-gadeirydd weithredu fel Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, dylai'r aelodau sy'n bresennol ddewis un o'u haelodau i Gadeirio'r cyfarfod hwnnw cyn trafod unrhyw fusnes arall.
- iv) Bydd cworwm yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid os bydd o leiaf 8 aelod yn bresennol ac mae'n rhaid i 4 o'r aelodau hynny fod yn Aelodau Etholedig Lleol, gydag o leiaf un o bob sir.

- v) Bydd gan bob Sefydliad Partner un bleidlais ar argymhellion. Dylid penderfynu ar bob mater drwy fwyafrif o bleidleisiau gan yr aelodau sy'n bresennol. Cynhelir pleidleisiau drwy ddangos dwylo a bydd atebion yn cael eu cymeradwyo ar fwyafrif syml. Mewn achos o bleidlais grog, bydd gan Gadeirydd y cyfarfod bleidlais fwrw
- vi) Caiff argymhellion eu hanfon ymlaen at y Bwrdd Strategol i gael eu cymeradwyo.
- vii) Bydd cofnodion yn cael eu cymryd ym mhob cyfarfod a chaiff cofnodion eu llofnodi gan y Cadeirydd a'u cadw er gwybodaeth. Bydd cofnodion y cyfarfodydd yn ddogfennau cyhoeddus, oni bai bod aelodau'n dymuno neu fod gofyn iddynt, at ddibenion cyfrinachedd neu warchod data, gadw gwybodaeth benodol rhag y cyhoedd. Bydd y cofnodion yn destun darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- viii) Os oes gan aelod fuddiant ariannol mewn unrhyw fater i'w ystyried mewn cyfarfod, mae'n rhaid iddo ef/hi ddatgan ei ddiddordeb/diddordeb a gadael y cyfarfod pan fydd yr eitem honno'n cael ei thrafod. Dylid datgan buddiannau nad ydynt yn rhai ariannol hefyd, ond nid oes rhaid i'r aelod adael y cyfarfod.
- ix) Bydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid yn penderfynu ar amser, lleoliad ac amllder y cyfarfodydd.
- x) Gall Aelodau nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfod roi sylwadau ysgrifenedig neu ar lafar i'r Cadeirydd, a gaiff eu rhannu yn y cyfarfod perthnasol.
- xi) Os bydd unrhyw fater brys yn codi rhwng cyfarfodydd, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd, dylid ymgynghori â'r aelodau a chasglu pleidleisiau yn ysgrifenedig/dros e-bost. Rhodir gwybod am unrhyw fusnes a gynhelir drwy drefn ysgrifenedig yn y cyfarfod nesaf.
- xii) I sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r laith Gymraeg, gofynnir i bob aelod o'r Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid cyn y cyfarfodydd a fyddent yn awyddus i drafod unrhyw fusnes yn Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi darpariaeth cyfieithu ar y pryd lle bo angen.
- xiii) Bydd Ysgrifennydd y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid yn cael ei ddarparu gan Gydlynnydd Safle Treftadaeth y Byd.

4.5 Grwpiau Darparu

Caiff y gwaith o ddatblygu prosiectau, gan gynnwys manylion gwaith technegol a threfniadau cyllido eu cwblhau gan gyfres o grwpiau darparu a fydd yn cyfarfod yn chwarterol i sicrhau bod prosiectau'n cael eu datblygu a'u darparu'n effeithiol. Bydd gan bob grŵp darparu ddealltwriaeth a chylch gwaith clir o'r berthynas o fewn Llywodraethu'r Safle Treftadaeth y Byd.

Bydd gan bob un o'r Grwpiau Darparu hyn Gadeirydd a enwebwyd yn gyfrifol am alw cyfarfodydd a chydlynu gweithredoedd y grŵp. Bydd y cyfrifoldeb dros gadeirio'r grwpiau'n cael ei rhannu rhwng partneriaid i sicrhau cydgyfrifoldeb dros ymgymryd â rhwymedigaethau dan Gonfensiwn Treftadaeth Byd UNESCO. Bydd bob Grŵp yn ethol ei gadeirydd yn flynyddol.

Bydd Cadeiryddion bob Grŵp Darparu yn cynrychioli eu Grŵp Darparu ym Mhartneriaeth Fudd-ddeiliaid Treftadaeth y Byd ac yn adrodd am gynnydd gan uwchgyfeirio unrhyw faterion sy'n atal cynnydd.

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Grwpiau Darparu weithio gyda grwpiau darparu eraill o bryd i'w gilydd er mwyn cyflawni'r rhaglen gyflenwi.

Bydd pob Grŵp Darparu yn cynnwys Swyddogion o bartïon a sefydliadau â diddordeb. Bydd modd i grwpiau darparu sefydlu grwpiau tasg a gorffen ar gyfer prosiectau a gweithgareddau penodol.

Mae'n hanfodol sicrhau fod ymgysylltiad â chymunedau wedi'i gynnwys o fewn bob un o'r Grwpiau Darparu, a chyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau fod hyn yn cael ei wneud.

4.5.1 Grŵp Darparu Cynllunio, Tirwedd a Chadwraeth

Cylch gwaith y Grŵp yw sicrhau fod Gwerth Cyffredinol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad yn cael ei amddiffyn drwy warchod yr amgylchedd hanesyddol a naturiol a rheoli newid o fewn y Safle a'r glustogfa yn ofalus.

Yn bennaf, mae cylch gwaith y Grŵp yn cynnwys gweithredu egwyddorion strategol y Cynllun Rheoli a darpariaeth uniongyrchol camau diogelu allweddol. Bydd y Grŵp yn goruchwyllo ac yn monitro gweithrediad dulliau arfer orau i reoli, diogelu a chynnal y Safle Treftadaeth y Byd.

O fewn y cyd-destun hwn, bydd y grŵp yn gwneud y canlynol yn benodol:

- Ystyried ceisiadau cynllunio sylweddol, o fewn y Safle Treftadaeth y Byd, y glustogfa a lleoliadau ehangach, gan gymryd i ystyriaeth effaith cynigion ar Werth Cyffredinol Eithriadol yn unol â'r Canllaw Cynllunio Atodol mabwysiedig, a chyflwyno sylwadau ffurfiol ar ddatblygiad arfaethedig yn ôl yr angen.
- Adolygu a rhoi sylwadau ar newidiadau i ddeddfwriaeth genedlaethol sy'n cael effaith ar y Safle Treftadaeth y Byd a'r glustogfa a sicrhau dull cyson ar gyfer datblygu Canllawiau Cynllunio Lleol.
- Sicrhau gwaith cadwraeth o safon uchel ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol a naturiol drwy adolygu a gweithredu:
 - ▲ Y Cynllun Rheoli Cadwraeth
 - ▲ Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Monitro cyflwr yr amgylchedd adeiledig a naturiol drwy adrodd

ar ddangosyddion monitro allweddol fel yr amlinellir o fewn y Cynllun Rheoli ac yn fwy penodol drwy adolygu'r canlynol bob 5 mlynedd:

- ▲ Rhestr ac Adroddiad Cyflwr Cadwraeth
- ▲ Gwaelodlin y Dirwedd ac Asesiad Gweledol
- ▲ Adolygiad o Ganlyniad Penderfyniadau Cynllunio
- Rhannu arfer orau drwy ddatblygu a lledaenu canllawiau, prosiectau enghreifftiol a hwyluso hyfforddiant yn ôl yr angen.

Bydd y Grŵp yn cynnwys Swyddogion o sefydliadau partner, yn arbennig y rheiny sy'n gyfrifol am warchod a rheoli'r amgylchedd adeiledig a naturiol. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid sefydlu grŵp tasg a gorffen o bryd i'w gilydd i ddarparu prosiectau penodol fewn y Safle Treftadaeth y Byd a'r glustogfa.

Bydd aelodau craidd y grŵp yn cynnwys: -

- Cyngor Sir Ddinbych;
- Cyngor Swydd Amwythig;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Glandŵr Cymru
- Cadw
- Historic England
- Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys
- Natural Resources Wales

Bydd y Grŵp yn cyfarfod yn chwarterol ac yn adrodd ar gynnydd, yn erbyn y camau a nodwyd o fewn y Cynllun Rheoli, i'r Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid a'r Bwrdd Strategol.

Bydd y Grŵp yn ethol Cadeirydd bob blwyddyn a fydd yn cynrychioli'r Grŵp mewn cyfarfodydd o'r Bartneriaeth Strategol a'r Bwrdd Strategol.

4.5.2 Grŵp Darparu Rheoli Ymwelwyr ac Adfywio Economaidd

Cylch gwaith y grŵp hwn yw annog twristiaeth gynaliadwy a sympathetig a busnesau lleol perthnasol sy'n gysylltiedig â'r Safle Treftadaeth y Byd. Cefnogi a chynghori datblygiad rhaglen o astudiaethau ymwelwyr, gwelliannau i isadeileddau, marchnata a hyrwyddo'r Safle Treftadaeth y Byd fel cyrchfan i ymwelwyr lleol yn ogystal ag ymwelwyr o dramor, drwy'r camau a amlinellir

yn y Cynllun Rheoli.

Bydd y grŵp hwn yn gyfrifol am sicrhau fod y Brand Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac yn gyson ar unrhyw ddeunydd a gweithredoedd marchnata, hyrwyddo a dehongli. Sicrhau y caiff cyfleoedd gwaith cydweithredol eu hystyried â'r Partneriaethau Rheoli Cyrchfan a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol er mwyn mabwysiadu dull cydlynol.

Bydd y grŵp yn monitro cynnydd yn erbyn y camau allweddol a nodwyd o fewn y Cynllun Rheoli ac yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol ar gyfer y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid a'r Bwrdd Strategol.

O fewn y cyd-destun hwn, bydd y grŵp yn gwneud y canlynol yn benodol:

- Cydlynu dull ar y cyd ar gyfer rheoli ymwelwyr a hyrwyddo'r Safle Treftadaeth y Byd rhwng Partneriaethau Twristiaeth y 3 Awdurdod, Glandŵr Cymru ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
- Nodi ac olrhain cyfleoedd cyllid priodol a chydlynu adnoddau sydd ar gael ar gyfer rheoli ymwelwyr ar draws y safle.
- Cefnogi cymunedau a busnesau lleol i wireddu potensial economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y Safle a datblygu a chefnogi rhaglenni a fydd yn gwella mynediad corfforol a deallusol i bawb.
- Cydlynu ac arwain dehongliad y safle cyfan er mwyn sefydlu negeseuon clir yn ymwneud â'r Gwerth Cyffredinol Eithriadol a safleoedd treftadaeth eraill o fewn y glustogfa a sicrhau eu bod yn cael eu cyfathrebu'n gyson ac yn effeithiol.
- Sicrhau dull cynaliadwy ar gyfer gwaith hyrwyddo a rheoli ymwelwyr y safle a monitro effaith yr ymwelwyr ar y safle a'i gymunedau mewn lleoliadau allweddol.

Sicrhau y caiff hyn ei adlewyrchu yn:

- ▲ Cynlluniau Rheoli Cyrchfan y 3 Awdurdod
- ▲ Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- ▲ Strategaethau Twristiaeth ALI – Sir Ddinbych, Wrecsam a Swydd Amwythig
- Ystyried unrhyw faterion a atgyfeirwyd o'r Grŵp Llywio neu unrhyw is-bwyllgor ac argymell y prosiectau priodol i'r Grŵp Llywio ar gyfer ceisiadau cyllido.
- Rhannu arfer orau drwy ddatblygu a rhannu canllawiau, prosiectau enghreifftiol a hwyluso hyfforddiant yn ôl yr angen.
- Bydd y Grŵp yn ystyried deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys,

ond ddim yn gyfyngedig i: Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y Grŵp yn cynnwys Swyddogion o sefydliadau partner, yn arbennig y rheiny sy'n gyfrifol am Bartneriaethau Rheoli Cyrchfan a rheoli ymwelwyr. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid sefydlu grŵp tasg a gorffen o bryd i'w gilydd i ddarparu prosiectau penodol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd a'r glustogfa.

Bydd aelodau craidd y grŵp yn cynnwys: -

- Cyngor Sir Ddinbych;
- Cyngor Swydd Amwythig;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Glandŵr Cymru
- AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Cymdeithas Hanesyddol y Rheilffyrdd a Chamlesi

Bydd modd cyfethol aelodau ychwanegol ar y Grŵp ar unrhyw bryd yn ôl yr angen.

Bydd y Grŵp yn cyfarfod yn chwarterol ac yn adrodd ar gynnydd, yn erbyn y camau a nodwyd o fewn y Cynllun Rheoli, i'r Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid a'r Bwrdd Strategol.

Bydd y Grŵp yn ethol Cadeirydd bob blwyddyn a fydd yn cynrychioli'r Grŵp mewn cyfarfodydd o'r Bartneriaeth Strategol a'r Bwrdd Strategol.

4.5.3 Dysgu

Un o'r prif ddyletswyddau a osodir ar Safleoedd Treftadaeth Byd gan UNESCO yw darparu cyfleoedd addysgiadol, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc. Mae UNESCO yn credu fod addysg a dehongli yn chwarae rôl hanfodol yn y broses o hyrwyddo dealltwriaeth rhwng diwylliannau a chymunedau amrywiol a sicrhau fod y gwaith o warchod a hyrwyddo Gwerth Cyffredinol Eithriadol y Safleoedd Treftadaeth Byd yn parhau i'r dyfodol.

Cylch gwaith y grŵp hwn yw cydlynu a darparu a monitro dulliau, offer ac adnoddau deongliadol ac addysgiadol ar draws y Safle Treftadaeth y Byd drwy'r sefydliadau partner. Gall y rhain gynnwys dysgu ffurfiol ar gyfer bob oedran o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddysgu gydol oes a thrydyddol, yn ogystal â dulliau dysgu anffurfiol ar gyfer ymwelwyr a chymunedau lleol.

Bydd y grŵp yn monitro cynnydd yn erbyn y camau allweddol a nodwyd o fewn y Cynllun Rheoli ac yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer y Bartneriaeth Fudd-ddeiliaid a'r Bwrdd Strategol.

5.0 Adolygu'r cylch gorchwyl

Gall y Bwrdd Strategol adolygu'r cylch gorchwyl hwn ar unrhyw bryd, a gellir ei ddiwygio yn dilyn trafodaeth lawn am ddrafft diwygiedig mewn cyfarfod o'r Bwrdd Strategol.

ATODIAD 1

Strwythur Llywodraethu ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd


Bydd y strwythur isod yn gyfrifol am oruchwylio a sicrhau fod Cynllun Rheoli'r Safle Treftadaeth Byd yn cael ei ddarparu.


gan:

- amlinellu'r polisiau a'r camau i sicrhau fod Gwerth Cyffredinol Eithriadol y Safle a'i nodweddion yn cael eu gwarchod, eu cadw a'u trosglwyddo i'r genhedlaeth bresennol ac i genedlaethau'r dyfodol;
- bodloni gofynion y statws Safle Treftadaeth y Byd; a
- sefydlu system lywodraethu effeithiol.

drwy:

- ysbrydoli pobl i ddathlu, mwynhau a gwerthfawrogi'r Safle Treftadaeth y Byd
- hyrwyddo'r Safle Treftadaeth y Byd fel cynnig integredig i ymwelwyr;
- sicrhau gymaint o fuddion economaidd â phosibl ar gyfer yr economi lleol; a
- chyfrannu at iechyd a lles cymunedau lleol ac ymwelwyr.





 **ARCADIS**